# Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion Llesiant 2021/22

# Camau i Adferiad





(Fersiwn 2)

## Cynnwys


Cyflwyniad ..... 3

Nodyn ar Ddyletswydd Adran 6 Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ..... 3

Nodyn ar yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ..... 3

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ..... 4

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ..... 4

Dibenion y Parc a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ..... 4

Cynllun Datblygu Lleol ..... 5

Cyllid ..... 5

Cyd-destun Polisi Ehangach a Datblygiadau ..... 5

Mesur Perfformiad – Amcanion Llesiant ..... 6

Ein Hamcanion Llesiant a'u cyfraniad at Nodau Llesiant Cymru ..... 7

Perfformiad yn erbyn Amcanion Llesiant ..... 9

Amcan Llesiant Llewyrchus: Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden. ..... 9

Amcan Llesiant Cydnerth: Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol ..... 27

Amcan Llesiant Iechyd a Lles: Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwy wneud mwy o ddefnydd o’r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo’u hamgylchiadau ..... 41

Amcan Llesiant Cydraddoldeb: Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi’i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC. ..... 54

Amcan Llesiant Cymunedol: Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i’w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol. ..... 64

Amcan Llesiant Diwylliant: Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal ..... 69

Amcan Llesiant Byd-eang: Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang ..... 79

Llywodraethu a Chynaliadwyedd Ariannol ..... 93

Atodiad 1: Data a Dadansoddi Cydraddoldeb mewn perthynas â Recriwtio a’r Gweithlu ..... 107

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) yn 2021/22 a chyfraniad at ei Amcanion Llesiant. Mae hefyd yn dangos sut yr ydym wedi defnyddio'r 5 ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ein gwaith.

Yn 2021/22 roedd APCAP yn dal i ymateb i effaith Covid 19 ar ei wasanaethau, ei staff ac yn gorfod ymateb i newidiadau mewn rheoliadau. Fodd bynnag, gwelodd yr APCAP camau clir yn cael eu gwneud i adferiad ar draws gwahanol feysydd gwaith. Cydnabuwyd yn y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2021/22 bod angen dull hyblyg ac y gallai rhai gweithgareddau a phrosiectau ychwanegol fod â chynnydd cyfyngedig yn ystod y flwyddyn.

Adolygodd APCAP ei Amcanion Llesiant a blaenoriaethau lefel uchel yn 2021/22. Dyma'r adroddiad blynyddol terfynol sy'n adrodd yn erbyn Amcanion Llesiant blaenorol yr Awdurdod a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2021/22. O ganlyniad, effeithiwyd ar y cynnydd yn erbyn rhai gweithgareddau a oedd yn yr arfaeth ar gyfer 2021/22 gan y blaenoriaethau newydd a nodwyd a gweithgareddau yn y dyfodol mewn perthynas â newid sefydliadol.

Hoffem ddiolch i staff, Aelodau, gwirfoddolwyr, partneriaid a chymunedau o fewn y Parc a'r tu hwnt iddo am ein helpu i gyflawni gweithgareddau a amlygir yn y ddogfen hon a chefnogi ein camau i adferiad. Hoffem ddiolch hefyd i aelodau Pwyllgor Ieuenctid APCAP Demi-Lee Cole a Seb Landais am gyfrannu at yr adroddiad hwn (tudalen 58).

### Nodyn ar Ddyletswydd Adran 6 Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Mae gan yr Awdurdod ddogfen Gyfeirio Adran 6 (Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau) dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n nodi'r dull a ddefnyddir gan yr Awdurdod i wreiddio'r ddyletswydd o fewn ei fframwaith a threfniadau adrodd ar gyfer cynllunio corfforaethol. Yr adroddiad hwn yw un elfen o drefniadau'r Awdurdod i adrodd ar y modd y mae'n cydymffurfio â'r ddyletswydd Adran 6. Mae [Dyletswydd Adran 6] wedi'i nodi ar bwys weithgareddau perthnasol yn yr adroddiad.

### Nodyn ar yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

Er mwyn sicrhau bod camau gweithredu cydraddoldeb strategol yn cael eu cyflawni maent yn cael eu prif-ffrydio o fewn fframwaith ein cynllun corfforaethol ac mae'r adroddiad hwn yn gweithredu fel ein hadroddiad blynyddol ar gydraddoldeb hefyd. Mae [Dyletswydd Cydraddoldeb] wedi'i nodi ar bwys weithgareddau perthnasol yn yr adroddiad a nodir data monitro recriwtio a chydraddoldeb y gweithlu yn Atodiad 1.

## Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei ddynodi yn 1952 o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Mae'r Parc Cenedlaethol yn cwmpasu ardal o 612 cilomedr sgwâr, ac mae tua 23,000 o bobl yn byw mewn rhyw 50 o ardaloedd cyngor cymuned. Mae'r rhan fwyaf o'r Parc Cenedlaethol mewn perchenogaeth breifat a dim ond tua 1% y mae'r Awdurdod yn berchen arno.

"Nodweddion arbennig" y Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw:

- ✓ Hygyrchedd
- ✓ Ysblander Arfordirol
- ✓ Daeareg Amrywiol
- ✓ Amrywiaeth y dirwedd
- ✓ Treftadaeth ddiwylliannol
- ✓ Ynysoedd
- ✓ Amgylchedd hanesyddol cyfoethog
- ✓ Lle i anadlu
- ✓ Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth
- ✓ Natur anghysbell, llonyddwch a gwylltineb
- ✓ Cymeriad unigryw aneddiadau
- ✓ Amrywiaeth y profiadau a'r cyfuniad o nodweddion unigol

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei greu fel awdurdod lleol annibynnol ac iddo ddiben arbennig, a hynny o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (y Ddeddf). Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 Aelod, y mae 12 ohonynt wedi'u henwebu gan Gyngor Sir Penfro a chwech wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru.

## Dibenion y Parc a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn nodi mai Dibenion Awdurdod Parc Cenedlaethol yw

- ❖ **Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y parc**
- ❖ **Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardal.**

Hefyd mae'r Ddeddf yn nodi bod dyletswydd ar yr Awdurdod, wrth fynd ar drywydd y dibenion uchod, i feithrin llesiant cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol.

Bob pum mlynedd mae'n ofynnol i'r Awdurdod lunio Cynllun Rheoli y Parc Cenedlaethol sy'n pennu sut yr hoffai weld y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli, a hynny nid gan yr Awdurdod yn unig ond gan yr asiantaethau a'r sefydliadau eraill y gallai eu gweithgareddau effeithio ar y Parc.

Cytunodd yr Awdurdod Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol 2020-24 newydd ym mis Rhagfyr 2019. Bydd y Cynllun Rheoli yn cyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol trwy weithredu mewn partneriaeth ar draws pum thema.

- ✓ Ased genedlaethol - Tirwedd ar gyfer bywyd a bywoliaeth

- ✓ Tirweddau ar gyfer pawb - Llesiant, mwynhad a darganfod
- ✓ Parc gwydn - Diogelu ac adfer bioamrywiaeth
- ✓ Lle o ddiwylliant - Dathlu treftadaeth
- ✓ Cyfrifoldeb byd-eang - Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

## Cynllun Datblygu Lleol

Yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio statudol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol ac mae'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Cymeradwywyd Cynllun Datblygu Lleol 2 yr Awdurdod ym mis Medi 2020, a chaiff ei fonitro drwy ei Adroddiad Monitro Blynyddol.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i ymgysylltu â'r prosesau cynllunio rhanbarthol, gan gynnwys Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru a'r Cynlluniau Datblygu Strategol.

Fis Chwefror 2021 cymeradwyodd yr Aelodau i'r Awdurdod lofnodi'r Siarter Creu Lleoedd. Wrth lofnodi'r Siarter Creu Lleoedd mae'r Awdurdod yn cytuno i gefnogi creu lleoedd ym mhob maes perthnasol wrth weithio a hyrwyddo'r chwe egwyddor creu lleoedd o ran cynllunio, dylunio a rheoli lleoedd newydd a lleoedd sydd eisoes yn bodoli.

## Cyllid

Caiff gwariant net yr Awdurdod ei bennu'n bennaf gan Lywodraeth cymru, ar ffurf y Grant Parc Cenedlaethol (G.P.C.) blynyddol ac ardoll gysylltiedig gan Gyngor Sir Penfro. Yn 2021/22 roedd y G.P.C. yn £3,559k o'i gymharu â £3,419k yn 2020/21 a'r Ardoll yn £1,083k yn 2021/22 o'i gymharu ag ardoll o £985k yn 2020/21. Cynyddwyd y G.P.C. ar gyfer 2021/22 o'i sylfaen o £3,449k â grantiau ychwanegol yn ystod y flwyddyn o £265k na ddenodd ychwanegiad at yr ardoll. Fodd bynnag, mae cyllid craidd yr Awdurdod wedi gostwng dros y degawd diwethaf fwy neu lai a phan gymhwysir y mynegai prisiau defnyddwyr mae'r gostyngiad ar y cyfan yn y cyllid craidd mewn termau real yn cyfateb i fwy na 25% ers 2010/11. Mae arbedion gweithredol a chynnydd yn yr incwm o werthu nwyddau yn y canolfannau, incwm o'r meysydd parcio a thaliadau eraill ac incwm grant wedi gwneud iawn am y gostyngiad yn yr arian craidd.

## Cyd-destun Polisi Ehangach a Datblygiadau

Mae gwaith APCAP tuag at gyflawni ei Amcanion Llesiant yn eistedd o fewn cyd-destun polisi ehangach sy'n dylanwadu ar ein gwaith, ein cyfleoedd a'n hymagwedd.

- Datganiad Ardal De-orllewin Cymru a Datganiad Ardal Morol
- Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 (SoNaRR)
- Ymrwymiad gweinyddiaeth y DU i gefnogi targed 30 erbyn 30 i ddiogelu 30% o'n tir a'n moroedd er lles natur erbyn 2030

- Datblygiadau'n ymwneud â Chynllun Ffermio Cynaliadwy, Coedwig Genedlaethol i Gymru a Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd
- Tywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws Sector Cyhoeddus Cymru erbyn 2030, Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 – 2025), Mwy Nag Ailgylchu – Strategaeth i wneud economi gylchol Cymru un realiti
- Asesiad Risg Newid Hinsawdd ar gyfer y DU
- Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021
- Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025
- Strategeth Cymraeg 2050, Miliwn o siaradwyr a rhaglen waith 2021 i 2026
- Polisi Cynllunio Cymru a Egwyddorion Creu Lleoedd
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru
- Asesiad Llesiant Sir Benfro a Chynllun

### Mesur Perfformiad – Amcanion Llesiant

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu'n unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy: Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithredu a Chynnwys. Trwy gydol y ddogfen darperir enghreifftiau o sut rydym wedi cymhwyso'r egwyddorion hyn yn ymarferol. Rydym hefyd wedi asesu ein cynnydd tuag at ein hamcanion llesiant trwy ystyried:

- Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 ac Offer Diogelwr Taith y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Adroddiadau Archwilio Cymru o ran 5 ffordd o weithio
- Dangosyddion Llesiant a Cherrig Milltir Genedlaethol i Gymru
- Data meincnodi lle bo ar gael.

Nodir mesurau perfformiad, data tueddiadau a chamau gweithredu'r APCAP yn ei Gynllun Corfforaethol ac Adnoddau. Ar gyfer 2020/21 defnyddiwyd data a gasglwyd i asesu tueddiadau yn ymwneud ag adfer gwasanaethau yn dilyn effaith Covid 19. Mae'r Awdurdod yn monitro ei gynnydd yn erbyn ei amcanion llesiant yn ystod y flwyddyn, drwy adroddiadau perfformiad a ddarperir i Aelodau drwy Bwyllgorau perthnasol. Mae rhai ystadegau'n cael eu cofnodi'n flynyddol.

Yn ystod 2021/22, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ei methodoleg adrodd carbon sero-net ar gyfer cyrff cyhoeddus ar gyfer allyriadau carbon, gyda fersiwn wedi'i diweddaru a ddarperir ar gyfer 2021/22. Dyma'r fethodoleg y mae'r Awdurdod wedi'i mabwysiadu ar gyfer cyfrifo ac adrodd ei allyriadau carbon.

Bydd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cyfres o ddangosyddion i fesurau perfformiad mewn meysydd allweddol.

## Ein Hamcanion Llesiant a'u cyfraniad at Nodau Llesiant Cymru

Isod rydym wedi amlinellu sut mae ein Hamcanion Llesiant yn y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2021/22 yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru. Hefyd cafodd mesurau eu sefydlu ar gyfer llywodraethu a bod yn gynaliadwy yn ariannol i allu cynnal APCAP i gyflawni ei hamcanion llesiant yn effeithiol. Adolygodd APCAP ei amcanion llesiant yn 2021/22, mae rhagor o wybodaeth am y broses adolygu ac amcanion llesiant newydd yr Awdurdod wedi'u nodi yn adran Llywodraethu a Chynaliadwyedd Ariannol – Ffrwd Waith: Cynllunio Tymor Hir yr adroddiad hwn.

| Amcanion Llesiant APCAP | Sut yr ydym yn cyfrannu at Nodau Llesiant i Gymru |
|---|---|
| **Amcan Llesiant Llewyrchus: Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.** | ✓ 'Cymru Lewyrchus' - Drwy hyrwyddo busnesau cynaliadwy a chefnogi'r diwydiant twristiaeth drwy weithio i ymestyn y tymor twristiaeth traddodiadol a chynnal yr ased twristiaeth a hamdden allweddol yn y Parc, sef Llwybr yr Arfordir.<br>✓ 'Cymru Gydnerth' - Drwy gefnogi twristiaeth gynaliadwy a rheolaeth hamdden yn y Parc.<br>✓ 'Cymru Iachach' – Trwy gynnal a hyrwyddo Hawliau Tramwy Cyhoeddus a helpu i gynnwys mwy o bobl mewn gweithgareddau cerdded a gweithgareddau cysylltiedig. |
| **Amcan Llesiant Cydnerth: Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol.** | ✓ 'Cymru Gydnerth' - Trwy gyfrannu at wella iechyd ecosystem Cymru a cheisio mynd i'r afael â'r mater o golli bioamrywiaeth yn y Parc.<br>✓ 'Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang' - Trwy weithgareddau sy'n ymateb i golli bioamrywiaeth sydd hefyd yn cefnogi'r her o ymateb i newid yn yr hinsawdd sy'n gysylltiedig â'i gilydd.<br>✓ 'Cymru o Gymunedau Cydlynus' – Trwy gynnig cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn edrych ar ôl ecosystem y Parc. |
| **Amcan Llesiant Iechyd a Lles: Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwy wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau.** | ✓ 'Cymru Iachach', 'Cymru sy'n fwy Cyfartal,' 'Cymru o Gymunedau Cydlynus' – Trwy hyrwyddo defnydd mwy rheolaidd o'r awyr agored, profiadau awyr agored i blant, annog gwirfoddolwyr, a chael gwared ar rwystrau i fynediad, bydd yr amcan hwn, yn arwain at fanteision cadarnhaol i les corfforol a meddyliol pobl ac yn helpu i fynd i'r afael â materion megis arwahanrwydd cymdeithasol. |
| **Amcan Llesiant Cydraddoldeb: Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC.** | ✓ 'Cymru sy'n fwy Cyfartal,' 'Cymru Iachach', 'Cymru o Gymunedau Cydlynus' - Trwy weithio tuag at gyflawni ein nodau tymor hir yng Nghynllun Cydraddoldeb yr Awdurdod a chwalu'r rhwystrau rhag gallu manteisio ar gyfleoedd yn y Parc, bydd yr Awdurdod yn cefnogi'r nodau hyn. |

| | |
|---|---|
| **Amcan Llesiant Cymunedol: Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol.** | ✓ 'Cymru Gydnerth,' 'Chymru â Diwylliant Bywiog' – Trwy ddenu cyfraniad cymunedau, cymunedau buddiant megis tirfeddianwyr a grwpiau lleol, a gwirfoddolwyr mewn gweithgareddau sy'n cefnogi ecosystemau a threftadaeth Cymru<br>✓ 'Cymru o Gymunedau Cydlynus' - Trwy hyrwyddo cyfleoedd i bobl ddod ynghyd yn y Parc sydd hefyd yn helpu i leihau arwahanrwydd cymdeithasol a trwy hyrwyddo creu lleoedd drwy bolisi a phenderfyniadau cynllunio.<br>✓ 'Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang – Trwy gynorthwyo cymunedau i ddatblygu prosiectau datgarboneiddio yn y gymuned drwy'r gronfa CDC |
| **Amcan Llesiant Diwylliant: Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.** | ✓ 'Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu' – Trwy gefnogi gweithgareddau sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n ceisio ennyn cyfranogiad mwy o bobl yn y gweithgareddau hyn.<br>✓ 'Cymru o Gymunedau Cydlynus,' 'Cymru Gydnerth' – Trwy ennyn cyfranogiad cymunedau a gwirfoddolwyr i edrych ar ôl safleoedd treftadaeth. |
| **Amcan Llesiant Byd-eang: Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.** | ✓ 'Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang' - Trwy ymateb i her fyd-eang yr argyfwng Newid Hinsawdd, tra hefyd yn ennyn diddordeb pobl mewn natur, yr awyr agored a threftadaeth i gael eu hysbrydoli i edrych ar ôl a dysgu am y byd o'u cwmpas.<br>✓ 'Cymru Gydnerth,' 'Cymru Lewyrchus,' 'Cymru Iachach' – Bydd gweithgareddau sy'n ymateb i'r argyfwng Newid Hinsawdd hefyd yn cyfrannu i nodau hyn gan eu bod yn gysylltiedig â'i gilydd. |

**Perfformiad yn erbyn Amcanion Llesiant**

## Amcan Llesiant Llewyrchus: Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.

**Ffrydiau gwaith a gefnogodd cyflawni'r amcan hwn yn 2021/22:**

- Polisïau Cynllunio a'r Gwasanaeth Cynllunio
- Cynnal Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n Ased Twristiaeth
- Twristiaeth a Hamdden Gynaliadwy – Rheoli, Hyrwyddo ac Ymgysylltu
- Cefnogi Busnesau Lleol a Chaffael Cynaliadwy
- Trawsnewid Cyflogaeth a Datblygu Sgiliau yn Sir Benfro

**Uchafbwyntiau Cryno o'r Diogelwr Taith 2016-2022:**

✓ Cymeradwyo Cynllun Datblygu Lleol 2 yn 2020/21.
✓ Digideiddio prosesau rheoli gwaith ar gyfer Tîm Warden drwy brosiect Parc Digidol.
✓ Cwblhau ac agor llwybr newydd Llwybr Pwll Cornel.
✓ 86.87% o hawliau tramwy cyhoeddus yn y Parc yn agored ac yn cyrraedd safon ansawdd
✓ Defnyddio Parcmyn haf i newid ein dull o ymgysylltu ag ymwelwyr, gyda gweithgareddau allgymorth yn cael eu cynnal ar draws traethau yn y Parc gan helpu APCAP i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.
✓ Roedd strategaeth a mentrau Cyfathrebu allan o COVID 19 APCAP yn darparu gweledigaeth glir a strategol i lywio cyfathrebu allanol APCAP mewn ymateb i Covid 19.
✓ Cydweithio cadarnhaol parhaus gyda phartneriaid i gefnogi rheoli hamdden gynaliadwy, gan gynnwys hwyluso grŵp hamdden, cymryd rhan mewn Partneriaeth Diogelwch Dŵr a gweithio gyda GyA trwy Parcmon Castellmartin.
✓ Cefnogi hyrwyddo cyrchfannau drwy weithio gydag eraill drwy'r prosiectau partneriaeth Llwybrau Celtaidd a Chysylltiadau Hynafol a ariennir gan INTERREG a gweithio gyda Chyngor Sir Penfro i gefnogi sefydlu Sefydliad Rheoli Cyrchfannau Croeso Sir Benfro.
✓ Mae marchnadoedd dros dro Oriel y Parc wedi cynnig cyfleoedd i fusnesau lleol fod yn ddeiliaid stondinau tra bo'r ganolfan hefyd wedi rhoi cyfleoedd i artistiaid a chrefftwyr lleol werthu eu gwaith.
✓ 2 Lleoliadau Cynllun Kickstart wedi ei gwblhau'n llwyddiannus.
✓ 948 mynychwyr mewn sesiynau hyfforddi wedi'u trefnu gan APCAP gyda'r nod o wella a datblygu sgiliau gwirfoddolwyr ers 2017/18.
✓ Darparu cyfleoedd i bobl ifanc drwy Ddug Caeredin, Parcmyn Ieuenctid neu fel rhan o gwrs Coleg Sir Benfro i ddatblygu sgiliau ymarferol trwy weithgareddau mynediad a chadwraeth a hwylusir gan Parcmyn APCAP.

**Mae ein gwaith ar draws y ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol canlynol:**

- Canran y bobl sydd mewn cyflogaeth

- Canran y bobl sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran
- Canran yr oedolion sydd â dau ymddygiad iach neu fwy o ran eu ffordd o fyw
- Canran y bobl sy'n gwirfoddoli
- Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru

Gweithgareddau a Pherfformiad Allweddol yn 2021/22 yn erbyn ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcan Llesiant Llewyrchus:

**Ffrwd Waith: Polisïau Cynllunio a'r Gwasanaeth Cynllunio**

**1. Canllawiau Cynllunio Atodol**

[Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Aeth swyddogion ati i barhau gyda gweithgareddau paratoi ac ymgynghori Canllawiau Cynllunio Atodol yn ystod 2021/22. Mae 7 Canllawiau Cynllunio Atodol wedi cael eu mabwysiadu:

- ✓ Archaeoleg (Ar y cyd â Chyngor Sir Benfro)
- ✓ Bioamrywiaeth (Ar y cyd â Chyngor Sir Benfro)
- ✓ Datblygiadau Carafanau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau
- ✓ Safonau Parcio
- ✓ Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol a Thai Fforddiadwy
- ✓ Ynni Adnewyddadwy
- ✓ Dylunio a Datblygu Cynaliadwy

**2. Gweithdrefnau Siarad Rheoli Datblygu**

[Cynnwys]

Yn dilyn symud i gyfarfodydd rhithiol yn ystod 2021/22 cwblhawyd adolygiad ar weithdrefnau siarad Rheoli Datblygu'r Awdurdod. Cafodd gwelliannau i gyfranogiad y cyhoedd mewn Pwyllgorau Rheoli Datblygu eu cymeradwyo yng nghyfarfod Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 16 Mehefin 2021.

**3. Cynllunio Rhanbarthol**

[Integreiddio, Cydweithio]

Parhaodd APCAP i ymgysylltu â chyfleoedd i ddylanwadu ar gynllunio rhanbarthol. Mynychodd swyddogion gyfarfodydd grŵp POSW Gorllewin Cymru, cyfarfodydd cysylltiedig â Cyd-bwyllgorau Corfforedig a chyfarfodydd grŵp

cynllunio rhanbarthol ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol.

## 4. Gwella prosesau gweinyddol

[Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio]

Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol ar adolygu prosesau gweinyddu Rheoli Datblygu a nodi lle y gellir gwneud y prosesau'n fwy effeithlon. Effeithiwyd ar y cynnydd gyda’r gweithgaredd hwn yn 2021/22 oherwydd pwysau ar amser staff a newidiadau i staff yn y Tîm Rheoli Datblygu. I gefnogi'r gwaith hwn, yn ystod 2021/22 parhaodd gweithgareddau cyswllt rhwng tîm TG a'r darparwr cronfa ddata cynllunio allanol Agile Technology. Mae defnyddio Office 365 hefyd yn darparu cyfleoedd pellach ar gyfer effeithlonrwydd mewn prosesau gweinyddol.

## 5. Perfformiad Cynllunio

Nid yw perfformiad cynllunio wedi gwella eto i lefelau perfformiad cyn y pandemig o ran yr amser a gymerir i benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'r Awdurdod wedi cael cynnydd sylweddol ym maint y gwaith achosion trwy 2021 o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn cael ei fonitro ac efallai fod y cynnydd yn duedd tymor hwy neu fel arall gallai fod yn wrthnaid dros dro o bandemig Covid 19. Mae'r cynnydd hwn mewn gwaith achosion wedi cael ei ddwysáu gan absenoldebau staff, staff newydd yn dechrau a tharfu oherwydd Covid. Er bod APCAP yn ystyried y sefyllfa tymor hwy, fe ymatebodd i'r mater uniongyrchol trwy gyflogi ymgynghorwyr i fynd i'r afael â gwaith achosion a lleihau llwyth gwaith staff.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 | Meincnodi |
|---|---|---|---|---|---|
| % y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol | 92.64 (Gwyrdd) | 66.31 (Ambr) | 72.73 (Ambr) | 82 (Llywodraeth Cymru: 80) | APC Eryri: 47% |
| Yr amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar bob cais cynllunio mewn diwrnodau | 88.25 (Ambr) | 109.75 (Ambr) | 117.25 (Coch) | <67 days (Llywodraeth Cymru) | APC Eryri: 99 diwrnod |
| % y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn erbyn argymhelliad swyddogion (argymhelliad) | 9.09 (Coch) (3 allan o 33) | 7.14 (Ambr) (2 allan o 28) | 6.45 (Ambr) (2 allan o 31) | <5% (Llywodraeth Cymru) | APC Eryri: 16% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| % yr apeliadau a wrthodwyd | 71.43 (Gwyrdd) | 75.00 (Gwyrdd) | 37.50 (Coch) | >66% (Llywodraeth Cymru) | APC Eryri: 60% |
| Ceisiadau am gostau mewn apêl adran 78 a ganiatawyd yn ystod y cyfnod adrodd | 0 (Gwyrdd) | 0 (Gwyrdd) | 2 (Coch) | 0 (Llywodraeth Cymru) | APC Eryri: 0 |
| % y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd dan bwerau dirprwyedig | 93.25 | 92.45 | 94.13 | BM | APC Eryri: 95% |
| # y ceisiadau cynllunio a gofrestrwyd | 601 | 553 | 680 | Tuedd | |
| % y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd | 79.75 | 92.45 | 85.23 | Tuedd | APC Eryri: 82% |

### 6. Gwydnwch Staff

[Atal]

I gefnogi gwydnwch staff yn y Tîm Rheoli Datblygu, derbyniodd aelodau'r tîm hyfforddiant gwydnwch yn ystod 2021/22.

## Ffrwd Waith: Cynnal Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n Ased Twristiaeth Allweddol

### 1. Gwaith Creu a Gwella Llwybrau

[Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]

Parhaodd APCAP i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Benfro trwy gwblhau gwelliannau mynediad sy'n cael eu hariannu drwy Grant Gwella Mynediad Llywodraeth Cymru.

Mae cysylltiadau llwybrau troed a theithiau cylchol Newydd yn helpu i hyrwyddo teithio llesol a llwybrau cerdded. Fe wnaeth yr Awdurdod y canlynol yn 2021/22:

- ✓ Cwblhawyd gwaith i greu llwybr troed newydd 1.75km o hyd yn Llwybr Pwll Cornel, Trefdraeth, sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith cyfagos o hawliau tramwy cyhoeddus a Llwybr yr Arfordir, gan ddarparu llwybr cerdded newydd ar hyd glan yr afon yn dilyn galw lleol cynyddol am lwybr cerdded oddi ar y ffordd i gysylltu Nyfer a Threfdraeth ar hyd glan yr afon. Dechreuodd y prosiect hwn

yn 2017 gydag arfarniad cynaliadwyedd ac fe agorodd y llwybr troed newydd ym mis Gorffennaf 2021, ac yn ystod y cyfnod hwnnw negodwyd dau Gytundeb Rheoli A39, fe sicrhawyd cyllid ac fe adeiladwyd y llwybr. Defnyddiwyd contractwyr a chyflenwyr lleol i roi cymorth i gyflawni'r llwybr troed ac fe ganiataodd dau dirfeddiannwr fynediad dros eu daliadau tir.

- ✓ Cyfrannodd 8 grŵp o wirfoddolwr a myfyrwyr 36 o ddiwrnodau gwirfoddol/ gweithredu cymdeithasol dan arweiniad Parcmon Ardal y Gogledd. Fe'i hariannwyd trwy Gyllid Grant Gwella Mynediad Llywodraeth Cymru. Cofnododd cownter y defnyddiwr ar gyfer y llwybr newydd hwn 3,521 o ddefnyddwyr rhwng Hydref 2021 – Ebrill 2022 yn gynhwysol.
- ✓ Cafodd llwybr cyhoeddus o 1.5km ei adfer ger Trewyddel, gan ffurfio cyswllt sylweddol ar gyfer rhwydwaith cyfagos o hawliau tramwy cyhoeddus.
- ✓ Cafodd llwybr cyhoeddus ei adfer ger Pwll Gwaelod i ffurfio taith gerdded cylchdaith sy'n cynnwys Llwybr Arfordir Cymru.
- ✓ Roedd gwaith gwella hefyd wedi'i gwblhau ar gyfer llwybr parhaol newydd o lwybr cyhoeddus yn Chwarel Caeriw.



Llwybr troed newydd Llwybr Pwll Cornel

## 2. Parc Digidol

[Cydweithio, Integreiddio]

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae APCAP wedi gwneud gwaith drwy ei brosiect parc digidol i ddigideiddio'r broses o reoli'r gweithlu ar gyfer tasgau yn y rhaglen waith Wardeniaid. Cafodd datblygiad pellach prosiect y parc digidol ei ohirio yn

ystod 2021/22 yn dilyn ymadawiad Rheolwr Gweithrediadau APCAP. Bydd datblygiadau yn y dyfodol yn gysylltiedig â datblygu dull GIS corfforaethol ehangach sy'n gysylltiedig â newidiadau sefydliadol ehangach a datblygu cynlluniau cyflawni.

Fodd bynnag, cynhaliwyd cymorth GIS yn ystod 2021/22 trwy weithio ar draws timau gyda Swyddog Arfarnu Ymchwil a Chynaliadwyedd Cyfeiriad yn cynorthwyo'r timau Wardeniaid. Roedd cymorth a datblygiadau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- ✓ Mudo rhwng fersiynau ArcGIS Workforce, er mwyn sicrhau bod Wardeniaid yn cael fersiwn newydd o ArcGIS Workforce. Roedd hwn yn ddarn sylweddol o waith yr oedd angen ei amseru'n ofalus er mwyn amharu gyn lleied â phosibl ar y rhaglen waith.
- ✓ Creu ap Rhoi Gwybod am Atgyweiriadau, sydd wedi cael ei ddiweddaru yn unol â'r fersiwn newydd o ArcGIS Workforce.
- ✓ Gwella delweddu data fel bod Wardeiniaid yn gallu gweld, er enghraifft, llwybr troed y mae angen ei arolygu eto.
- ✓ Creu modelau prosesu ArcGIS Pro sy'n echdynnu, trawsnewid a llwytho'r amryw ffrydiau gwaith yn ArcGIS Workforce i daenlenni Excel a chreu dangosfwrdd cadwraeth a hawliau tramwy.
- ✓ Creu ystod o fapiau ar y we a chymwysiadau mapio ar y we gan gynnwys map CDC, meysydd parcio a Pwyth mewn Pryd.
- ✓ Cytunodd Tîm Arwain i adnewyddu'r contract ar gyfer ArcGIS yn 2021/22

## 3. Rhaglen Waith, Boddhad a Defnydd

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio]

O ran y rhaglen gwaith Hawliau Tramwy cwblhawyd y nifer canlynol o dasgau yn 2021/22:

- ✓ 303 o dasgau torri Llwybr yr Arfordir
- ✓ 667 o dasgau torri Hawliau Tramwy Mewndirol
- ✓ 534 o dasgau tasgau cynnal a chadw Llwybr yr Arfordir
- ✓ 996 o dasgau tasgau cynnal a chadw Hawliau Tramwy Mewndirol


Cynhyrchodd y Tîm Mynediad ganllaw arwyddion safonedig i staff sydd bellach yn cael ei ddefnyddio i greu arwyddion a logos Llwybr yr Arfordir gan ddefnyddio llwybrydd digidol gweithdy Cilrhedyn.


Doedd dim newid o ran sgôr Trip Advisor na % Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n agored ac yn hygyrch gan gyrraedd y safon ansawdd rhwng 2020/21 a 2021/22.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Llwybr Arfordir Sir Benfro Sgôr | 5 | 5 | 5 | 5 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gyffredinol Trip Advisor 1-5. | (Gwyrdd) | (Gwyrdd) | (Gwyrdd) | |
| % yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy’n agored ac yn hygyrch gan gyrraedd y safon ansawdd | 86.83 (Gwyrdd) | 86.87 (Gwyrdd) | 86.87 (Gwyrdd) | 85 |

Mae APCAP wedi gweld cynnydd mewn pryderon a adroddwyd am Lwybr yr Arfordir a safonau Hawliau Tramwy Mewndirol o'i gymharu â 2019/20. Mae'r ffigyrau yn 2020/21 yn adlewyrchu effaith Covid 19 gan gynnwys cyfnodau lle cafodd rhannau o lwybr yr arfordir eu cau. Mae'n debygol bod y niferoedd cynyddol o gerddwyr ar Lwybr yr Arfordir ac ar Hawliau Tramwy Mewndirol wedi arwain at y cynnydd yn nifer y pryderon. Mae mwy o ddefnydd hefyd wedi arwain at fwy o draul ar y rhwydwaith ac ar ddodrefn a seilwaith llwybrau. Bu'n rhaid amnewid a chynnal a chadw rhai dodrefn yn ystod cyfnodau o ddefnydd uwch (yn lle gallu aros tan y gaeaf i'w cynnal a’u cadw, pan fyddai llai o anghyfleustra i gerddwyr). Mae gan rai defnyddwyr newydd ddisgwyliadau gwahanol ynglŷn â chyflwr llwybrau sy'n gallu arwain at godi pryderon ychwanegol. O ran y rhwydwaith mewndirol mae nifer o gerddwyr wedi bod yn mentro i'w hardal leol yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf ac yn darganfod llwybrau sydd ar hyn o bryd yn anhygyrch a hwythau wedyn yn rhoi gwybod am y sefyllfa. Mewn un achos, cafodd cwyn grŵp ei chyfleu; 7 pryder yn cael eu codi am yr un mater twf llystyfiant. Fe wnaeth Cyngor Sir Penfro unioni hyn yn gyflym iawn unwaith y rhoddwyd gwybod amdano.






## 4. Ymateb i Erydu Arfordirol a Chylchoedd Tywydd Gwael

[Hirdymor, Atal]

Parhaodd APCAP i gynnal gweithgareddau i gynyddu gwytnwch llwybrau ac i ymateb i effaith erydiad arfordirol a chylchoedd tywydd gwael a stormydd arnynt. Yn ystod 2021/22:

- ✓ Ymatebodd APCAP i effaith Stormydd Arwen, Barra, Dudley ac Eunice a achosodd ddifrod eang o ran nifer o goed a gwympodd yn rhwystro dwsinau o hawliau tramwy cyhoeddus. Cwblhawyd 165 o swyddi Coed a Chlefyd Coed Ynn o dan raglen waith Hawliau Tramwy yn 2021/22.
- ✓ Cwblhawyd gwaith i adlinio Llwybr yr Arfordir i osgoi ymyl clogwyn ansefydlog yn Westmoor, Maenorbŷr ac Angle. Rhoddwyd Cytundebau Creu Llwybrau Cyhoeddus ar waith i ffurfioli newidiadau.
- ✓ Cafodd Cytundeb Creu Llwybr Cyhoeddus ar gyfer Llwybr yr Arfordir ar Lwybr Arfordir Sandy Haven ei arwyddo a'i selio gan bob parti i adlinio darn 500m o Lwybr yr Arfordir i dir sefydlog. Mae 500m o Lwybr yr Arfordir yn Sandy Haven wedi cael ei ail-raddio gan gontractwr â jac codi baw bach a'i adlinio i ffwrdd o glogwyn erydol.
- ✓ Prynwyd gwasanaeth peirianwyr ymgynghorol i ddylunio cynlluniau ar gyfer gwelliannau i Lwybr yr Arfordir yn y Traeth Mawr a Dale.
- ✓ Cafodd gwaith i atgyweirio'r mynediad at y traeth yn Nhraethllyfyn ac i atgyweirio caergawell cilffordd Angle ei roi ar dendr.
- ✓ Mae pedair pont droed oedd i fod i gael eu newid wedi cael eu disodli â strwythurau mwy gwydn gyda chynhalwyr dur a decin plastig.

## 5. Ymgysylltiad a Chynnwys Strategol

[Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]

Mae APCAP wedi parhau i gymryd rhan mewn cyfleoedd i ddylanwadu ar ddiwygio Deddfwriaeth Mynediad. Mae tri grŵp rhanddeiliaid wedi eu sefydlu gan Lywodraeth Cymru i edrych ar rôl Fforymau Mynediad Lleol, cadw cŵn ar dennyn yng nghyffiniau da byw a chynnal adolygiad degawdol o Fapiau Mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Mae APCAP yn aelod o banel arbenigol i ystyried diwygiadau i'r adolygiad degawdol o Fapiau Swyddogol o Dir Mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Parhaodd APCAP i weithio gyda Chyngor Sir Penfro i gefnogi'r Fforwm Mynediad Lleol. Cynhaliwyd cyfarfodydd y fforwm yn ystod y flwyddyn. Yn ei gyfarfod ar 8 Hydref daeth y Fforwm Mynediad Lleol at ddiwedd ei dymor tair blynedd, gydag APCAP yn cymryd yr awenau gan CSP i ddarparu ysgrifenyddiaeth a chynnal gweithgareddau i recriwtio aelodau ar gyfer y tymor newydd 2022-24.

Cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr rhanbarthol Cymru Cymdeithas Ceffylau Prydain yn ystod 2021/22 i drafod datblygu cyfleoedd ar gyfer marchogaeth/llwybrau ceffylau.

## Ffrwd Waith: Twristiaeth a Hamdden Gynaliadwy – Rheoli, Hyrwyddo ac Ymgysylltu

### 1. Parcmyn Haf

[Cydweithio, Cynnwys]

Roedd parcmyn yr haf allan ar draethau a safleoedd y Parc Cenedlaethol o gwmpas y sir yn ystod tymor 2021. Roeddent yn darparu gwybodaeth a chyngor i ymwelwyr gan ddefnyddio'r fan wybodaeth symudol a'r garafán wybodaeth lle bo modd. Roedd y gweithgareddau ar gyfer y cyhoedd yn cynnwys archwilio pyllau creigiau, hela crancod ac edrych ar sbwriel a llygredd plastig morol. Fe wnaethant hefyd gynorthwyo parcmyn a'r tîm addysg i ddarparu gweithgareddau addysg, cymunedol a gwirfoddoli. Cyflogwyd pedwar Ceidwad Haf gan APCAP yn 2021/22 i ddelio â phwysau cynyddol, mae hyn yn cymharu â 1 yn 2020/21 a 2 yn 2019/20. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffigyrau isod a hefyd yn y cynnydd yn nifer y lleoliadau ar draws y Parc lle'r oedd gweithgareddau Parcmon Haf ar gael.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # mynychu digwyddiadau pop yp/ gweithgareddau ymgysylltu ar draws y Parc | 1,212 | 888 | 4,644 | Tuedd – Adfer Gwasanaethau |
| # pobl yr ymgysylltwyd â hwy drwy weithgareddau busnes, gwybodaeth i dwristiaid a | 395 | 1,282 | 4,488 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| rhwydweithio â'r cyhoedd yn gyffredinol y Parcmyn Haf | | | | |

2. **Ap Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau**

Mae ap i roi gwybod am ddigwyddiadau wedi cael ei greu ac roedd yn cael ei dreialu yn ystod 2021/22. Bydd datblygiad pellach yn gysylltiedig â'r strategaeth a dull gweithredu GIS corfforaethol ehangach ar gyfer y dyfodol.

3. **Cyfathrebu Allan o COVID**

[Atal, Cydweithio, Cynnwys]

Parhaodd yr Awdurdod i adeiladu ar ei strategaeth a gwaith 2020/21 Cyfathrebu allan o Covid 2020/21. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- ✓ Creu a hyrwyddo ffilm Gobaith Mewn Natur
- ✓ Cerdd a gomisiynwyd yn arbennig o'r enw 'Tread Lightly' wedi'i ffilmio gyda Charles Dale; cafodd y fideo dderbyniad cadarnhaol ar draws sianeli'r cyfryngau cymdeithasol
- ✓ Pecynnau Ymgysylltu ar gyfer Parcmyn Haf
- ✓ Ffilm hyrwyddo a ac ymgyrch canfod lleoliad gyda Wales Online
- ✓ Cynnwys golygyddol ar gyfer y papur newydd i ymwelwyr â Sir Benfro, Coast to Coast, ar gyfer 2022. Hon yn 40fed flwyddyn i Coast to Coast gael ei gyhoeddi gyda fersiwn ar-lein ac ap ar gael.
- ✓ Cydweithio gyda'r Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru ar ymgyrch haf ar y cyd i hyrwyddo Parciau Cenedlaethol Cymru yn 2022

4. **Gwefan**

Parhaodd yr Awdurdod i ddarparu gwybodaeth am y Parc Cenedlaethol a gwaith yr Awdurdod trwy ei wefan.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # Defnyddwyr prif wefan | 281,598 | 217,710 | 295,656 | BM |
| # Golygfeydd tudalennau'r prif wefan | 1,430,889 | 810,199 | 1,096,366 | BM |
| Sylwer yr effeithiwyd ar ffigyrau 2020/21 gan faterion Google Analytics gyda throsglwyddiad i wefan newydd yn effeithio ar y ffigyrau ym mis Mai. | | | | |

5. **Oriel Y Parc**

[Cydweithio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6]

Agorwyd Oriel y Parc ar 26 Ebrill 2021 i ymwelwyr. Rhoddwyd mesurau lliniaru ar waith yn ystod y flwyddyn i helpu i leihau'r risg o Covid 19 yn unol â newidiadau i reoliadau ac asesiadau risg ar gyfer y safle. Roedd hyn yn cynnwys cyfyngiadau yn ystod y flwyddyn ar nifer ymwelwyr yn y ganolfan.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # ymwelwyr i Oriel Y Parc | 113,394 | 27,208 | 77,193 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |
| Sgôr Gyffredinol 1-5 Trip Advisor am Oriel Y Parc | 4.5 (Gwyrdd) | 4.5 (Gwyrdd) | 4.5 (Gwyrdd) | 4.5 |

Roedd gan y ganolfan sgôr Google Review o 4.4 allan o 5 ar gyfer 2021/22.

Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau dehongli yn Oriel y Parc i gefnogi ail-leoli'r ganolfan fel Canolfan Ddarganfod yn unol â'i chynllun dehongli. Roedd y gweithgareddau dehongli yn cynnwys:

- ✓ Comisiynu artist i greu map ymwelwyr darluniadol newydd ar gyfer Cadeirlan Tyddewi i'w arddangos yn ei libart. Cynhaliwyd gweithdy ym mis Hydref gydag aelodau'r gymuned leol i gasglu eu barn ynglŷn â’r hyn y dylid ei gynnwys fel rhan o'r broses ymgynghori.
- ✓ Creu ‘llwybr rhwbio' teuluol newydd sydd ar gael am ddim yn y ganolfan. Mae'r llwybr yn arwain teuluoedd ar daith gerdded fer i Gapel Santes Non, gyda phlaciau rhwbio wedi'u gosod ar hyd y daith i blant gymryd rhwbiadau papur oddi arnynt.
- ✓ Comisiynu artist i ddylunio dehongliad bwrdd picnic.
- ✓ Archebu plinthau/cesys arddangos newydd i arddangos darganfyddiadau archeolegol ychwanegol yn y ganolfan.
- ✓ Dehongliad dros dro wedi'i osod yn ardal y coetir sy'n esbonio am dorri'r glaswellt / peidio â thorri'r glaswellt.
- ✓ Mae labeli planhigion newydd bach eu heffaith wedi'u gosod o amgylch y tir yn Gymraeg a Saesneg.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd cyfarfod gydag ymgynghorwyr i drafod cynllun dehongli Oriel y Parc a'i adlinio o fewn yr amgylchedd ar ôl y pandemig a chyda’r blaenoriaethau ac amcanion wedi'u diweddaru ar gyfer APCAP. Cynhaliwyd diwrnod llunio gweledigaeth yn y Ganolfan ar 28 Mawrth 2022 gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach.

## 6. Paneli Darganfod Gwybodaeth

[Cydweithio, Cynnwys]




Enghraifft o Banel Darganfod Gwybodaeth

Mae Paneli Darganfod Gwybodaeth yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd gwahanol yn y Parc. Dan ofal busnesau a sefydliadau lleol maent yn cynorthwyo APCAP i gynyddu ei gyrhaeddiad trwy godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyda gwahanol gynulleidfaoedd. Derbyniodd y lleoedd canlynol Baneli Darganfod yn 2021/22:

- ✓ Newgale Holidays
- ✓ Canolfan Hamdden Aberdaugleddau
- ✓ Castell Sain Ffraid
- ✓ Trefach, Mynachlogddu
- ✓ Oriel y Parc
- ✓ CHI Trefdraeth a Traeth Poppit
- ✓ CHI Dewi Sant
- ✓ Llys y Fran
- ✓ Hendre Eynon
- ✓ Gwersylla Fferm Trevayne
- ✓ Gardd Furiog a Chaffi Stagbwll
- ✓ Harbwr Saundersfoot
- ✓ Neuadd y Farchnad Dinbych-y-pysgod
- ✓ Castell Maenorbŷr
- ✓ Neuadd Tref Penfro
- ✓ RNLI Dinbych-y-pysgod
- ✓ Canolfan Hamdden Penfro
- ✓ Kiln Park
- ✓ Canolfan Hamdden Dinbych-y-pysgod
- ✓ Heatherton
- ✓ Parc Gwledig Maenorbŷr
- ✓ Neuadd y Dref Doc Penfro
- ✓ Fferm Folly
- ✓ Traeth Lydstep
- ✓ Parc Carafanau Freshwater East
- ✓ Coleg Sir Benfro
- ✓ Celtic Water Sports, Dale
- ✓ Canolfan Hamdden Hwlffordd

- ✓ Castell Henllys
- ✓ Bae Abergwaun
- ✓ Canolfan Garddio Penrallt
- ✓ Canolfan Hamdden Abergwaun
- ✓ Canolfan Wybodaeth Trefdraeth
- ✓ Neuadd Tref Abergwaun
- ✓ Tregwynt Mill

Yn ogystal, darparwyd fersiynau digidol i Bluestone a darparwyd nifer o baneli bychain i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i'w gosod ar eu safleoedd.

## 7. Llwybrau Celtaidd a Cysylltiadau Hynafol

[Cydweithio, Cynnwys]

Parhaodd yr Awdurdod i gymryd rhan mewn dau brosiect partneriaeth sy'n gysylltiedig â threftadaeth twristiaeth sy'n cryfhau'r cysylltiadau rhwng Gorllewin Iwerddon a Gorllewin Cymru. Mae'r ddau brosiect wedi derbyn arian o Gronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop drwy Gronfa Gydweithredu Iwerddon Cymru.

Casgliad wedi'i frandio o brofiadau twristiaeth sy'n annog teithwyr i ymweld â De-ddwyrain Iwerddon a Gorllewin Cymru trwy gynnig nifer o brofiadau treftadaeth ddiwylliannol hudolus a diledryw yw Llwybr Celtaidd. Trwy'r Prosiect Llwybrau Celtaidd crëwyd llyfrgell asedau ar-lein o adnoddau marchnata gweledol o ansawdd da i fusnesau, gan roi mynediad at ffotograffau a fideos proffesiynol o leoliadau ar ledled chwe sir y Llwybrau Celtaidd gan gynnwys Sir Benfro. Cymerodd parcmyn APCAP ran mewn dau fideo. Mae'r naill yn trafod gem cudd capel Sant Gofan sy'n nythu yn y clogwyn ger Bosherston a'r llall yn ymwneud â bywyd gwyllt yn Skrinkle Haven. Mae'r prosiect wedi bod yn gweithio gyda newyddiadurwyr cenedlaethol a dylanwadwyr cyfryngau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo'r Llwybrau Celtaidd, gan gynnwys trefnu teithiau i'r wasg yn ystod 2021/22.

Prosiect sy'n atgyfodi'r cysylltiadau hynafol rhwng Gogledd Wexford a Gogledd Sir Benfro, Iwerddon a Chymru, er mwyn creu twristiaeth gynaliadwy yn y rhanbarthau hyn a rhwng y rhanbarthau hyn yw Cysylltiadau Hynafol. Roedd gweithgareddau'r prosiect yn 2021/22 yn cynnwys:

- ✓ Cynhaliodd Oriel y Parc arddangosfa Cysylltiadau Hynafol gyda'r bwriad o ymgynghori â'r gymuned leol ar ddarn newydd o gelfwaith cymunedol yn Nhyddewi sy'n cysylltu â Wexford yn Iwerddon. Yn dilyn yr ymgynghoriad ar-lein â'r gymuned a'r panel gwerthuso, comisiynwyd yr artist cyhoeddus Bedwyr Williams gyda Chymdeithas Celf Gyfoes i ddatblygu gwaith newydd i Ogledd Wexford a Gogledd Sir Benfro ar gyfer y prosiect. Cyfres o gychod gwenyn anferth yw'r gwaith celf arfaethedig, tri ohonynt ar dir Cadeirlan Tyddewi a thri yn Ferns (Iwerddon).
- ✓ Cefnogodd y prosiect gloddiad 6 wythnos yng Nghapel Sant Padrig.

- ✓ Cwblhaodd APCAP waith i ddarparu llwybr mynediad rhwydd newydd yng Nghapel Santes Non i ddarparu mynediad gwell a mwy hygyrch at y ffynnon sanctaidd ac fe greodd lwybr rhwbio a thaith sain.
- ✓ Mae Ymddiriedolaeth Pererindodau Prydain wedi'u penodi i helpu i ddatblygu llwybr pererindod arfaethedig ar draws Dwyrain Iwerddon a Gorllewin Cymru. Mae Rheolwr Mynediad APCAP yn rhoi arweiniad a chymorth technegol i is-bwyllgor perthnasol y prosiect Cysylltiadau Hynafol sy'n arwain ar y gwaith hwn.

**8. Croeso Sir Benfro**

[Cydweithio, Cynnwys]

Parhaodd APCAP i ymgysylltu a darparu cefnogaeth i Groeso Sir Benfro yn ystod y flwyddyn, gydag Aelod o'r Awdurdod yn parhau i eistedd ar ei Fwrdd. Cyflwynodd Croeso Sir Benfro gyflwyniad ar ei waith dros ei flwyddyn gyntaf i Aelodau yn APC Rhagfyr 2021.

**9. Gweithio gydag eraill ar Reoli Hamdden yn Gynaliadwy**

[Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6]

Mae APCAP yn hwyluso'r Grŵp Hamdden, sy'n cynnwys ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys Cyngor Sir Penfro, Fforwm Arfordirol Sir Benfro, yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, Awdurdod Port a'r RNLI. Mae'r grŵp yma'n cynnig goruchwyliaeth o'r ddogfen 'Rheoli Pwysau a Phrofiadau Ymwelwyr yn Arfordir Penfro'. Cafodd y ddogfen ei diweddaru ar gyfer 2021/22.

Parhaodd y tîm Parcmon yn 2021/22 i weithio'n agos gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ar ddull cydweithredol o reoli hamdden gynaliadwy yn y Parc:

- ✓ Parhaodd Rheolwr y Gwasanaeth Parcmyn i gymryd rhan yn Fforwm Diogelwch Dŵr Sir Benfro. Daeth adolygiad o dymor yr haf i'r casgliad, er gwaethaf nifer uchel yr ymwelwyr, bod digwyddiadau diogelwch dŵr ychydig yn is na'r llynedd. Roedd gwaith partneriaeth wedi'i dargedu yn y Morlyn Glas a Harbwr Dinbych-y-pysgod yn ystod y tymor wedi bod yn effeithiol wrth ymdrin â materion, gyda gwaith pellach yn yr arfaeth i gefnogi'r ardaloedd hyn. Mae grŵp gorchwyl a gorffen cerbydau dŵr personol (jet sgis) ar gyfer Sir Benfro a Cheredigion wedi cael ei sefydlu ac fe gytunwyd ar gynllun gweithredu ar gyfer tymor 2022. Mae'r camau allweddol ar gyfer partneriaid yn cynnwys arwyddion ar bwyntiau lansio, cod ymddygiad a chysylltu â darparwyr hyfforddiant.
- ✓ Cyfranogiad ac ymgysylltu parhaus â Grŵp Rheoli Hamdden Dyfrffordd Aberdaugleddau, Grŵp Hamdden a Mynediad Maes Tanio Castell Martin a Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro. Cyflwynodd Parcmyn APCAP 2

ddigwyddiad hyfforddi i aelodau'r Siarter Awyr Agored ar adar hirgoes a glannau a phwysigrwydd cynefinoedd aberol.

- ✓ Un o Barcmyn APCAP oedd Cadeirydd y Cyfarfod Cyswllt Dringo Clogwyni Blynyddol. Mae'r cyfarfod hwn yn dwyn ynghyd randdeiliaid â buddiant o’r gymuned ddringo, gan gynnwys Cyngor Mynydda Prydain, ynghyd â thirfeddianwyr allweddol fel y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a chyrff cadwraeth fel CNC.
- ✓ Cafodd tymor 2021 ei adolygu, a chytunodd y camau allweddol ar gyfer 2022 yn cynnwys cyfyngiadau dringo tymhorol gwirfoddol i warchod adar sy'n nythu.
- ✓ Rheolwr y Gwasanaeth Parcmyn oedd cadeirydd Grŵp Cyswllt Traethau Sir Benfro, yn ystod y flwyddyn. Partneriaeth hirsefydlog o bartneriaid yn y sector statudol, cyhoeddus a gwirfoddol sy'n cyflawni Strategaeth Traethau Sir Benfro yw hon.

Mae APCAP wedi ariannu Prifysgol Abertawe i wneud ymchwil i reolaeth gynaliadwy ar gyfer digwyddiadau. Y nod yw y bydd yr ymchwil hon yn helpu'r Awdurdod a phartneriaid i fabwysiadu dull rhagweithiol o reoli digwyddiadau, gan ein helpu i ymgysylltu'n well â threfnwyr digwyddiadau a rheoli'r nifer cynyddol o ddigwyddiadau 'her' cyn i ni ddechrau wynebu materion sy'n ymwneud â gorddefnyddio. Effeithiwyd yn sylweddol ar y prosiect yn ystod 2020/21 gan Covid 19 oherwydd yr effaith ehangach ar ddarparwyr digwyddiadau a'r sector hamdden a pharhaodd hyn i effeithio ar gyflawni yn 2021/22. Estynnwyd dyddiad cau'r prosiect, a bydd y prosiect ymchwil hwn yn parhau yn 2022/23.

Mae swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth APCAP yn gweithredu fel rheolwr cynaliadwyedd ar gyfer Rhwyfo Môr y Byd a Rasys Sbrintio Traeth y bwriedir eu cynnal yn Saundersfoot yn 2022. Yn ystod 2021/22 fe wnaethant gynnal gweithgareddau i roi cymorth i'r digwyddiad gael safon ISO 20121:2012. Mae myfyrwyr Prifysgol Abertawe hefyd wedi bod yn rhan o brosiectau cynaliadwyedd sy'n ymwneud â'r digwyddiad drwy APCAP.

Yn ystod 2021/22, bu'r Awdurdod yn rhan o broses ar y cyd gydag Awdurdodau Parc Cenedlaethol eraill y DU i archwilio’r potensial i ddatblygu dangosyddion cynaliadwyedd a rennir a allai gael eu defnyddio gan bob Parc Cenedlaethol y DU.

## Ffrwd Waith: Cefnogi Busnesau Lleol a Chaffael Cynaliadwy

### 1. Cefnogi Cyflenwyr Lleol a Chaffael

[Integreiddio]
[Dyletswydd Adran 6]

Fe welodd yr Awdurdod gynnydd yn y % o'i wariant a wariwyd yn lleol (cod post SA) yn 2021/22, o 39.14 yn 2020/21 a 48.42 yn 2019/20 i 51.13% yn 2021/22.

Mae talu cyflenwyr yn brydlon yn arbennig o bwysig o ran cefnogi busnesau llai.. Gwelodd yr awdurdod gynnydd bychan yn y % o anfonebau a dalodd ar amser yn 2021/22 o'i gymharu â 2020/21.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 | Meincnodi |
|---|---|---|---|---|---|
| % yr anfonebau a dalwyd ar amser (Cyfartaledd) | 97.01 (Gwyrdd) | 95.65 (Ambr) | 97.43 (Gwyrdd) | 97% | APC Eryri: 99.31% |

Mae gan weithgareddau caffael rôl bwysig yn yr agenda ddatgarboneiddio ac mae ganddynt y potensial i ddwyn effeithiau cadarnhaol o ran cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol trwy gyfleoedd ar gyfer budd cymunedol. Roedd dull tri Pharc o fynd ar drywydd caffael yn cael ei archwilio yn 2021/22 gydag APC Eryri yn arwain ac yn paratoi adroddiad cwmpasu. Bu swyddogion APCAP hefyd yn cynnal cyfarfodydd gyda swyddogion CNC er mwyn darganfod mwy am ddulliau a fabwysiadwyd mewn cysylltiad â'u Prosiect Carbon Bositif. Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd gyda WRAP Cymru er mwyn canfod cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd yn y dyfodol. Byddir yn bwrw ymlaen â rhagor o weithgarwch ar gaffael fel rhan o ddatblygu cynllun cyflawni datgarboneiddio.

### 2. Cefnogi busnesau lleol

[Cydweithio]
[Dyletswydd Adran 6]

Mae Oriel y Parc yn parhau i ddarparu cyfleoedd i artistiaid lleol a gwneuthurwyr crefftau arddangos a gwerthu eu gwaith. Cefnogwyd 38 o artistiaid a gwneuthurwyr crefft yn 2021/22, ac mae hyn yn cymharu â 13 yn 2020/21 (gafodd y ffigwr ei effeithio gan effaith Covid 19 ar ganolfan) a 27 yn 2019/20.

Roedd 41 o stondinwyr mewn ffeiriau a digwyddiadau a gynhaliwyd gan ganolfannau yn 2021/22 gyda Oriel y Parc yn cynnal marchnadoedd pop-yp yn ystod yr haf a marchnadoedd Nadolig. Mae hyn yn cymharu â 38 yn 2020/21 (marchnadoedd pop-yp tu allan yn OYP) a 185 yn 2019/20.

Parhaodd pob canolfan i chwilio am gyfleoedd i gefnogi busnesau lleol drwy nwyddau sy'n cael eu gwerthu yn eu siopau.

## Ffrwd Waith: Trawsnewid Cyflogaeth a Datblygu Sgiliau yn Sir Benfro

### 1. Lleoliadau Gwaith a Datblygu Sgiliau

[Hirdymor, Cydweithio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Nod cynllun Kickstart Llywodraeth y DU oedd darparu lleoliadau gwaith i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed ar Gredyd Cynhwysol sydd mewn perygl o fod yn ddi-waith yn y tymor hir. Cymerodd APCAP ran yn y cynllun mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Parc Cenedlaethol eraill y DU. Cafodd dau leoliad gydag APCAP eu cwblhau'n llwyddiannus yn 2021/22 trwy'r Cynllun Kickstart:

- ✓ Lleoliad Profiad Cwsmeriaid a Warden Cynorthwyol a oedd wedi'i leoli yng Nghaeriw.
- ✓ Lleoliad Archaeoleg Gynorthwyol a gefnogwyd gan Archeolegydd Cymunedol yr Awdurdod.

Ni chyflawnwyd unrhyw leoliadau gwaith newydd y tu allan i gynllun Kick Start yn 2021/22. Fodd bynnag, parhaodd lleoliad i fyfyriwr a gychwynnwyd yn 2020/21 hyd at fis Mehefin 2021 gyda myfyriwr o Brifysgol Abertawe yn gweithio gyda'r Tîm Darganfod ar fapio adnoddau dysgu yn y Parc Cenedlaethol. Rhoddodd APCAP hefyd gyfleoedd ymarferol i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau ymhellach trwy sesiynau gwirfoddoli Dug Caeredin a sesiynau ar gyfer myfyrwyr Coleg Sir Benfro (Grŵp Paratoi ar gyfer y Fyddin a Myfyrwyr Cadwraeth Amgylcheddol). Hwyluswyd y sesiynau cadwraeth a mynediad ymarferol hyn gan dimau Parcmyn a Darganfod ac roeddent yn cynnwys:

- ✓ Creu 70m o wrych newydd yn Sychpant
- ✓ Tynnu Jac y Neidiwr yng Nghoedwig Kingsmill
- ✓ Clirio prysgwydd yn Eglwys y Beifil cyn i bori ddigwydd
- ✓ Gosod 300 matiau coed yn Wolfscastle
- ✓ Rhoi wyneb ar lwybr yr arfordir yn Abereiddi a llwybr yng Nghoedwig Prendergast
- ✓ Casglu sbwriel yn Swan Lake a thorri llystyfiant yn ôl ar lwybr mewndirol ym Mhorthgain
- ✓ Gwaith llwybr ym Mhwllgwaelod, Dinas a Nanhyfer
- ✓ Cael gwared â gordyfiant ar lôn sy’n rhan o lwybr Werndew
- ✓ Tynnu ffens â gwifren bigog ar Lwybr Pwll Cornel
- ✓ Clirio helyg a chlirio ffens ar safle Gwarchod y Parc
- ✓ Rheoli prysgwydd ar dir ysgol Maenordy Llwyngwair
- ✓ Gwaith coed yn Ysgol Glannau Gwaun
- ✓ Gwaith tocio coed, gosod perthi ac adfer pyllau yn Ysgol Bro Gwaun

Mynychodd 12 o fyfyrwyr Coleg Penfro sesiwn hyfforddiant cerdded tywys o dan arweiniad Parcmon yr Awdurdod.

Yn ystod y flwyddyn, cymerodd Archeolegydd Cymunedol APCAP ran mewn digwyddiad rhithwir yn trafod gyrfaoedd mewn treftadaeth a gynhaliwyd ar YouTube, gyda 84 o olygfeydd.

## 2. Datblygu sgiliau trwy wirfoddoli

[Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Parhaodd yr Awdurdod i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant i gefnogi gwirfoddolwyr i ddatblygu eu sgiliau ymhellach.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # mynychu sesiynau hyfforddi Gwirfoddolwyr | 217 | 297 | 290 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |

Roedd fformat yr hyfforddiant yn gymysgedd o sesiynau wyneb yn wyneb a sesiynau rhithiol. Fe adeiladodd hyn ar y gwaith yn 2020/21 a welodd yr Awdurdod yn mabwysiadu opsiynau hyfforddi rhithwir mewn ymateb i gyfyngiadau Covid 19. Roedd sesiynau hyfforddi yn ymdrin ag ystod o bynciau, gan ganolbwyntio'n benodol ar sgiliau monitro cadwraeth gydag arbenigedd yn cael ei gynnig gan staff ar draws timau a chan arbenigwyr allanol i helpu i ddarparu'r hyfforddiant. Ymhlith y pynciau yr ymdriniwyd â hwy mewn sesiynau hyfforddi gwirfoddolwyr roedd:

- ✓ Hyfforddiant monitro bywyd gwyllt
- ✓ Hyfforddiant gwirfoddolwyr coed
- ✓ Hyfforddiant ymwybyddiaeth Awtistiaeth
- ✓ Cymraeg yn y dirwedd
- ✓ Hyfforddiant mentor ar gyfer mentoriaid y prosiect Gwreiddiau i Adferiad
- ✓ Hyfforddiant arweinydd cerdded
- ✓ Sesiynau briffio maes Castellmartin
- ✓ Hyfforddiant RNLI ar negeseuon allweddol diogelwch dŵr
- ✓ Hyfforddiant Croeso i Ymwelwyr a Golwg ar y Parc
- ✓ Hyfforddiant monitro llwybrau troed
- ✓ Hyfforddiant creigiau daeareg

Mae'r Awdurdod wedi bod yn archwilio sut y gall ehangu'r mathau o rolau gwirfoddoli y mae'n eu cynnig. Prin oedd datblygiad cyfleoedd yn y swyddfa yn 2021/22 oherwydd cyfyngiadau a oedd yn ymwneud â Swyddfa Llanion a'r ffaith bod y mwyafrif o staff a oedd wedi'u lleoli yn swyddfa Llanion yn parhau i weithio gartref yn unol â chanllawiau ehangach. Cyfrannwyd 346 o ddyddiau gwirfoddol gan wirfoddolwyr yn manteisio â chyfleoedd a rolau gwirfoddol newydd yn 2021/22. Mae'r rolau newydd hyn yn cynnwys:

- ✓ Gwirfoddolwyr Cadair Olwyn Traeth
- ✓ Gwirfoddolwyr Croeso i Ymwelwyr
- ✓ Gwirfoddolwyr Mentora'r Prosiect Gwreiddiau i Adferiad
- ✓ Cyfleoedd gwirfoddoli safle yng Nghastell Henllys
- ✓ Rolau Gwirfoddolwyr Annibynnol – Llwybr Troed, Gwarcheidwad Safle, Monitro Treftadaeth, Monitro Bywyd Gwyllt

## Amcan Llesiant Cydnerth: Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol

**Ffrydiau gwaith a gefnogodd cyflawni'r amcan hwn yn 2021/22:**

- Gwasanaeth Rheoli Tir Cadwraeth – Rheoli tir ar gyfer natur
- Prosiectau Bioamrywiaeth a Chysylltedd
- Ymgysylltu a Gwirfoddoli o ran edrych ar ôl Ecosystemau'r Parc
- Edrych ar ôl y Coed yn y Dirwedd
- Amgylchedd Morol a’r Blaendraeth
- Cynllunio - Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ac Ymateb i Golli Bioamrywiaeth

**Uchafbwyntiau Cryno o’r Diogelwr Taith 2016-2022:**

- ✓ Mae APCAP wedi cynyddu'r hectarau o dir a reolir ar gyfer bioamrywiaeth mewn partneriaeth â thirfeddianwyr preifat o 1,107 yn 2016/17 i 1,483.62 yn 2021/22.
- ✓ Penodi swyddog cadwraeth ychwanegol. Mae hyn wedi golygu, wrth i gyllidebau gyfyngu'r gallu i gynyddu nifer y cytundebau rheoli cadwraeth ffurfiol, mae swyddogion dal wedi gweithio'n llwyddiannus i gynyddu nifer y safleoedd newydd lle rydym yn gweithio gyda pherchnogion ar gyfer cadwraeth y tu allan i gytundebau rheoli ffurfiol. Yn 2021/22 roedd hyn yn golygu 49 o safleoedd newydd.
- ✓ Ar ôl prynu safle Caeau Grapley (Trefin) a’u rheoli’n weithredol yn awr mae nifer yr Hectarau o eiddo a berchnogir neu a brydlesir gan APCAP sy’n cael eu rheoli ar gyfer bioamrywiaeth wedi cynyddu o 463 yn 2016/17 i 474.87 yn 2021/22.
- ✓ Ers 2020/21 mae 3,678 medr o ffiniau traddodiadol wedi'u hadfer o dan gynllun grant peilot.
- ✓ Mae'r Prosiect Pobl, Llwybrau a Pheillwyr yn golygu bod APCAP wedi mabwysiadu dulliau sy’n ystyriol o beillwyr ar gyfer rheoli ei rwydwaith Hawliau Tramwy.
- ✓ Mae'r prosiect Pwyth mewn Pryd wedi dangos yr effaith gadarnhaol y gall dull seiliedig-ar-ddalgylchoedd ac ymgysylltu â chymunedau ei chael ar reoli rhywogaethau goresgynnol.
- ✓ Parhau â dull cydweithredol cryf o fynd ar drywydd adferiad natur trwy ymwneud â Phartneriaeth Natur Sir Benfro, Grŵp Tanau Gwyllt a'r Rhwydwaith Pori. Mae datblygu a chynnal perthynas gadarnhaol â thirfeddianwyr yn dal i fod yn ganolog i lwyddiant cynllun Gwarchod y Parc.
- ✓ Lluniwyd strategaeth ar gyfer Gwarchod y Glöyn Byw Britheg y Gors yn Sir Benfro.
- ✓ Ers 2016/17 mae APCAP wedi hwyluso 4,835 o ddiwrnodau gwirfoddol sydd wedi cyfrannu at weithgareddau sy'n cefnogi cadwraeth yn y Parc.
- ✓ Parhau i wneud cyfraniad ariannol at Grwpiau Awdurdodau Perthnasol ar gyfer SAC Morol Sir Benfro, Bae Ceredigion a Bae Caerfyrddin ac Aberoedd Safleoedd Morol Ewrop.

**Mae ein gwaith ar draws y ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol canlynol:**

- Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru

- Statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru
- Crynodiad carbon a deunydd organig mewn pridd
- Canran y bobl sy’n gwirfoddoli
- Canran y cyrff dŵr wyneb a’r cyrff dŵr daear sy’n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan

Gweithgareddau a Pherfformiad Allweddol yn 2021/22 yn erbyn ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcan Llesiant Cydnerth:

### Ffrwd Waith: Gwasanaeth Rheoli Tir Cadwraeth – Rheoli Tir ar gyfer Natur

#### 1. Rhaglen Gwaith Cadwraeth

[Hirdymor, Atal, Cydweithio]
[Dyletswydd Adran 6]

Roedd rhaglen gwaith cadwraeth APCAP wedi cael ei effeithio yn 2020/21 gan yr angen i dîm Wardeiniaid ganolbwyntio ar raglen torri Hawliau Tramwy. Dychwelodd y rhaglen waith cadwraeth at y trywydd iawn yn 2021/22 gyda 170 o orchwylion y rhaglen waith cadwraeth yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys gorchwylion a gwblhawyd gyda chymorth gan Barcmyn a gwirfoddolwyr).

Digwyddodd y gwaith blynyddol i dorri’r rhwydwaith o strimynnau atal tân ym mis Ionawr a mis Chwefror. Gydag ychydig o dan 15km yn cael eu torri mewn 10 safle o amgylch Dinas, Carnigli, Castlebythe, Preseli a'r Frenni Fawr.

#### 2. Rhaglen Rheoli Tir Cadwraeth

[Hirdymor, Atal, Cydweithio]
[Dyletswydd Adran 6]

Parhaodd APCAP i wneud gwaith cadwraeth ar dros gant o safleoedd gyda'r nod o fod o fudd i gynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth yn y Parc drwy ei raglen rheoli tir cadwraeth. Cyflawnir hyn drwy reoli’r ystâd sy'n eiddo neu ar brydles i APCAP, cefnogi partneriaethau rheoli tiroedd comin a hefyd drwy weithio mewn partneriaeth â thirfeddianwyr preifat gyda'n cynllun 'Gwarchod y Parc'.

Mae'r hectarau sy'n eiddo neu sy'n cael ei brydlesu gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth wedi cynyddu. Mae hyn yn adlewyrchu’r ffaith bod safle Cae Grapley, Trefin wedi symud i mewn i reolaeth weithredol yn 2021/22 ar ôl cwblhau'r weithred i brynu’r safle yn 2020/21. Mae'r cynnydd mewn tir sy'n cael ei reoli ar gyfer bioamrywiaeth mewn partneriaeth â thirfeddianwyr preifat, yn adlewyrchu twf mewn safleoedd newydd lle'r ydym yn gweithio gyda pherchnogion ar gyfer cadwraeth y tu allan i gytundebau rheoli ffurfiol.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Hectarau –Tir y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn berchen arno neu'n ei brydlesu a reolir ar gyfer bioamrywiaeth | 463 | 463 | 474.87 | Tuedd |
| Hectarau - Tir a reolir ar gyfer bioamrywiaeth mewn partneriaeth â thirfeddianwyr preifat | 1,288 | 1,356.69 | 1,483.62 | Tuedd |
| Hectarau – Tir mynediad lle mae'r APC yn cefnogi partneriaethau rheoli tir comin. | 2750 | 2858.20 | 3183.25 | Tuedd |

O ran Cynllun Gwarchod y Parc dim ond 1 cytundeb ffurfiol newydd a wnaed yn 2021/22. Mae hyn yn adlewyrchu nad oedd digon o gyllideb i ymgymryd â chytundebau rheoli newydd yn ychwanegol at y rhai oedd eisoes ar waith. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi gallu ymgymryd â 49 o safleoedd newydd o ran gweithio gyda pherchnogion ar gyfer cadwraeth y tu allan i gytundebau rheoli ffurfiol. Mae hyn yn nifer sylweddol o safleoedd ychwanegol o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Safleoedd Cadwraeth - % yn unol â'u Cynllun Rheoli ffurfiol | 100 (Gwyrdd) | 100 (Gwyrdd) | 100 (Gwyrdd) | 100% |
| # Cytundebau rheoli ffurfiol newydd a wnaed drwy Warchod y Parc | 3 | 0 | 1 | Tuedd |
| Hectarau – A gwmpesir gan gytundebau rheoli ffurfiol newydd a waned trwy Warchod y Parc | 21.94 | 0 | 2.93 | Tuedd |
| # safleoedd newydd lle rydym yn gweithio i gadwraeth gyda'r perchnogion (tu allan o gytundebau rheoli ffurfiol) | 11 | 24 | 49 | Tuedd |
| Hectarau – A gwmpesir gan safleoedd newydd lle rydym yn gweithio i gadwraeth gyda'r perchnogion (tu allan o gytundebau rheoli ffurfiol) | 67.03 | 189.79 | 256.01 | Tuedd |
| Hectarau – Cynefin pryfed peillio newydd sydd wedi'i greu | 52.91 | 189.79 | 256.01 | Tuedd |

Parhaodd APCAP i gael trafodaethau parhaus gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, sy'n ymwneud â datblygu Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Mae datblygiadau yn yr ardal hon yn debygol o effeithio ar weithgareddau rhaglen rheoli tir cadwraeth yr Awdurdod yn y dyfodol.

**3. Ymgysylltu â Diwydiant Llaeth a Ffermwyr**

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6]

Mae'r diwydiant llaeth a ffermwyr yn rhanddeiliaid allweddol yn y Parc Cenedlaethol. Rhoddodd y Prosiect Gwyrddu Amaethyddiaeth a ariannwyd trwy'r rhaglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy gyfle i ddatblygu ein hymgysylltiad â'r diwydiant llaeth a ffermwyr ymhellach yn ystod 2021/22. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar wella gweithgarwch dal a storio carbon a lleihau allyriadau carbon.

Yn ystod y flwyddyn, fe sefydlodd y Swyddog Cadwraeth fferm gyswllt cychwynnol â sefydliadau yn y sector llaeth yn Sir Benfro ac fe gynhaliodd gyfarfod gyda Chynrychiolwyr First Milk. Crëwyd rhestr o ffermydd llaeth sydd wedi'u lleoli y tu mewn i'r Parc Cenedlaethol. Mae 17 o unedau llaeth yn gorwedd yn gyfan gwbl o fewn y Parc Cenedlaethol gyda 5 arall yn ffermio swm sylweddol o dir y tu mewn i'r ffin. Gweithiodd y swyddog gyda First Milk i anfon Datganiadau o Ddiddordeb ar gyfer y cynllun peilot Gwyrddu Amaethyddiaeth. Cafwyd pedwar datganiad yn mynegi diddordeb, a derbyniwyd y pedair fferm ar y cynllun peilot. Mae dwy o'r ffermydd yn ardal Abergwaun/ Trefdraeth ac mae'r ddwy arall yn ne'r sir ger Martletwy a Jameston. Rhoddodd APCAP gomisiwn i Geldards Solicitors, Caerdydd i lunio cytundeb rhwng yr Awdurdod a'r ffermydd Peilot ar wariant ac adrodd am statws prosiectau. Cafwyd dyfynbrisiau ar gyfer system ffotofoltäig solar a batri a system cynaeafu dŵr. Erbyn diwedd mis Mawrth 2022, roedd dau brosiect ar gyfer y ffermydd wedi'u hawdurdodi ac wedi cael yr arian.

**4. Gwaith Cydweithredol**

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6]

Mae Partneriaeth Natur Sir Benfro'n darparu trosolwg strategol a fforwm ar gyfer cydweithio o ran cyflawni blaenoriaethau'r UE, y DU, Cymru a lleol ar gyfer bioamrywiaeth trwy'r Cynllun Adfer Natur ar gyfer Sir Benfro. Parhaodd APCAP i fynychu cyfarfodydd Partneriaeth yn 2021/22 ac i gytuno ar ddyrannu grantiau bach bioamrywiaeth drwy'r bartneriaeth. Sicrhawyd cyllid o'r bartneriaeth bioamrywiaeth i arolygu poblogaeth meta Puncheston ac Ambleston o Britheg y Gors.

Nod Rhwydwaith Pori Sir Benfro yw hwyluso pori er mwyn gwarchod natur, trwy sefydlu system ble mae safleoedd neu stoc sydd ar gael a safleoedd neu'r stoc sydd eu hangen, yn gallu cael eu cyfateb ble'n bosib. Felly, gellir cydlynu ymdrechion mudiadau cadwraeth a'r gymuned ffermio, a'u hintegreiddio, fel bod modd rhannu stoc, safleoedd, offer ac arbenigedd ers lles pawb. Parhaodd Rhwydwaith Pori Sir Benfro i dyfu yn 2021/22 gyda safleoedd newydd yn ymuno â'r rhwydwaith a'r rhwydwaith yn gallu ateb y galw.

Partneriaeth o sefydliadau sy'n cynnwys yr Awdurdod, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC), Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac a reolir dan nawddogaeth Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy PLANED yw Grŵp Tanau Gwyllt Sir Benfro. Mae'r Grŵp yn gweithio gyda ffermwyr, tirfeddianwyr a phorwyr i roi cyngor a chynhorthwy iddynt o ran cynnal gweithgarwch dan reolaeth i losgi llystyfiant a materion cysylltiedig. Parhaodd APCAP i ymwneud â'r grŵp yn 2021/22.

## Ffrwd Waith: Prosiectau Bioamrywiaeth a Chysylltedd

### 1. Cynllun Grantiau Peilot Ffiniau Traddodiadol

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6]

Mae gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro gyfoeth o fathau traddodiadol o ffiniau caeau, gan gynnwys cloddiau Sir Benfro, cloddiau pridd a waliau carreg sych. Mae'r ffiniau hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol i dirwedd ac ecoleg y Parc Cenedlaethol. Mae'r cynllun ffiniau traddodiadol yn rhoi cyfleoedd i dirfeddianwyr dderbyn cymorth ariannol gyda'r gwaith o reoli ac adfer ffiniau caeau traddodiadol. Adferwyd 2708 medr o ffin draddodiadol dan y cynllun yn 2021/22. Mae hyn yn adeiladu ar y 970 medr a adferwyd o dan y rownd gyntaf o geisiadau yn 2020/21.

### 2. Prosiect Pobl, Llwybrau a Pheillwyr

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6]

Mae'r prosiect peilot Pobl, Llwybrau a Pheillwyr wedi bod yn gwella bioamrywiaeth a chysylltedd ar hyd Llwybr yr Arfordir trwy gynnal ystod o orchwylion rheoli cynefinoedd ar raddfa fach ac archwilio ffyrdd o ymgorffori gweithgareddau ystyriol o beillwyr mewn gwaith o ddydd i ddydd i reoli hawliau tramwy cyhoeddus a safleoedd. Roedd gweithgareddau'r prosiect yn ystod 2021/22 yn cynnwys:

- ✓ Contractwyr yn clirio twneli gwynt er mwyn ehangu llwybrau a darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer cynefinoedd i fywyd gwyllt
- ✓ Hau gan ddefnyddio cymysgedd dolydd gwair brodorol ym maes parcio Aberllydan a dau faes parcio yng Nghwm Gwaun

- ✓ Rhoi cymorth i weithredu cynlluniau rheoli sy'n ystyriol o beillwyr yn Oriel y Parc, Pentref Porthgain, Caeau Grapley (Trefin) a Maes Awyr Tyddewi
- ✓ Lleoli arwyddion ymwybyddiaeth o chwilod olew ar lwybr yr arfordir rhwng Strymbl ac Aberllydan
- ✓ Cynorthwyo wardeiniaid yn y Gorllewin i weithredu newidiadau i'r drefn dorri
- ✓ Ymweliad â safle gan Warden Peillwyr gyda Thîm Wardeniaid y Gogledd yn Goodhope i drafod a rhoi arweiniad ar sut/ ble/ pam y dylid cyflawni gorchwylion ar hyd arfordir y gogledd cyn tymor torri 2022/23
- ✓ Darparu arweiniad i Swyddog Llwybr yr Arfordir ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion sy'n amcanu at wneud newidiadau i beth o'u rheolaeth ar lwybr yr arfordir i gefnogi peillwyr

Caiff gorchwylion peillwyr ar gyfer timau wardeniaid a pharcmyn eu dosbarthu a'u cofnodi ar yr Ap ArcGis Workforce a ddatblygwyd fel rhan o brosiect y parc digidol. Cofnodwyd fod y canlynol wedi cael eu cwblhau yn 2021/22:

- ✓ 12 o orchwylion twmpathau morgrug
- ✓ 15 o orchwylion banciau gwenyn
- ✓ 36 o orchwylion rheoli rhedyn, llystyfiant a chlirio prysgwydd
- ✓ 1 gorchwyl pren marw, 2 orchwyl dôl wair ac 1 gorchwyl gosod perth
- ✓ 8 gorchwyl i agor ardaloedd gwlyb
- ✓ 30 o orchwylion ymylon sgolpiog
- ✓ 5 o orchwylion eraill, gan gynnwys trefniadau torri amgen

## 3. Astudiaethau a Monitro

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6]

Roedd Astudiaeth Telemetreg Radio Gwiberod Pen-caer yn cynnwys ymchwilio i ddefnydd o'r llain arfordirol ar gyfer cynefinoedd gan wiberod ym Mhen-caer i oleuo strategaethau ar gyfer rheoli pwysau ar y rhywogaeth hon yn well. Mae'r Wiber yn dirywio'n gyflym yn y DU ac os bydd y tueddiadau presennol yn parhau gallai'r rhywogaeth hon fod yn gyfyngedig i ychydig o safleoedd yn unig yn y DU erbyn 2032. Mae tiroedd comin ac arfordir y Parc Cenedlaethol wedi'u nodi fel cadarnle posibl i wiberod yn y DU. Cafodd 7 gwiber eu tagio a'u tracio gan wirfoddolwyr a staff APCAP fel rhan o weithgareddau gwaith maes rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2021. Roedd hyn yn cynnwys cymorth gan aelodau lleol Grŵp Amffibiaid ac Ymlusgiaid Cymru a gwirfoddolwyr Adders are Amazing. Darparwyd hyfforddiant ar yr offer a thracio gwiberod. Cynhyrchwyd adroddiad ar yr astudiaeth gan ddefnyddio'r data a gasglwyd ac fe gynhaliwyd digwyddiad adborth ar-lein gyda 40 yn bresennol i ledaenu'r canfyddiadau. Bydd canlyniadau'r astudiaeth hon yn bwydo i mewn i waith rheoli yn y dyfodol ac mae'n amlygu ecoleg ofodol ehangach y wiber ar gynefinoedd arfordirol a mewndirol cyfagos.

Mae gan APCAP Strategaeth Mursen Ddeheuol a Brith y Gors. Yn ystod y flwyddyn comisiynwyd arolwg ychwanegol o feta-boblogaeth Brithion y Gors yng Nghas-mael a Threamlod. Cyflwynwyd diwrnodau hyfforddi i wirfoddolwyr i'w hyfforddi ar sut i fonitro Brithion y Gors a Mursennod Deheuol. Fe fydd cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn yn cael eu cynnal yn awr gyda phartneriaid perthnasol i drafod cydlynu gwaith monitro a rheoli ar gyfer Brith y Gors ledled Sir Benfro. Sicrhawyd cyllid hefyd yn ystod y flwyddyn trwy gyllid Rhwydweithiau Natur i helpu i weithredu rheolaeth ymarferol ar gynefinoedd ar gyfer Brithion y Gors.

Parhaodd gwaith arolygu a monitro hirdymor yn 2021/22 ar gyfer monitro Brain Coesgoch, Ehedyddion ac ystlumod yng Nghastell Caeriw. Yn ystod y flwyddyn hefyd, cyflwynodd yr Awdurdod gofnodion gwiberod a rhywogaethau goresgynnol i Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru.

## Ffrwd Waith: Ymgysylltu a Gwirfoddoli o ran edrych ar ôl Ecosystemau'r Parc

### 1. Prosiect Pwyth mewn Pryd

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6]

Cyflawnodd Pwyth mewn Pryd ei raglen waith ar gyfer blwyddyn olaf gweithgareddau a ariennir gan Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru (ENRAW). Mae'r prosiect Pwyth mewn Pryd yn defnyddio dull seiliedig-ar-ddalgylchoedd o reoli rhywogaethau goresgynnol. Mae'r prosiect hwn wedi ymestyn ei gwmpas i gynnwys Dalgylch Cors Castellmartin ac ardaloedd ehangach yn nalgylch Clydach, gan adeiladu ar waith blaenorol yn nalgylch Cwm Gwaun. Mae cyllid tymor byr ar gyfer y prosiect Pwyth mewn Pryd bellach wedi'i sicrhau ar gyfer parhad ac estyniad ar y prosiect trwy Grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Roedd gweithgareddau'r prosiect yn 2021/22 yn cynnwys:

- ✓ Creu pecyn cymorth prosiect.
- ✓ Adroddiad Ecosulis ar effeithiau gweithgareddau'r prosiect.
- ✓ Cynnwys safleoedd yn Allt y gog a chwarel Trych ar gyfer rheoli contractwyr wedi i arolwg o Jac y Neidiwr nodi bygythiad i'r ardal gadwraeth.
- ✓ Parhaodd swyddog prosiect i roi cyngor mewn ymateb i ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd. Darparodd cyngor hefyd i swyddog CNC ar brosiect Jac y Neidiwr yng nghors Crymlyn a rheolwr gyfarwyddwr Maenordy Llwyngwair ynghylch llwybrau troed newydd a rhywogaethau goresgynnol – Jac y Neidiwr a Chlymog.
- ✓ Prynwyd gwasanaeth contractwyr yn nalgylchoedd Clydach a Chors Castellmartin. Yn nalgylch Cors Castellmartin, treuliodd swyddog y prosiect ddyddiau gyda chontractwyr ar dorri llystyfiant er mwyn mynediad i estyn ardaloedd lle gellir rheoli Jac y Neidiwr cyn tymor 2022.

- ✓ Parhaodd arolwg ar safleoedd ar gyfer gweithgarwch dyfrgwn yn nalgylch Cors Castellmartin. Cafodd gweithgarwch dyfrgwn ei amau a'i gadarnhau trwy ffilmio dyfrgi unigol ar drap camera.
- ✓ Cyflwyniad i grŵp Amgylchedd Brynberian ar rywogaethau goresgynnol, y prosiect Pwyth mewn Pryd a sut y gall y grŵp chwarae rhan yn ystod tymor 2022.

Cyfrannodd 149 o ddiwrnodau gwirfoddolwyr at waith Rhywogaethau Goresgynnol yn 2021/22 o'i gymharu â 18.5 yn 2020/21 a 112.5 yn 2019/20. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd yn y gallu i ddarparu cyfleoedd i wirfoddoli mewn partïon gwaith yn 2021/22 oherwydd llacio rheoliadau Covid 19. Roedd partïon gwaith gwirfoddol Pwyth mewn Pryd a gyflwynwyd mewn partneriaeth gyda pharcmyn a grwpiau cymunedol yn cynnwys gweithgareddau tynnu Jac y Neidiwr gyda:

- ✓ Wardeniaid gwirfoddol ym Maenordy Llwyngwair a Llanrhian/ Porthgain
- ✓ Cyfeillion y Parc Cenedlaethol, gwirfoddolwyr Llwybrau a thrigolion Chapel Hill yn Nghoedwig Chapel Hill
- ✓ Grŵp amgylchedd Molygrove yng nghanolfan arddio Penrallt
- ✓ Parti gwaith grŵp Llwybrau Trefdraeth yn cynnal gweithgareddau yng Nghlydach

Rhoddodd y swyddog prosiect hefyd ddangosiadau fel rhan o'r gweithgaredd Tynnu Jac y Neidiwr i grŵp cymunedol Holywood a thirfeddiannwr cyfagos (Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru) ar sut i ymdrin â Jac y Neidiwr sy'n hadu.

**2. Oriel y Parc yn gwella mannau picnic a choetir**

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio]
[Dyletswydd Adran 6]

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae Oriel y Parc wedi bod yn cynnal gweithgareddau i wella ei ardaloedd picnic a choetir. Roedd gweithgareddau yn 2021/22 yn cynnwys:

- ✓ Cyfarfodydd ac ymweliadau â safle gyda'r Warden Peillwyr a wnaeth roi cyngor i warden y safle ar arferion torri, hysbysu staff y safle am yr hyn sydd wedi'i blannu a'r manteision i beillwyr ac archwilio sut i wella plannu yn yr haf i greu safle sy'n ystyriol o beillwyr trwy gydol y flwyddyn. Mae cynllun torri ar waith ar gyfer y safle. Cafodd poster ei greu ac mae'n cael ei arddangos a hwnnw'n egluro pam fod rhai ardaloedd yn cael eu torri ac eraill yn cael eu gadael.
- ✓ Crëwyd tomen compost
- ✓ Ychwanegwyd labeli planhigion i'r gwrych a'r llwyni ffrwytha
- ✓ Cafodd clytiau ar gyfer blodau gwyllt eu clirio a chafodd hadau eu hau yn yr ardaloedd coetirog ac ar hyd rhai ymylon fel eu bod yn blodeuo'n fwy yn yr haf

## 3. Gwirfoddoli Cadwraeth

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Parhaodd APCAP i ddarparu rhaglen hyblyg o gyfleoedd gwirfoddoli cadwraeth yn 2021/22. Roedd tueddiad cadarnhaol o ran adferiad yn y maes hwn yn rhannol oherwydd cyfleoedd cynyddol i ddarparu partïon gwaith cadwraeth grŵp yn dilyn llacio rheoliadau Covid 19.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # Diwrnodau Gwirfoddoli - cadwraeth | 1,149 | 279 | 1,010 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |

Roedd gweithgareddau parti gwaith cadwraeth gwirfoddol a hwylusir gan staff APCAP yn cynnwys:

- ✓ Gwirfoddolwyr Llwybrau yn gosod perthi yng Nghilrhedyn
- ✓ Chwynnu perthi gyda pharcmon ar fferm gadwraeth yn ardal Maenorbŷr
- ✓ Tynnu hen ffensys ar safle Caeau Grapley
- ✓ Hau dôl blodau gwyllt yn Summerhill
- ✓ Creu ac amnewid blychau adar yn Allt Pengegin
- ✓ Clirio'r ddraenen ddu mewn twyni yn Freshwater East
- ✓ Gwirfoddolwyr y Prosiect Gwreiddiau i Adferiad yn clirio eiddew o feddi ym mynwent Dinbych-y-pysgod mewn partneriaeth gyda Hafal
- ✓ Torri llystyfiant o gwmpas Pwll ym Mhentre Ifan

Cafodd 12 o wirfoddolwyr a staff hyfforddiant ar gasglu a thyfu hadau Clafrllys Gwreidd-dan yn y Bug Farm ar 12 Hydref. Mae miloedd lawer o hadau wedi cael eu casglu gan wirfoddolwyr ers y digwyddiad, ac mae'r Blanhigfa Blodau Gwyllt bellach yn tyfu 1000 o blanhigion dechreuol i'r Awdurdod o'r hadau.

## 4. Llygredd Golau ac Awyr Dywyll

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Mae APCAP yn cydweithio â Chyngor Sir Penfro ar ymatebion i lygredd golau drwy'r Bartneriaeth Llygredd Golau. Yn ystod y flwyddyn, comisiynodd y bartneriaeth arolwg goleuo ac astudiaeth dichonoldeb yn edrych ar ddynodiad Gwarchodfa Awyr Dywyll ar gyfer Sir Benfro. Roedd yr arolwg yn cynnwys astudiaeth achos o'r diwydiant ar Dragon Energy.

Mae PCNPA hefyd wedi bod yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd Awyr Dywyll. Cyflawnodd swyddogion dair sesiwn ar-lein gyda 113 o gyfranogwyr yn ystod Awyr Dywyll Cymru ym mis Ebrill 2021. Roedd hyn yn cynnwys

digwyddiad syllu ar y sêr rhithwir, digwyddiad hen straeon o dan y sêr a sesiwn noson serennog i Sir Benfro gan roi cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn dathlu ein hawyr nos.  Roedd gweithgareddau eraill i ymgysylltu â'r awyr dywyll yn 2021/22 yn cynnwys Teithiau Castell gyda'r nos yng Nghaeriw, sesiynau Ystlumod Ysblennydd yng Nghaeriw a Thyddewi, digwyddiad myg a ryg yn syllu ar y sêr gyda'r nos yn Ysgol Gymunedol Neyland drwy Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro a theithiau tywys yn y nos ar gyfer Clwb Ieuenctid Trefdraeth a Chanolfan Ieuenctid Point, Abergwaun.

## Ffrwd Waith: Edrych ar ôl y Coed yn y Dirwedd

### 1. Rhaglen Gwaith Clefyd Coed Ynn - Safleoedd Awdurdod

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6]

Mae afiechydon coed yn cael effaith ar y coed sydd yn ein tirwedd yn enwedig Chalara Fraxinea/ sef clefyd coed ynn sy'n golygu ein bod yn colli nifer sylweddol o'n coed ynn, sef coeden frodorol o bwys. Yn ystod 2020 cynhaliwyd arolygon o'r coed ynn i ddarganfod maint y broblem ar ein hystâd. Parhaodd rhaglen waith clefyd coed Ynn yn 2021/22. Ail-ddechreuodd y tîm wardeniaid yr arolwg o safleoedd parth 2 a 3 o ystadau'r Awdurdod yn ystod yr haf tra'r oedd coed yn eu dail a'r clefyd yn fwy gweladwy. Fe wnaeth problemau gyda'r rhaglen GIS a ddefnyddir gan APCAP achosi oedi gyda pheth gwaith arolygu yn ystod y flwyddyn. Digwyddodd ymyriadau torri a pheillio yng Nghoedwig Prendegast, Solfach a chafodd tair Coeden Ynn eu gwaredu yn ardal Saundersfoot. Mae prif safleoedd ymwelwyr y gogledd wedi cael eu harolygu ac mae'r holl goed problemus posibl wedi'u tagio.

### 2. Coed wedi'u Gwarchod

[Hirdymor, Atal]
[Dyletswydd Adran 6]

Mae gan awdurdodau cynllunio lleol bwerau penodol i ddiogelu coed trwy wneud gorchmynion cadw coed (TPOs) a pharhaodd yr Awdurdod i ddarparu ei gweithgareddau goed gwarchodedig yn 2021/22.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # y ceisiadau i wneud gwaith i goed a warchodir y penderfynwyd | 41 | 37 | 26 | Tuedd |
| # y gorchmynion diogelu coed newydd a wnaed | 2 | 0 | 0 | Tuedd |

### 3. Plannu coed gan wirfoddolwyr, gweithredu cymdeithasol a chymuned

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Parhaodd APCAP i helpu i hwyluso cyfleoedd i wirfoddolwyr a chyfranogwyr gweithredu cymdeithasol gyfrannu at nifer y coed yn y dirwedd. Cyfrannwyd 246.5 o ddiwrnodau gwirfoddolwyr a gweithredu cymdeithasol at weithgareddau plannu coed gan gynnwys ffitio matiau yn 2021/22. Mae hyn yn cymharu â 131 yn 2020/21.



Safle Wolfscastle

Roedd gweithgareddau plannu coed gwirfoddol a gweithredu cymdeithasol wedi'u hwyluso gan APCAP yn cynnwys:

- ✓ Plannu coed yng nghaeau Grapley (Trefin) gyda gwirfoddolwyr o Welliant Trefin, wardeniaid gwirfoddol APCAP a Chyfeillion y Parc Cenedlaethol
- ✓ Plannu coed a gweithgareddau ffitio mat yn Wolfscastle gyda Parmyn Ieuenctid a Gwirfoddolwyr Llwybrau
- ✓ Plannu coed yn Sychpant, Cwm Gwaun ac Ardal Cyngor Cymuned Crymych gyda Grŵp Amaethyddol Ysgol y Preseli
- ✓ Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Gynradd Gymunedol Johnston yn plannu coed fel rhan o brosiect Roots/Gwreiddiau
- ✓ Plannu coed gyda gwirfoddolwyr yn Ysgol Fenton
- ✓ Sesiwn plannu coed yn Old Mill Grounds, Hwlffordd gyda chyfranogwyr gwirfoddol Gwreiddiau i Adferiad
- ✓ Parcmyn yn cefnogi gwirfoddolwyr i blannu coed ar draws nifer o safleoedd Gwarchod y Parc
- ✓ Plannu coed gyda gwirfoddolwyr yng Nghastell Caeriw

Fe wnaeth aelodau yng nghyfarfod yr APC ym mis Tachwedd 2021 benderfynu cefnogi cynllun plannu coed i gofio 70 mlynedd ers dynodiad y Parc Cenedlaethol. Daeth hyn yn dilyn cynnig a gyflwynwyd gan Aelod o'r Awdurdod. Bydd y gwasanaeth Parcmyn yn ceisio ymgysylltu â chynghorau cymuned, tref a

dinas lleol o fewn y Parc Cenedlaethol neu'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol i gyflawni'r cynllun dros y tair blynedd nesaf.

## Ffrwd Waith: Amgylchedd Morol a'r Blaendraeth

### 1. Partneriaethau Strategol ac Ymgysylltu sy'n cefnogi'r Amgylchedd Morol

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio]
[Dyletswydd Adran 6]

Parhaodd yr Awdurdod i gael ei gynrychioli ar y Grwpiau Awdurdodau Perthnasol ar gyfer ACA Forol Sir Benfro, ACA Bae Ceredigion a Safleoedd Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Sir Gaerfyrddin ac i gyfrannu at ariannu'r rhain. Parhaodd yr Awdurdod i gynrychioli Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Eryri ar Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (AMG) Llywodraeth Cymru, gan gyfrannu at werthuso cynigion am gyllid i weithredu cynllun gweithredu AMG Cymru. Cynrychiolir APCAP hefyd ar Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (sy'n dwyn ynghyd ystod o bartïon â buddiant i ymgysylltu ar gyflawni blaenoriaethau Isadran y Môr a Physgodfeydd a gwaith ehangach ar y môr a physgodfeydd) ac ar y Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol (sy'n helpu awdurdodau cyhoeddus i ddeall a gweithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, a fabwysiadwyd yn 2019.)

Yn ystod y flwyddyn sicrhaodd swyddog ACA Sir Benfro Forol gyllid i weithredu hefyd fel cydlynydd Sir Benfro ar gyfer gwaith morol o dan y prosiect Natur Am Byth. Roedd y contract hwn ar gyfer swydd gydamserol dros 17 mis i weithio ar gam datblygu'r prosiect, gan gyfrannu at gyfleoedd i wella cyflwr nodweddion yr ACA a hefyd ei gwneud yn bosibl cynnal swydd Swyddog ACA Sir Benfro Forol yn gyfforddus tan 2023.

Mae APCAP wedi cefnogi gwefan newydd ar gyfer ACA Morol Sir Benfro, a lansiwyd yn 2022..

Mae swyddog ACA Sir Benfro Forol yn cynrychioli'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol (gan gynnwys APCAP) ar Grŵp Rhanddeiliaid Morwellt Dale. Mae'r grŵp hwn yn ystyried sut y bydd prosiect Morwellt Dale, y prosiect adfer morwellt cyntaf yn y DU, yn cael ei reoli a'i fonitro yn y dyfodol. Mae Swyddog ACA Sir Benfro Forol hefyd wedi bod yn gweithio gyda Project Seagrass i helpu i hwyluso gwaith yn y dyfodol i adfer morwellt yng Nghymru gan gynnwys sefydlu Rhwydwaith Morwellt Cymru. Fe wnaethant hefyd roi mewnbwn ysgrifenedig i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, ynghylch potensial carbon glas yng Nghymru ac ar ddiweddaru / hybu rheolaeth ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

Cynhyrchodd swyddog ACA Sir Benfro Forol adroddiad drafft ar "SWEPT 2" (Arolygu Amgylchedd y Ddyfrffordd am Fygythiadau Llygredd - Prosiect Arfordir

Agored Sir Benfro 2020). Cynhaliwyd arolygon (a phrofion samplu dŵr) ym mis Hydref 2020 gan Barcmyn APCAP, Swyddog ACA Sir Benfro Forol, a rhai gwirfoddolwyr. Roedd y gwaith yn dilyn ymlaen o brosiect gwirfoddolwyr SWEPT (Arolygu Amgylchedd y Ddyfrffordd am Fygythiadau Llygredd) 2018-19. Dangosodd canlyniadau'r arolwg fod lefelau llygredig o nitrad wedi eu canfod mewn 51 (63%) o'r 81 lleoliad yr ymwelwyd â hwy ac a brofwyd, a bod lefelau llygredig o ffosffad wedi'u canfod mewn 8 lleoliad (10%). O wybodaeth leol ac arsylwadau, ystyriwyd mai dŵr ffo amaethyddol oedd prif achos tebygol y llygredd a gofnodwyd yn ystod yr arolwg.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Bwrdd Rheoli Maethynnau Cleddau ym mis Mawrth 2022, dan arweiniad Cyngor Sir Penfro. Rôl y Bwrdd yw adnabod a chyflawni Cynllun Rheoli Maethynnau, a fydd yn neilltuo camau i aelodau'r Bwrdd er mwyn cyrraedd targedau cadwraeth CNC. Bydd y byrddau'n cael eu cefnogi trwy fewnbwn gan grŵp technegol a grŵp rhanddeiliaid i helpu i lywio eu penderfyniadau.

## 2. Rheoli'r Blaendraeth

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6]

Mae APCAP wedi bod yn ymwneud â phartneriaid wrth greu Cynllun Rheoli'r Blaendraeth. Mae'r cynllun wedi cael ei oleuo gan y canlynol

- ✓ Gwybodaeth sylfaenol a gasglwyd ynghylch pa weithgareddau a geir sy'n dylanwadu ar y blaendraeth a llunio model ar sail hyn.
- ✓ Mapio rhanddeiliaid sydd â dylanwad dros agweddau ar reoli'r blaendraeth.
- ✓ Arolwg o randdeiliaid allweddol i gasglu eu barn ynglŷn â blaenoriaethau ar gyfer rheoli. Ystyriwyd adborth wedi'i goladu o arolygon yng nghyfarfod y Grŵp Cyswllt Traethau ym mis Rhagfyr.

Comisiynodd APCAP adroddiad ar gasglu gwymon yn gynaliadwy i roi cymorth i reoli gweithgarwch i gasglu gwymon yn fasnachol yn y rhynglanw. Mae'r Awdurdod yn adolygu ei drwyddedau yn unol ag argymhellion o'r adroddiad.

Ym mis Mawrth fe wnaeth y Rheolwr Gwasanaethau Parcmyn gwrdd â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac ymgynghorwyr i gynnal adolygiad o reoli Freshwater West ac ystyried opsiynau ar gyfer rheoli yn y dyfodol.

## 3. Glanhau traethau gan wirfoddolwyr, gweithredu cymdeithasol a'r gymuned

[Cydweithio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Parhaodd APCAP i hwyluso gweithgareddau glanhau traeth a glannau gyda gwirfoddolwyr a chyfranogwyr gweithredu cymdeithasol yn 2020/21. Cyfrannwyd 117 diwrnodau gwirfoddolwyr a gweithredu cymdeithasol i weithgareddau glanhau'r traeth, blaendraeth a glanhau afonydd yn 2021/22. Mae hyn yn cymharu â 17 diwrnod yn 2020/21 a 249 diwrnod yn 2019/20.

## Ffrwd Waith: Cynllunio - Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ac Ymateb i Golli Bioamrywiaeth

### 1. Cymeradwyo yn Groes i Bolisi Strategaeth 8

[Hirdymor, Atal]
[Dyletswydd Adran 6]

Trwy Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol mae'r Awdurdod yn monitro effeithiolrwydd polisi cynllunio er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cynllunio yn y Parc yn rhoi cymorth i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a diogelu a gwella nodweddion arbennig y Parc.

Yn 2021/22 o ran Dangosydd 4, gan roi sylw i Faes Polisi 8 roedd 1 gymeradwyaeth yn groes i Bolisi Strategaeth 8 Nodweddion Arbennig - Cymeradwyaethau Yn Groes i'r Argymhelliad. Nododd adroddiad y swyddog fod "gwrthwynebiad polisi sylfaenol i ddatblygu yn y lleoliad hwn sydd yn rhannol o fewn parth llifogydd C2 ac o fewn ardal rheoli perygl arfordirol a ddiffinnir yn CDLl2. Mae hefyd yn mynd yn groes i Bolisi 41 sy'n cyfeirio safleoedd gwersylla newydd i leoliadau priodol ac i Bolisïau 8 ac 14 yn y CDLl sy'n gwarchod y Parc Cenedlaethol a'i nodweddion arbennig". Mae dadansoddiad monitro yn nodi bod Aelodau wedi cymeradwyo'n groes i'r argymhelliad ar ôl ystyried yr holl bolisïau cynllunio perthnasol ac ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill. Cafodd y dull polisi ar gyfer safleoedd carafanau a gwersylla ei adolygu'n ddiweddar mewn ymgynghoriad ag Aelodau wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol 2. Ni chyrhaeddwyd y targed o '0'. Nid yw'r Sbardun o '2' gymeradwyaeth yn groes i'r argymhelliad wedi cael ei dorri. Y camau a nodwyd mewn ymateb yw bod angen ymchwilio ymhellach ac ymchwil bellach.

### 2. Ymgysylltu Strategol

[Hirdymor, Atal, Cydweithio]
[Dyletswydd Adran 6]

Roedd yr Awdurdod wedi bwriadu gwneud gwaith gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu dull rhanbarthol ar gyfer y De Orllewin o roi cyngor arbenigol ar ddatblygiadau un blaned ac amodau o ran gwelliannau i fioamrywiaeth yn ôl y Ddyletswydd Bioamrywiaeth dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Er i broses dendro ddigwydd, bu'n rhaid gohirio rhagor o waith oherwydd

materion a oedd yn ymwneud ag Awdurdodau cynllunio eraill a wnaeth arafu'r gwaith ar y cyd yn y maes hwn.

Mae'r Awdurdod yn parhau drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth i fod ag ecolegydd cynllunio ar y cyd gyda Chyngor Sir Penfro.

## Amcan Llesiant Iechyd a Lles: Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwy wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau

**Ffrydiau gwaith a gefnogodd cyflawni'r amcan hwn yn 2021/22:**

- Cyfleoedd Cerdded â Chymorth
- Hyrwyddo Buddion Iechyd y Parc - Partneriaethau, Mentrau a Phrosiectau
- Ysgolion a Chwarae yn yr Awyr Agored
- Cynllunio Tai Fforffiadwy
- Lles, Cydnerthedd a Datblygiad y Gweithlu

**Uchafbwyntiau Cryno o'r Diogelwr Taith 2016-2022:**

- ✓ Hyrwyddo mynediad at fuddion iechyd a lles y Parc trwy 6,971 o gyfranogwyr mewn sesiynau cerdded a chymorth Walkability ers 2016/17. Yn ogystal, sicrhau cyllid a gweithredu fel prif bartner ar gyfer Prosiect Cerdded dros Les rhanbarthol.
- ✓ Helpu mwy o bobl i gymryd rhan mewn gwirfoddoli ac ymgysylltu â natur ac awyr agored drwy brosiect gwirfoddoli â chymorth Llwybrau a 'Prosiect Gwreiddiau i Adferiad' gyda MIND Sir Benfro. Gan gynnwys sicrhau £339,891 o arian allanol ar gyfer prosiect Gwreiddiau i Adferiad drwy gronfa Pobl a Lleoedd y Loteri Genedlaethol.
- ✓ 10,059 o ddyddiau gwirfoddol wedi eu cyfrannu gan wirfoddolwyr APCAP ers 2017/18.
- ✓ Cryfhau dull ac ymrwymiad i wirfoddoli drwy benodi cydlynydd gwirfoddolwyr.
- ✓ 36,674 yn cymryd rhan mewn sesiynau addysg awyr agored ers 2017/18.
- ✓ Parhau i gefnogi cydweithio mewn dysgu awyr agored trwy hwyluso rhwydwaith Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro, gan gynnwys uwchsgilio athrawon trwy ddigwyddiadau hyfforddi a chynorthwyo ysgolion i greu mannau dysgu awyr agored.
- ✓ Hwyluso cydweithio a rhannu dysgu rhwng partneriaid iechyd drwy Rwydwaith Gwasanaeth Iechyd Seiliedig ar Natur Gorllewin Cymru a mabwysiadu llwyfannau digidol megis Basecamp i gefnogi hyn.
- ✓ Mae 160,995 o fapiau cerdded wedi cael eu lawrlwytho o'r wefan ers 2017/18.
- ✓ 102 o dai fforddiadwy wedi'u cymeradwyo ar safle Brynhir.

**Mae ein gwaith ar draws y ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol canlynol:**

- Canran yr oedolion sydd â dau ymddygiad iach neu fwy o ran eu ffordd o fyw
- Canran y plant sydd â dau ymddygiad iach neu fwy o ran eu ffordd o fyw
- Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol

- Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl
- Canran y bobl sy’n gwirfoddoli
- Canran y bobl sy’n unig

Gweithgareddau a Pherfformiad Allweddol yn 2021/22 yn erbyn ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcan Llesiant Iechyd a Lles:

### Ffrwd Waith: Cyfleoedd Cerdded â Chymorth

1. **Prosiect Cerdded er Budd Lles Gorllewin Cymru**

   [Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
   [Dyletswydd Cydraddoldeb]

   Mae prosiect Cerdded er Budd Lles Gorllewin Cymru yn brosiect partneriaeth ranbarthol a ariennir am dair blynedd gan gronfa Iach ac Actif Llywodraeth Cymru. Mae'r prosiect yn cynnwys Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae'r prosiect wedi sicrhau pedwaredd flwyddyn o gyllid (ychwanegol), sy'n golygu y bydd y prosiect yn parhau tan fis Mawrth 2023. APCAP yw'r partner prosiect arweiniol.

   Ym mis Mai fe lwyddodd y prosiect i ailddechrau rhaglen o weithgareddau cerdded ar draws y tair sir am y tro cyntaf ers Mawrth 2020, gyda theithiau cerdded yn ailddechrau yng Ngheredigion. Fe wnaeth llacio rheoliadau Covid 19 alluogi’r prosiect i ehangu nifer y cyfleoedd cerdded sydd ar gael drwy ei raglen. Nododd y prosiect fod cynnydd wedi bod mewn atgyfeiriadau gan Gysylltwyr Cymunedol a rhai meddygfeydd teulu wrth i nifer y teithiau cerdded a oedd ar gael gynyddu. Ym mis Ionawr cafodd gweithgareddau cerdded y prosiect eu hatal dros dro yng Ngheredigion oherwydd cyfyngiadau Covid 19 lleol, ac fe barhaodd teithiau cerdded fel arfer (gydag asesiadau risg priodol ar waith) yn Sir Gâr a Sir Benfro.Cynhaliwyd hyfforddiant arweinwyr cerdded gwirfoddol ym mhob un o'r tair sir. Cyflwynwyd newidiadau i'r broses gofrestru cyfranogwyr, er mwyn ei gwneud hi'n haws i'r rhai sydd â diddordeb gymryd rhan. Mae'r prosiect wedi cael offer symudedd gan bartner y prosiect Snowdrop Independent Living i helpu'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol.

   Ar ddiwedd y flwyddyn cafodd grŵp llywio’r bartneriaeth wybod am fwriad Fforwm 50+ Sir Gâr i gamu'n ôl o'r prosiect fel partner cyflawni ar ddiwedd mis Mawrth 2022. Roedd y penderfyniad annisgwyl hwn yn golygu bod gweddill y partneriaid wedi treulio amser yn chwilio am bartner cyflawni newydd yn lleol gyda chefnogaeth y Gronfa Iach ac Actif. Daethpwyd o hyd i bartner cyflawni newydd, sef Tîm Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff Cyngor Sir Gâr.

   Cafodd teithiau cerdded llesiant Sir Benfro eu cefnogi gan arweinwyr teithiau cerdded gwirfoddol ac roeddent hefyd yn cynnwys teithiau llesiant a oedd yn cefnogi pobl â Dementia.

| Mesurau | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|
| # Cyfranogwyr Sir Benfro mewn sesiynau Cerdded am Les | 201 | 1,020 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |

## 2. Adferiad Covid 19 a Walkability

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Parhaodd APCAP i gynnig cyfleoedd cerdded â chymorth yn y Parc ac o'i amgylch trwy ein cynllun Walkability. Cafodd 71 sesiynau Walkability eu cyflwyno yn 2021/22 o'i gymharu â 16 yn 2020/21. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau Walkability agored a sesiynau a ddarparwyd ar gyfer Value Independence, Oriel VC, y Prosiect Gwreiddiau i Adferiad a MIND, Pobl yn Gyntaf Sir Benfro a Thîm Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff y Gogledd. Roedd lleoliadau'r teithiau cerdded hyn yn cynnwys Taith Gerdded Clogwyni Penalun, Taith y Naw Ffynnon,  Taith Carningli, Coedwig Canaston, Parc Slebets, Taith Monk Haven, Barafundle, Marloes, Maenorbŷr, Taith Castell Caeriw, Coedwig Benton, Dinbych-y-pysgod a Waterwynch a Phwll y Wrach, Trewyddel.

O dan Walkability fe aeth APCAP ati hefyd i dreialu rhaglen newydd o deithiau llesiant, Wild Well-being Wanderer Walks, yn 2021/22. Nod y teithiau cerdded hyn yw cefnogi'r rhai sydd mewn perygl o arwahanrwydd a rhoi’r sgiliau a’r hyder i bobl o bob gallu, gan gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwynion, fwynhau tirwedd ysblennydd y Parc Cenedlaethol. Mae'r teithiau cerdded hyn yn cael eu datblygu a'u darparu ar y cyd â chyfranogwyr, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol (gan gynnwys Value Independence).

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # cyfranogwyr mewn sesiynau Walkability | 1,116 | 107 | 558 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |

Mae'r adborth gan gyfranogwyr ar effaith cymryd rhan yn Walkability yn cynnwys:

- ✓ "Rwyf wedi bod yn cerdded gyda'n grŵp am flynyddoedd lawer. Dechreuais ar ôl profi problemau iechyd a gofal domestig. Rwyf wedi magu hyder iechyd da a hapusrwydd mewn grŵp mor wych o ffrindiau ac arweinwyr."
- ✓ "Fel defnyddiwr cadair olwyn rwyf wedi cael bod defnyddio treic mynydd yn ffordd wych o allu gweld bywyd gwyllt... Pethau sy'n tyfu ar garreg ein drws, mae'n deimlad ffantastig gallu gwneud yr holl deithiau cerdded awyr agored yma."

- ✓ "Ar ôl bod ar bwynt isel yn fy mywyd, fe wnes i benderfynu ymuno â'r teithiau cerdded hamdden bob pythefnos gan gyflawni lefelau ffitrwydd gwell, cwrdd â phobl a gwneud ffrindiau oes, mae gen i agwedd gadarnhaol newydd, ac ar ben hynny, a minnau bron yn 82 mlwydd oed, rwy'n "sioncach fy ngherddediad"."
- ✓ "Rwy'n dwlu ar y grŵp Walkability, sydd o fudd i'm hiechyd corfforol a'm hiechyd meddwl, rwyf wedi gwneud ffrindiau newydd ac yn edrych ymlaen gymaint at ein teithiau cerdded."
- ✓ "Rwy'n canfod bod y teithiau cerdded yn wych ar gyfer fy nghadw fy hun yn iach ac yn symudol. Mae'n ffordd wych o ryngweithio â phobl eraill. Rwyf hefyd wedi darganfod llawer o lefydd newydd yn Sir Benfro na wyddwn i erioed eu bod yn bodoli"
- ✓ "Mae'n gwneud byd o les i'm hiechyd meddwl, trwy gael awyr iach a chwmni da."

### 3. Cymorth gan wirfoddolwyr a hyfforddiant arweinydd cerdded

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Parhaodd gwirfoddolwyr i chwarae rhan bwysig yn arwain teithiau cerdded ar gyfer elfen Sir Benfro o'r prosiect Cerdded er Budd Lles Gorllewin Cymru a chynllun Walkability APCAP. Cafodd 158 o deithiau cerdded â chymorth eu harwain neu eu cefnogi gan arweinwyr gweithgareddau gwirfoddol. Gyda 6 sesiwn hyfforddi i arwain teithiau cerdded yn cael eu cyflwyno i wirfoddolwyr.

## Ffrwd Waith: Hyrwyddo Buddion Iechyd y Parc - Partneriaethau, Mentrau a Phrosiectau

### 1. Prosiect Gwirfoddoli â Chymorth Llwybrau

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Parhaodd APCAP i gynnig cyfleoedd gwirfoddoli â chymorth, hyfforddiant a dysgu yn y Parc a'r ardaloedd cyfagos drwy ein prosiect Llwybrau. Bwriad y prosiect yw cael gwared ar rai o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl sydd am fynd allan ac archwilio cefn gwlad lleol ac mae'n darparu trafnidiaeth ar gyfer llawer o'i weithgareddau. O fis Ebrill ymlaen, llwyddodd y prosiect i ailddechrau gwirfoddoli unigol a grŵp ac yn ddiweddarach yn y flwyddyn, llwyddodd y prosiect i ail-ddechrau defnyddio bws mini APCAP i gludo cyfranogwyr i leoliadau yn y Parc. Yn unol ag asesiadau risg diogel Covid 19.

Roedd y prosiect i fod i ddod i ben ym mis Hydref 2021, ond roedd arian heb ei wario yn golygu y gallai gwaith y Prosiect gael ei ymestyn i fis Mehefin 2023 o dan gynllun prosiect a chyllideb newydd. Mae swyddog o dîm Wardeniaid APCAP, yn dilyn proses recriwtio fewnol wedi cael ei secondio i rôl Swyddog

Prosiect Llwybrau am 3 diwrnod bob wythnos am weddill y prosiect. Yn ystod y cyfnod pontio, rhoddodd y swyddog prosiect blaenorol a oedd wedi symud i brosiect Gwreiddiau i Adferiad gymorth prosiect ychwanegol.

Roedd gweithgareddau rhaglen gwirfoddoli llwybrau yn 2021/22 wedi cynnwys

- ✓ Gwaith i risiau ar Lwybr yr Arfordir ym Mhenrhyn Picard, Angle
- ✓ Gwaith i Lwybr yr Arfordir ger Caer Abergwaun
- ✓ Ffensys yn Nhrefdraeth
- ✓ Torri a llenwi llwybr yn Berry Hill, Trefdraeth
- ✓ Cerrig camu ar lwybr mwdlyd a achoswyd gan wartheg, Pontfaen, Cwm Gwaun
- ✓ Clirio eithin o gaer yr Oes Haearn ym Mhwynt y Tŵr.
- ✓ Gosod perth terfyn yng Nghilrhedyn
- ✓ Gwaith ffitio mat coed yn Wolfscastle

Cynhaliwyd diwrnod gwerthuso ym mis Medi, ac fe nododd y cyfranogwyr y canlynol mewn ymateb i gwestiwn a oedd yn canolbwyntio ar y newid mwyaf arwyddocaol yn eu bywyd diolch i Llwybrau:

- ✓ Mae wedi ehangu'n fawr yr ystod o bobl rwy'n cyfathrebu gyda nhw a'r offer sydd gennyf i wneud hynny
- ✓ Teimlo'n fwy ffit ac yn iach ... Nawr dwi'n llai pryderus. Dw i'n cysgu'n well, a chael llai o iselder
- ✓ Ymdeimlad o Foddhad
- ✓ Boddhad a Llesiant
- ✓ Archwilio – Des i o hyd i neidr!
- ✓ Cyfle i fynd allan i gwrdd â phobl
- ✓ Cyfeillgarwch – Gwneud ffrindiau Newydd
- ✓ Dysgu defnyddio Strimiwr
- ✓ Ein bod wedi dysgu sgiliau newydd ac wedi ymweld ag amryw o leoedd
- ✓ Wedi helpu i roi ffocws ar ôl ymddeol
- ✓ Gwybodaeth a dysgu

## 2. Prosiect Gwreiddiau i Adferiad gyda MIND Sir Benfro

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Prosiect iechyd meddwl newydd a arweinir gan bobl ac a lansiwyd yn 2021 yw Gwreiddiau i Adferiad, ac mae’n ymwneud yn llwyr â grymoedd adferol awyr agored anhygoel Sir Benfro ac yn enwedig ei Pharc Cenedlaethol. Mae Gwreiddiau i Adferiad yn brosiect partneriaeth rhwng APCAP a Mind Sir Benfro a gefnogir trwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol tan fis Medi 2024. Cadarnhawyd 3 blynedd o gyllid, a hwnnw’n gyfanswm o £330,891 o'r Gronfa ym mis Mai 2021. Yn dilyn hyn sefydlwyd grŵp llywio ar gyfer y prosiect a rhoddwyd cynllun prosiect ar waith.

Mae rhaglen o weithgareddau ar gael o'r prosiect 'hybiau' yng Nghanolfan Adnoddau Mind Sir Benfro yn Hwlffordd a Chanolfan Adnoddau Hafal yn Ninbych-y-pysgod. Ym mis Chwefror cwblhawyd gwaith gan wirfoddolwyr a thîm Gwreiddiau i Adferiad gan gynnwys staff Mind i sefydlu hyb i wirfoddolwyr y prosiect mewn caban mawr pren wrth ymyl Canolfan Adnoddau Mind yn Hwlffordd. Mae'r adeilad wedi gwella mynediad a lle i wirfoddolwyr gwrdd, rhannu paned o de a chadw offer ac adnoddau ar gyfer y project. Mae'r prosiect yn rhagweld y bydd hyb tebyg yn cael ei sefydlu yn Ninbych-y-pysgod gyda Hafal. Mae'r prosiect hefyd yn archwilio cyfleoedd i ddatblygu hyb gyda phartneriaid yng Ngogledd Sir Benfro.

Un elfen allweddol o'r prosiect yw datblygu mentoriaid sy'n cefnogi cyfranogwyr eraill a gweithgareddau sy'n digwydd o'r hybiau. Erbyn diwedd 2021/22 roedd gan y prosiect 6 a oedd wedi'u hyfforddi i fentora gwirfoddolwyr.

Mae gweithgareddau a ddarperir gan y project wedi'u bwriadu i fod yn hygyrch, yn hwyl ac yn hamddenol gyda'r cyfle i ddysgu sgiliau newydd a chwrdd â ffrindiau newydd.. Roedd gweithgareddau yn 2021/22 yn cynnwys:

- ✓ Teithiau tywys yn Monk Haven, Taith Gerdded Castell Caeriw a Thaith Arfordirol Marloes.
- ✓ Gweithdy Torchau Nadoligaidd
- ✓ Gweithgareddau yng ngardd Mind gan gynnwys gweithgareddau garddio, peintio ac addurno “Cuddfan” Mind Man galw heibio Gwreiddiau i Adferiad
- ✓ Cerdded, clirio gwrychoedd a chyd-ganu ym Maenordy Scolton
- ✓ Sesiynau ymarferol yn cynnwys teneuo coed yng Nghwrs Rasio Hwlffordd, clirio eiddew o feddi ym Mynwent Dinbych-y-pysgod, clirio prysgwydd yn Freshwater East, sesiwn glanhau traeth Dinbych-y-pysgod, sesiwn plannu coed ar dir yr Hen Felin a gweithgareddau cynnal a chadw ar lwybr Pen y Cwm.

## 3. Adferiad Gwirfoddoli Covid 19 ac Adolygiad o Wirfoddolwyr

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Parhaodd APCAP i ddarparu ystod o gyfleoedd gwirfoddoli ar draws timau, prosiectau a gweithgareddau Awdurdod yn 2021/22. Er nad yw diwrnodau gwirfoddoli yn uwch na lefelau 2019/20, maent wedi dangos cynnydd a thuedd cadarnhaol o 2020/21. Sy'n adlewyrchu'r cyfle cynyddol i gynnal sesiynau parti gwaith i grwpiau.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # Diwrnodau Gwirfoddoli | 2,591 | 820 | 2,294 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |
| # cyfranogwyr mewn gwirfoddoli a sesiynau gweithredu | 3,195 | 819 | 2,650 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| cymdeithasol sy'n cynnwys gweithgarwch corfforol | | | | |

Comisiynodd APCAP adolygiad gwirfoddoli yn 2021/22 i lywio dull hirdymor yr Awdurdod a'i flaenoriaethau ar gyfer gwirfoddoli. Roedd y broses yn cynnwys ymgynghorwyr allanol yn cynnal arolygon a chyfarfodydd ar-lein gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol a gyda gwirfoddolwyr. Roedd yr adroddiad yn cynnig cyfres o argymhellion i lywio ein dull hirdymor a'n blaenoriaethau ar gyfer gwirfoddoli ac fe'u cyflwynwyd i'r Aelodau yn APC mis Chwefror. Bydd APCAP yn edrych i adolygu ei gynllun gweithredu gwirfoddolwyr yn 2022/23 mewn ymateb i'r argymhellion ac yn eu hystyried fel rhan o ddatblygu'r cynlluniau cyflawni ehangach.

## 4. Teithiau tywys a theithiau cerdded map gwe

[Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Trwy deithiau cerdded a arweinir gan ein parcmyn, staff canolfannau a gwirfoddolwyr mae pobl yn gallu darganfod mwy o’r Parc a hefyd archwilio ardaloedd yn y Parc na fyddent yn cael y cyfle i’w harchwilio fel arfer o bosibl. Yn ystod y flwyddyn cyflwynodd APCAP yn unol ag asesiadau risg 300 o weithgareddau cerdded drwy ei raglen gerdded i’r cyhoedd, teithiau cerdded i grwpiau cymunedol a theithiau cerdded â chymorth.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # cyfranogwyr mewn teithiau cerdded dan arweiniad staff a gwirfoddolwyr APCAP | 2,824 | 593 | 2,472 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |

Parhaodd yr Awdurdod hefyd i ddarparu mapiau cerdded y gellir eu lawrlwytho ar ei wefan. Fe gafodd 27,721 o fapiau eu lawrlwytho o wefan yr Awdurdod yn 2021/22. Roedd hyn o'i gymharu â 12,938 yn 2020/21 (y data Mai/ Mehefin wedi'i effeithio gan faterion dadansoddi wrth drosglwyddo i wefan newydd) a 42,065 yn 2019/20.

## 5. Cynllun Gweithredu Rheoli Parc Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Llesiant

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Cafodd Cynllun Gweithredu Rheoli Parc Cenedlaethol ar gyfer gweithgareddau Iechyd a Llesiant APCAP ei gymeradwyo gan Aelodau yn yr APC ym mis

Gorffennaf. Pwrpas y cynllun gweithredu yw cefnogi cyflwyno effeithiau Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol.

**6. Ymgysylltu a Chydweithio Strategol**

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Parhaodd APCAP i gefnogi hwyluso rhwydwaith gwasanaeth Iechyd Seiliedig ar Natur Gorllewin Cymru. Parhaodd cyfarfodydd y rhwydwaith yn ystod 2021/22. Bydd y rhwydwaith yn cael ei adolygu yn 2022/23 er mwyn ail-alinio blaenoriaethau yn dilyn Covid 19 ac ymddangosiad rhwydweithiau newydd ers ei sefydlu yn 2015. Mynychodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gyfarfod rhwydwaith i gyflwyno am ragnodi cymdeithasol.

Gan adeiladu ar waith blaenorol partneriaeth Gadewch i Ni Gerdded Sir Benfro mae'r Awdurdod wedi gweithio gyda phartneriaid i sefydlu rhwydwaith Allan ac o Gwmpas. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymwneud â'r rhwydwaith newydd.

## Ffrwd Waith: Ysgolion a Chwarae yn yr Awyr Agored

**1. Rhwydwaith Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro**

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Mae partneriaeth Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro (PODS), sy'n cael ei chydlynu gan APCAP, yn rhwydwaith o sefydliadau arbenigol, prif athrawon ac ymgynghorwyr awdurdodau lleol. Ei nod yw cefnogi ysgolion i annog plant i ddod yn hyderus ac ymgysylltu'n llawn â'u hamgylchedd lleol. Yn ystod 2021/22 sicrhawyd cyllid ar gyfer PODS tan Fawrth 2023 gyda chontract y Cydlynydd Ysgolion Awyr Agored yn cael ei ymestyn i gynnwys y cyfnod hwn. Cafodd holiadur ynglŷn â blaenoriaethau dyfodol partneriaeth Ysgolion Awyr Agored ei ddosbarthu i aelodau a bu canlyniadau'n cael eu trafod mewn cyfarfod partneriaeth yn ystod y flwyddyn.

Roedd y gweithgareddau a gyflwynwyd gan y bartneriaeth yn 2021/22 yn cynnwys:

- ✓ Gweminarau Gwyddoniaeth y Gwanwyn, Draenogod a Bwystfil bach yr ardd gyda 938 o ddisgyblion yn cymryd rhan ar draws y tri gweminar.
- ✓ Sesiwn hyfforddi Prif Athrawon ar ddysgu yn yr awyr agored a'r Cwricwlwm Newydd.
- ✓ Hyfforddiant ar-lein i athrawon ac addysgwyr sy'n cwmpasu bloeddio, gwenyn, coed, arwyddion o'r gwanwyn a phlannu hadau.

- ✓ Astudiaeth Gwyfyn gyda Ysgol Gelli Aur, astudiaeth Ddôl yn Fferm East Hook Farm gyda Ysgol Gynradd Gymunedol Johnston a Sesiynau Gwesty Chwilod yn Ysgol Gymunedol Croesgoch.
- ✓ Gan weithio ochr yn ochr â Swyddog Cadwraeth APCAP, mae sawl ysgol wedi cael help i wella ardaloedd glaswelltir o amgylch eu hysgol, roedd y rhain yn cynnwys Ysgol Gynradd Johnston ac Ysgol VC Penrhyn ar Benrhyn Angle.
- ✓ Gweithgareddau Diwrnod Afal gydag Ysgol Gynradd Gymunedol Johnston, Ysgol Coastlands ac Ysgol Gynradd Gatholig St Francis
- ✓ Roedd partneriaid PODS yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer Wythnos Dysgu Awyr Agored Cymru ym mis Ebrill 2021 a Mawrth 2022.
- ✓ Fe wnaeth partneriaid PODS gwrdd â chydweithwyr o Sir Gaerfyrddin i drafod a chynllunio dull mwy 'cydgysylltiedig' o hyrwyddo dysgu awyr agored ar draws y ddwy sir.
- ✓ Mae amryw o adnoddau wedi bod ar gael ar wefan Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro.

## 2. Prosiect Roots/ Gwreiddiau

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Mae Swyddog Addysg Arfordir Penfro yn ymwneud â'r gwaith o gyflwyno Prosiect Gwreiddiau. Mae'r prosiect hwn yn helpu plant i archwilio amgylchedd naturiol, cynnyrch a rhwydweithiau bwyd Sir Benfro. Caiff y prosiect ei ariannu trwy Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mewn partneriaeth â South Hook LNG. Roedd y gweithgareddau yn ystod y flwyddyn a hwyluswyd gan y prosiect yn cynnwys:

- ✓ Plannu coed, gweithgareddau adeiladu twnnel poly i greu ardal dyfu a 2 ymweliad fferm i Fferm East Hook gydag Ysgol Gynradd Johnston. Yn ystod ymweliadau'r fferm cynhaliodd y disgyblion arolwg iechyd dôl, gan ddysgu techneg i'w defnyddio wrth reoli prosiect y ddôl yn eu hysgol.
- ✓ Cyflwynwyd amrywiaeth o weithgareddau a theithiau cerdded John Muir ar gyfer disgyblion o Ysgol Gynradd Gelliswick.
- ✓ Darparwyd cyngor ar ddatblygiadau tir yr ysgol i ysgolion Johnston, Neyland, Gelliswick a Coastlands.
- ✓ Hwyluswyd ymweliadau Diwrnod Afal i berllan Sain Ffraid ar gyfer disgyblion o Ysgolion Cynradd Johnston, Coastlands, Gelliswick, Sant Ffransis a Sant Oswald. Cyflwynwyd sesiwn "sioe deithiol" sudd afal (gwasgu symudol) hefyd yn ysgolion Neyland a Johnston.

## 3. Rhaglen addysg awyr agored

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Mae cynnig addysg APCAP wedi'i wreiddio mewn darparu cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored i ddisgyblion a myfyrwyr. Mae’n rhoi cyfleoedd dysgu cadarnhaol iddynt ac yn cefnogi eu lles corfforol a meddyliol trwy ennyn eu hymgysylltiad ag amgylchedd naturiol a diwylliannol y Parc. Oherwydd y ffocws hwn roedd gan raglen addysg APCAP fanteision i ysgolion oedd am gynyddu eu defnydd o'r awyr agored yn 2021/22 mewn ymateb i effaith Covid 19 ar amgylcheddau dysgu.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # cyfranogwyr mewn sesiynau dysgu awyr agored | 8,682 | 1,904 | 6,846 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |

Roedd 69.23% o ysgolion yn y Parc Cenedlaethol yn ymgysylltu â sesiynau dysgu awyr agored APCAP yn 2021/22, mae hyn yn cymharu â 30.77% yn 2020/21 a 69.23% yn 2019/20.  Roedd 59.68% o ysgolion Sir Benfro yn cymryd rhan mewn sesiynau dysgu awyr agored APCAP yn 2021/22, ac mae hyn yn cymharu â 20.97% yn 2020/21 a 69.35% yn 2019/20.

### 4. Ymgysylltu â'r Blynyddoedd Cynnar – 1000 diwrnod cyntaf

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Nod y prosiect 1000 diwrnod cyntaf yw gweithio gyda rhieni plant a phlant cyn oed ysgol i fagu hyder wrth gael mynediad i'r awyr agored. Cafodd dechrau'r prosiect ei ohirio yn ystod y flwyddyn oherwydd oedi wrth benodi swyddog prosiect. Roedd swyddog prosiect yn ei swydd o fis Ionawr 2022. Cynhaliwyd gweithgareddau cynllunio prosiect gan gynnwys cyfarfodydd a gynhaliwyd gydag arbenigwyr blynyddoedd cynnar lleol gan gynnwys Dechrau'n Deg. Cynhaliwyd archwiliad o fannau awyr agored addas ar gyfer gweithgareddau a rhaglenni gweithgaredd wedi'u cynllunio a nodir, ynghyd â gwaith i nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r gweithgaredd. Ym mis Mawrth 2022, cafodd gweithgareddau'r prosiect cyntaf eu cyflwyno gan gynnwys sesiwn bore yng Nghylch Meithrin Abergwaun yn Abergwaun. Bydd y prosiect hefyd yn ceisio recriwtio cynorthwyydd chwarae i gefnogi'r rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2022/23.

## Ffrwd Waith: Cynllunio Tai Fforffiadwy

### 1. Tai Fforddiadwy ac cyfraniadau Adran 106

[Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Mae gan yr Awdurdod darged o godi 362 anneddau fforddiadwy dros gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol o dan ddangosydd 23. Ni chafodd unrhyw unedau tai fforddiadwy eu cymeradwyo yn 2021/22 mae hyn yn cymharu â 102 yn 2020/21 yn ymwneud â safle Brynhir yn Ninbych-y-pysgod a 43 yn 2019/20.

Cytunwyd ar £209,409.75 gyfraniadau tai fforddiadwy yn 2021/22. Gyda 1 chytundeb ar £250 y sgwâr a 1 chytundeb 1 ar £175 y Sqm yn ychwanegol. Derbyniwyd £198,088 cyfraniadau Adran 106 Tai Fforddiadwy yn 2021/22.

Darperir rhagor o wybodaeth am yr uchod a chyd-destun yn adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod..

## Ffrwd Waith: Lles, Cydnerthedd a Datblygiad y Gweithlu

### 1. Rheoli a chefnogi gweithlu mewn ymateb i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Covid 19 yn ystod y flwyddyn

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]


Roedd asesiadau risg Covid 19 yn parhau i gael eu hadolygu a'u rhoi ar waith i staff a oedd yn gwneud gwaith ar safleoedd yr Awdurdod neu ar hyd y lle a chyda'r cyhoedd. Parhaodd y rhan fwyaf o staff swyddfa Llanion i weithio gartref yn ystod 2021/22. Fodd bynnag, cynhaliwyd asesiadau risg ar gyfer y tîm Rheoli Datblygu a'r tîm TG er mwyn galluogi timau i ddychwelyd i'r swyddfa o fewn terfynau deiliadaeth.


Yng Nghyfarfod y Fforwm Cyflogeion ym mis Mawrth 2021, gofynnodd Cynrychiolwyr Staff i'r Aelodau am eu barn ar 'ddyfodol gwaith yn yr 21ain Ganrif' yn ngoleuni sut y mae gweithleoedd yn ymateb i 1) yr agenda Cydbwysedd Bywyd/Gwaith a 2) gwersi o fesurau'r Llywodraeth i annog pobl i weithio gartref yn ystod pandemig parhaus Covid 19. Cafodd Rheolwr Adnoddau Dynol APCAP orchwyl i ymgynghori â staff a rheolwyr ar draws yr Awdurdod gyda golwg ar adolygu a diwygio'r Polisi Gweithio Hyblyg presennol. Yn dilyn ymgynghoriad eang, mabwysiadwyd Polisi Gweithio Hyblyg diwygiedig yng Nghyfarfod y Tîm Arwain ar 14 Medi 2021. Fodd bynnag, oherwydd cymhlethdodau gweithio gartref (nad yw ond yn un o nifer o ddulliau o weithio'n hyblyg), cytunwyd bod angen Polisi Gweithio Cartref ar wahân. Yng nghyfarfod yr APC ym mis Tachwedd rhoddodd Aelodau adborth ar y polisi a chymeradwywyd Polisi Gweithio Gartref a Hybrid diwygiedig yng nghyfarfod yr APC ym mis Chwefror 2022. Yn dilyn hyn, dechreuodd APCAP broses i staff gyflwyno ceisiadau gweithio hyblyg a fydd yn cael eu hadolygu yn erbyn anghenion gwasanaethau a chyflawni'r Awdurdod.

Cafodd rhaglen hyfforddiant cydnerthedd i helpu staff i reoli straen ac adeiladu cydnerthedd ei threialu yn ystod y flwyddyn. Parhaodd rheolwyr llinell a'r tîm

iechyd galwedigaethol i roi cymorth unigol i staff, yn enwedig i'r staff hynny yr effeithiwyd arnynt gan gyfnod maith o weithio gartref. Parhaodd APCAP i ddarparu mynediad at wasanaeth cwnsela a gwasanaeth gwrando gan yr Aelodau ar gyfer staff. Cynhaliwyd cyfarfod staff, a chwis staff, rhithwir ym mis Rhagfyr i ddod â staff ar draws yr Awdurdod at ei gilydd.

Collwyd 482.3 diwrnod i absenoldeb oherwydd salwch, heb gynnwys salwch hirdymor, yn 2021/22 (780.83 diwrnod gan gynnwys salwch hirdymor). Cyrhaeddodd nifer y diwrnodau a gollwyd eu hanterth ym mis Mawrth 2022, gan adlewyrchu’r ffaith bod nifer cynyddol o staff yn absennol oherwydd Covid 19 neu effeithiau cysylltiedig. Adlewyrchir patrwm tebyg o ran % yr oriau a gollwyd am bob cyflogai gyda'r ganran ar ei huchaf ym mis Mawrth. Nid oes data cymharol o flynyddoedd blaenorol ar gael gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf i'r Awdurdod gofnodi absenoldeb oherwydd salwch fel hyn.






**2. Safon Iechyd Corfforaethol**

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Mae gwobr Safon Iechyd Corfforaethol yn arwydd o ansawdd ar gyfer iechyd a lles yn y gweithle. Yn ystod y flwyddyn fe ddechreuodd swyddogion y broses o goladu tystiolaeth er mwyn cefnogi'r broses achredu. Mae'r Safon Iechyd Corfforaethol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan Dîm Cymru Iach Cymru, a bydd APCAP yn ymateb i'r newidiadau yn y broses wobrwyo yn y dyfodol.

**3. Hyfforddiant**

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Cwblhawyd matrics hyfforddi yn adlewyrchu allbynnau o adolygiadau Gwaith a Llesiant Staff. Bydd angen diwygio'r matrics yn dilyn unrhyw ofynion hyfforddiant a datblygu newydd a nodwyd yn dilyn ailstrwythuro sefydliadol sy'n gysylltiedig â chyflawni Amcanion Llesiant a blaenoriaethau newydd yr Awdurdod.

Roedd y ddarpariaeth hyfforddi i staff yn ystod y flwyddyn yn canolbwyntio ar sesiynau hyfforddiant yn ymwneud ag iechyd a diogelwch.

**4. Gwerthoedd**

[Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Gwnaed gwaith gyda staff a rheolwyr ar draws yr Awdurdod i ddatblygu cyfres newydd o werthoedd ar gyfer yr Awdurdod. Cafodd rhestr hir o 26 o werthoedd eu hadnabod gan staff a bydd y rhain yn cael eu blaenoriaethu i set o bump neu chwe gwerth. Bydd datblygiad pellach o'r gwerthoedd a'u gwreiddio yn gysylltiedig â'r ailstrwythuro sefydliadol ehangach a ffyrdd newydd o weithio gyda'r nod o gefnogi APCAP i gyflawni yn erbyn ei Amcanion Llesiant a'i flaenoriaethau newydd.

### Amcan Llesiant Cydraddoldeb: Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC.

**Ffrydiau gwaith a gefnogodd cyflawni'r amcan hwn yn 2021/22:**

- Cydraddoldeb Strategol - Ein Gweithlu a'n Gwasanaethau
- Tirweddau i Bawb - Profiadau Cynhwysol a Chynhwysiant Cymdeithasol
- Ymgysylltu

**Uchafbwyntiau Cryno o'r Diogelwr Taith 2016-2022:**

- ✓ Ers 2016/17 mae APCAP wedi ymgysylltu â 18,508 o bobl trwy ein gweithgareddau cynhwysiant cymdeithasol, gan weithio gydag ystod o sefydliadau i alluogi mwy o bobl i gael budd o fynediad at yr awyr agored a nodweddion arbennig y Parc a chymryd rhan mewn cyfleoedd i ofalu am y Parc. Mae sefydliadau yr ydym wedi gweithio gyda hwy'n cynnwys Oriel VC, Value Independence, Gofal yn y Gymuned Tyddewi, Canolfan Ieuenctid Point, Coleg Plas Dwbl, Plant Dewi, Pobl yn Gyntaf Sir Benfro, Mind, Hafal, Tîm Rhianta Corfforaethol / Tîm o amgylch y teulu CSP, Steps2Health, Gofal Solfach, Ateb a Chanolfan Dechrau'n Deg. Ochr yn ochr ag APCAP yn cyflwyno ei weithgareddau Llwybrau a cherdded â chymorth.
- ✓ Darparu gwasanaeth cadair olwyn ar draethau mewn partneriaeth gyda sefydliadau a busnesau lletyol lleol.
- ✓ Adolygu a gwella'r gwasanaeth yn dilyn effaith Covid 19.
- ✓ Gwelliannau o ran mynediad corfforol yng Nghapel Santes Non a thraeth Maenorbŷr.
- ✓ Treialu gweithgareddau ymgysylltu newydd i oleuo Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys mynychu digwyddiad ATEB a sesiwn gyda phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr.
- ✓ Cynnal Gweithgareddau'r Genhedlaeth Nesaf gan gynnwys sefydlu Pwyllgor Ieuenctid a hwyluso Parcmyn Ieuenctid. Mae'r Pwyllgor Ieuenctid wedi cael gafael ar gyllid sydd wedi eu galluogi i ddatblygu fideo newid hinsawdd ac chreu byrddau murluniau i'r Awdurdod.
- ✓ Cwblhau prosiect Profiadau i Bawb i helpu i lywio gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.
- ✓ Cofrestru i Gynllun Hyderus o ran Anabledd.
- ✓ Datganiad sefyllfa ar y cyd wedi'i ddiweddaru gydag Awdurdodau Parc Cenedlaethol eraill yn canolbwyntio ar Dirluniau i Bawb.

**Mae ein gwaith ar draws y ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol canlynol:**

- Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch.
- Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol
- Gwahaniaeth cyflog o ran rhyw, anabledd ac ethnigrwydd
- Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl
- Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio
- Canran y bobl sy'n gwirfoddoli
- Canran y bobl sy'n unig

Gweithgareddau a Pherfformiad Allweddol yn 2021/22 yn erbyn ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcan Llesiant Cydraddoldeb:

## Ffrwd Waith: Cydraddoldeb Strategol - Ein Gweithlu a'n Gwasanaethau

### 1. Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol ac Asesiadau Integredig

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Mae APCAP wedi ceisio defnyddio asesiadau integredig i helpu i ymgorffori'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei waith. Ystyriwyd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fel rhan o asesiadau integredig a gynhaliwyd gan yr Awdurdod ar ei Flaenoriaethau Lefel Uchel, Amcanion Llesiant diwygiedig ar gyfer ymgynghori a'i Gynllun Corfforaethol ac Adnoddau. Roedd yr asesiadau integredig hefyd yn ymgorffori asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Bydd yr Awdurdod yn amcanu at adolygu ei dempled peilot a darparu canllawiau pellach i staff ar gwblhau asesiad integredig yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd o 2021/22. Cafodd crynodebau o ganlyniadau asesu eu cynnwys mewn adroddiadau pwyllgor a gyflwynwyd i aelodau ac a gyhoeddwyd ar wefan yr Awdurdod. Wrth ddatblygu Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2022/23, mae cydraddoldeb, ystyried y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a lleihau tlodi plant wedi'u nodi fel canlyniadau trawsbynciol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu Offeryn Tracio Cynnydd y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol, y bydd APCAP yn amcanu at ei ddefnyddio yn y dyfodol i asesu ei berfformiad yn y maes hwn a gwaith pellach y mae ei angen.

### 2. Y Gweithlu a Recriwtio

[Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Yn ystod 2021/22, ymunodd APCAP â Chynllun Hyderus o ran Anabledd Llywodraeth y DU, sy'n cynorthwyo cyflogwyr i wneud y gorau o'r talentau y gall pobl anabl eu cyflwyno i'w gweithle. Cofrestrodd yr Awdurdod hefyd addewid 'Gweithio Ymlaen' EHRC.

Yn ystod y flwyddyn, darparodd yr Awdurdod 2 leoliad llwyddiannus drwy'r Cynllun Kickstart.

Parhaodd yr Awdurdod i gasglu data monitro cydraddoldeb er mwyn helpu i ddadansoddi amrywiaeth o ran y gweithlu ac ymgeiswyr swyddi. **Mae dadansoddiad o ddata amrywiaeth ar gyfer gweithlu a gweithgarwch recriwtio'r Awdurdod wedi'i nodi yn Atodiad 1.** O ran data'r gweithlu mae'r % gwybodaeth monitro cydraddoldeb y gweithlu a gwblhawyd ar system rheoli pobl wedi cael ei heffeithio drwy symud i system Adnoddau Dynol Newydd. Bydd angen gwaith pellach i godi ymwybyddiaeth o angen am y data yma, sut i ddiweddaru data ac i fagu hyder staff o ran darparu'r data hwn. Mae hyn wedi effeithio ar y data sydd ar gael a'r gallu i gymharu ar draws blynyddoedd ar gyfer elfen y gweithlu a nodir yn Atodiad 1.

| Mesur Perfformiad | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2021/22 Targed |
|---|---|---|---|---|
| % yr wybodaeth monitro cydraddoldeb y gweithlu wedi'i chwblhau ar system rheoli pobl monitro | 81.6 (Gwyrdd) | 78.6 (Gwyrdd) | 36.0 (Coch) | 70 |

Bydd gweithgareddau pellach i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y Rhywiau a chynnal dadansoddiad ychwanegol ohono'n cael eu cynnal fel rhan o waith arfaethedig yn y dyfodol ar adolygu cyflog a graddio.

Mae hyfforddiant cydraddoldeb ar-lein sydd ar gael trwy borth e-ddysgu wedi cael ei adolygu a bydd y cynnwys yn cael ei ddiwygio i ddatblygu dau gwrs ar wahân, y naill i reolwyr a'r llall i staff yn gyffredinol. Bwriedir bwrw ymlaen â hyn unwaith y bydd gan yr adran Adnoddau Dynol gapasiti ychwanegol. Cafodd swyddogion hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o gynnwys Hawdd i'w Ddeall gyda Pobl yn Gyntaf Sir Benfro i gynorthwyo'r Awdurdod i ddatblygu ei arlwy gyfathrebu hygyrch. Mae'r staff hefyd, ochr yn ochr â gwirfoddolwyr, wedi cwblhau sesiwn hyfforddi Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth.

## 3. Cydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Gwefannau

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Mae monitro Silktide ar waith ac yn cael ei ddefnyddio i brofi hygyrchedd gwefan APCAP. Roedd mân faterion a ganfuwyd gan blatfformau monitro yn cael sylw

gyda chymorth gan ddatblygwyr gwefannau yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd gwaith parhaus i edrych ar sut i leihau'r defnydd o PDF a chynyddu'r defnydd o HTML ar gyfer dogfennau a gwybodaeth.

## Ffrwd Waith: Tirweddau i Bawb - Profiadau Cynhwysol a Chynhwysiant Cymdeithasol

### 1. Adferiad Covid 19 - Gweithgareddau Cynhwysiant Cymdeithasol ac Allgymorth

[Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Fe wnaeth llacio rheoliadau yn ystod y flwyddyn roi mwy o gyfle i dimau ar draws APCAP gynnal gweithgareddau cynhwysiant cymdeithasol ac allgymorth, gan gynnwys y rhai sy'n rhan o brosiectau iechyd a llesiant ehangach fel Llwybrau a Gwreiddiau i Adferiad. Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi roedd yr Awdurdod yn gallu darparu mwy o gyfleoedd ymgysylltu yn y cnawd, yn enwedig yn yr awyr agored, gan barhau i ddefnyddio cyfleoedd ymgysylltu ar-lein hefyd.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # pobl yr ymgysylltwyd â hwy trwy weithgareddau cynhwysiant cymdeithasol ac allgymorth APCAP | 3,235 | 750 | 3,111 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |

Ail-frandiwyd gweithgareddau'r Awdurdod gyda phobl ifanc o dan faner y Genhedlaeth Nesaf, gweithgareddau gan bobl ifanc sy'n ymwneud â Phwyllgor Ieuenctid a Pharcmyn Ieuenctid APCAP. Roedd cyfranogwyr gweithredol cyfartalog yn y Parcmyn Ieuenctid ar draws y chwarteri ar gyfer 2021/22 yn 17 o'i gymharu ag 8 yn 2020/21 ac 11 yn 2019/20. Cymerodd parcmyn ieuenctid ran mewn ystod o weithgareddau yn ystod y flwyddyn gan gynnwys:

- ✓ Tacluso afonydd, gan gasglu 25 bag o sbwriel yn Ardaloedd Cynghorau Cymuned Uzmaston, Boulston a Slebets
- ✓ Gosod matiau coed yng Nghas-blaidd
- ✓ Taith Gerdded Gorllewin Maes Tanio Castellmartin
- ✓ Canfod a chofnodi ffyngau a throsglwyddo'r canfyddiadau i Ganolfan Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru
- ✓ Cloddio archaeolegol DigVenture yng nghaer bentir Caerfai
- ✓ Gosod gwâl dyfrgwn a chlirio prysgwydd o ardal yr ardd ddŵr yng nghoedwig y Llwyn Helyg

Darparodd parcmyn APCAP ystod o sesiynau ar gyfer cyfranogwyr o Ganolfan Ieuenctid Point, Abergwaun, gan gynnwys garddio bywyd gwyllt, diogelwch dŵr, gweithgareddau ymgysylltu yn yr awyr agored, taith gerdded morloi, taith dywys yn y nos, gweithgaredd casglu sbwriel a gemau traeth. Darparwyd dwy daith dywys yn y nos i Glwb Ieuenctid Trefdraeth. Bu Swyddog hefyd yn gweithio gyda darpariaeth Ieuenctid CSP ar gefnogi 3 o bobl ifanc o dŷ tai â chymorth Ieuenctid newydd CSP yn Three Meadows, Hwlffordd ar ymgysylltu yn yr awyr agored i helpu i gynllunio eu gardd newydd.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â hwy drwy ein gwaith/ sesiynau cynhwysiant cymdeithasol gyda phobl ifanc | 897 | 188 | 637 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |

## 2. Cadeiriau Olwyn ac Offer Symudedd y Traethau

[Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Mewn ymateb i effeithiau sylweddol Covid 19 ar wasanaeth Cadeiriau Olwyn y Traethau, penododd yr Awdurdod Gydlynydd Cadeiriau Olwyn y Traethau i adolygu'r gwasanaeth a'i helpu i gael adferiad. Dim ond trwy fusnesau lleol sy'n gwirfoddoli i letya'r cadeiriau y mae darparu'r gwasanaeth yn bosibl ac fe weithiodd y cydlynydd yn agos i gynnal a datblygu perthnasoedd da â sefydliadau lletyol. Fe wnaeth y cydlynydd ailasesu a sefydlu protocol a gwybodaeth asesu risg priodol ar gyfer cadeiriau olwyn y traethau er mwyn ei gwneud yn bosibl iddynt gael eu defnyddio dros dymor yr haf. Fe wnaeth y cydlynydd hefyd sefydlu system archebu ar-lein ar gyfer y gwasanaeth. Yn hollbwysig, roedd y system archebu'n ei gwneud yn bosibl bwcio'r cadeiriau olwyn mewn modd hyblyg o amgylch gwahanol oriau agor a phrysur sefydliadau lletyol, ac roedd hefyd yn ei gwneud yn bosibl gwneud newidiadau i argaeledd yn gyflym ac yn hawdd. Fe wnaeth yr Awdurdod hefyd greu rôl newydd gwirfoddolwr cadeiriau olwyn y traethau i gefnogi'r gwasanaeth.

Dros y tymor bwciwyd 141 o slotiau ar-lein (heb gynnwys cansladau a gofrestrwyd) gan 65 o unigolion, gyda chyfartaledd o tua 9 slot bwcio'n cael eu cymryd yr wythnos. Mae hyn yn cynnwys slotiau a gafodd eu bwcio dros gyfnod o ddiwrnodau a bwciadau mynych. Crwst yn Nhraeth Poppet oedd y lletywr mwyaf poblogaidd, gyda 23% o'r bwciadau. Roedd bron i 80% o'r bwciadau gan ac ar gyfer pobl sy'n byw y tu allan i Sir Benfro. Mae cydlynydd cadeiriau olwyn y Traethau'n archwilio sut i godi ymwybyddiaeth a chynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y gwasanaeth o blith pobl sy'n byw yn lleol. Clywodd y rhan fwyaf o fenthycwyr cadeiriau olwyn y traethau am y system trwy gael gwybodaeth ar-lein, a hefyd

trwy'r papur lleol, gan ffrindiau a pherthnasau, y Cyngor, ac argymhellion Access Holiday, yn ogystal â thrwy letywyr ac wrth ymweld â'r traethau. Roedd ar oddeutu 30% o'r benthycwyr angen cymorth gan y cydlynydd, gyda hynny’n amrywio o gymorth i archebu ar y funud olaf, i wybodaeth hygyrch am draethau hygyrch, i ddanfon y gadair i leoliad arbennig a’i chasglu ohono.

Roedd gweithgareddau ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- ✓ Fe wnaeth digwyddiad Whizz-Kidz gynorthwyo tri theulu o ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ifainc i fwynhau diwrnod ar y traeth. Cafodd y plant gyfle i dreialu Treics Mynydd a oedd yn llwyddiant mawr.
- ✓ Fe wnaeth digwyddiad Versus Arthritis gefnogi pedwar teulu sy'n byw gydag Arthritis i fwynhau prynhawn ar y traeth. Fe wnaeth Parcmon y Gogledd APCAP gefnogi teithiau mewn Cadeiriau Olwyn at y forlin.
- ✓ Roedd Cadeiriau Olwyn y Traethau a’r Treiciau Gwthio’n bresennol mewn dau ddigwyddiad Gwreiddiau i Adferiad gan ei gwneud hi'n bosibl i bobl â chyflyrau symudedd ac iechyd meddwl gymryd rhan yn y gweithgareddau a oedd ar gael.

Mae adborth o arolwg o’r gwasanaeth yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae'n ei chael o ran cynorthwyo mwy o bobl i gael mynediad at draethau'r Parc Cenedlaethol a'u profi:

- ✓ “Cefais ei fod yn dda iawn ac roeddwn i'n dibynnu'n fawr arno ar gyfer fy mam; fel arall ni fyddai wedi mynd ar y traeth heb sôn am lwyddo i drochi ei thraed yn y dŵr."
- ✓ **"**Daliwch i ddarparu’r cynllun yma os gwelwch yn dda a rhoi cyfle i bobl anabl fynd i'r traeth a mwynhau'r dŵr a bod yn rhan o’r hwyl i’r teulu."
- ✓ "Hollol anhygoel! Byddai’n dda gen i pe bai mynediad at un ar bob traeth. Roedd yn golygu y gallai fy merch fynd ymhellach allan ac o gwmpas y traeth i archwilio. Cyfyngir arnom fel arfer o ran pa mor bell y gallwn fynd â hi oherwydd ei bod hi'n cerdded am bellter byr ac yn blino. Dyw ei Chadair arferol ddim yn mynd ar draws y tywod yn hawdd. Grêt!"
- ✓ "Hollol hudolus eich bod chi'n cynnig rhoi benthyg cadair olwyn Traeth! Rwy'n tynnu fy het i'r rheiny a wthiodd i gael y fenter wych yma i alluogi pobl anabl i ymuno â'u ffrindiau a'u teuluoedd ar draethau Cymru."

Trwy Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, roedd Castell Henllys hefyd yn gallu prynu dau sgwter symudedd Tramper newydd er mwyn helpu pobl i gael mynediad at y safle.

### 3. Teithiau Cerdded a Gwybodaeth ar y We

[Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Parhaodd APCAP i hyrwyddo teithiau cerdded cadair olwyn trwy fapiau ar ei wefan. Cafodd 919 o fapiau cadair olwyn eu lawrlwytho yn 2021/22, roedd hyn o'i gymharu â 528 o lawrlwythiadau yn 2020/21 a 4,165 yn 2019/20. Mae datblygu'r grŵp cerdded â chymorth newydd Wild Well-being Wanderer Walks trwy Walkability, sy'n cynnwys cyfranogwyr o Valued Independence, yn rhoi cyfle i adolygu sut yr ydym yn darparu gwybodaeth ac mae'n darparu cyfleoedd i gyfranogwyr asesu llwybrau i ni. Wrth i waith y grŵp hwn ddatblygu mae'n debygol o ddylanwadu ar ein dull o dysgraphia llwybrau hygyrch yn y dyfodol a gwella'r wybodaeth sydd ar gael i'r rhai y mae arnynt angen gwybodaeth ychwanegol am hygyrchedd llwybrau.

## 4. Prosiect Profiadau i Bawb

[Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Roedd heriau yn wynebu'r prosiect yma oherwydd Covid 19. Nod y prosiect oedd gweithio gyda gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr i ddatblygu rhestr o feysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella er mwyn goleuo ein gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol. Yn 2021/22, cynhaliwyd digwyddiad arwyddo a rhannu rhithwir ar gyfer pobl â nam ar eu clyw a'u dehonglwyr iaith arwyddion i helpu i oleuo'r prosiect a chynhaliwyd sesiwn gyda Phwyllgor Ieuenctid APCAP. Cafodd adroddiad y prosiect a'r argymhellion eu cyflwyno i swyddogion. Roedd hefyd yn cynnwys rhestr wirio a allai, yn dilyn ei ddiwygio ymhellach ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, gael ei rannu'n fewnol a chyda phartneriaid i sicrhau bod prosiectau a ddatblygir i fynd i'r afael ag Effeithiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn gynhwysol. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn 2022/23 o ran adolygu ac ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad.

## 5. Prosiectau Mynediad Corfforol

[Cydweithio, Integreiddio]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Cynhaliwyd nifer o brosiectau mynediad corfforol i gynyddu hygyrchedd gwahanol rannau o'r Parc yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- ✓ Rhoi wyneb newydd ar y llwybr mynediad ym Maenorbŷr ac atgyweirio'r llwybr bordiau ar y traeth.
- ✓ Cwblhau astudiaeth gwmpasu ac arolwg o welliannau o ran mynediad i Draeth Poppit.
- ✓ Cwblhau gwelliannau i'r llwybr yng nghapel Santes Non a'r Ffynnon Sanctaidd i gynyddu mynediad yn agosach at yr adfail i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ac eraill ag anghenion symudedd. Ochr yn ochr â hyn mae taith sain wedi cael ei datblygu hefyd.

O ran gwaith ar daith gerdded hygyrch yn y corslwyn, Freshwater East, roedd yr Awdurdod yn disgwyl i gael caniatadau perthnasol gan CNC ar ddiwedd 2021/22 cyn y gallai'r gwaith ar y safle fynd yn ei flaen. Cafodd prosiect Mynediad Castell Caeriw ei ohirio oherwydd Covid 19 ac roedd yn dal yn ei gamau cynllunio cychwynnol. Mae briff wedi ei ysgrifennu a phensaer wedi ei hurio i greu cynlluniau.

Cafodd dechrau proses i archwilio’r potensial ar gyfer datblygu manyleb a chyfundrefn arolygu well ar gyfer llwybr mynediad rhwydd ei ohirio wedi i’r Rheolwr Gweithrediadau adael. Bydd angen ystyried datblygiadau pellach yn y maes hwn yng ngoleuni datblygu cynlluniau cyflawni ac amcanion llesiant a blaenoriaethau diwygiedig.

**6. Datganiad Sefyllfa ar y Cyd**

[Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Adolygodd y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru eu datganiad sefyllfa ar y cyd Tirweddau i Bawb a'i gyfuno â datganiad sefyllfa Iechyd a Lles i greu datganiad Tirweddau i Bawb sydd wedi'i ddiweddaru. Cyflwynwyd y datganiad sefyllfa wedi'i ddiweddaru i Aelodau yn yr APC ym mis Rhagfyr 2021.

**Ffrwd Waith: Ymgysylltu**

**1. Pwyllgor Ieuenctid a Gweithgareddau'r Genhedlaeth Nesaf**

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Parhaodd Pwyllgor Ieuenctid APCAP i gwrdd a chynnal gweithgareddau yn 2021/22. Gweler isod uchafbwyntiau gweithgareddau'r Pwyllgor Ieuenctid a’r Genhedlaeth Nesaf, a ysgrifennwyd gan ddau aelod o'r Pwyllgor Ieuenctid, Demi-Lee Cole a Seb Landais.

- ✓ Roedd sawl uchafbwynt yn y 12 mis diwethaf o sesiynau'r Pwyllgor Ieuenctid a’r Parcmyn Ieuenctid. Ar y cyfan, roedd y gweithgareddau y llwyddom ni i'w gwneud yn hwyl, yn greadigol, ac fe gyfrannon nhw at y Parc Cenedlaethol mewn amryw ffyrdd.
- ✓ Prosiect parhaus hwyaf ein Pwyllgor Ieuenctid dros y flwyddyn ddiwethaf fu creu Maniffesto Ieuenctid ar gyfer Sir Benfro; fersiwn o Faniffesto Ieuenctid Europarc ydoedd a addaswyd gennym ni i adlewyrchu dymuniadau ac anghenion craidd pobl ifanc o fewn Sir Benfro. Fe ddefnyddiom ni Faniffesto Ieuenctid Europarc ar gyfer strwythur ein un ni yn Sir Benfro, ac fe ddaethom o hyd i ffyrdd o wella arno hefyd. Gwelsom fod ychydig gormod o destun ynddo ac er bod y testun wedi'i gynnwys mewn swigod siarad, nid oedd

darluniau o gymeriadau yn dweud y testun. Er nad yw Maniffesto Ieuenctid Sir Benfro wedi'i gwblhau eto, rydym wedi ei gael yn ddefnyddiol iawn wrth benderfynu pa brosiectau i'w cyflawni gan ei fod yn ein galluogi i asesu nodau allweddol pobl ifanc yn Sir Benfro a thynhau ein ffocws. Hefyd, rydym wedi cael bod y Maniffesto Ieuenctid yn offeryn cyfleus i feddwl syniadau newydd ar gyfer prosiectau. Er enghraifft, roedd adeg ar ddechrau'r flwyddyn pan oedd sesiwn rydd gennym a ninnau'n ansicr ar beth i ganolbwyntio; dyma pryd y gwnaethom gofio'r teitlau allweddol yn y maniffesto ieuenctid a sylweddoli nad oeddem wedi gwneud unrhyw weithgareddau cludiant llesol. Yn dilyn hyn, paratôdd y Parcmon Darganfod sesiynau ar gludiant llesol a fynychwyd gan nifer o aelodau Cenhedlaeth Nesaf Arfordir Penfro.

- ✓ Eleni mae'r Parcmyn Ieuenctid wedi cynnal gweithgareddau cyffrous iawn, un o ffefrynnau'r Genhedlaeth Nesaf oedd adeiladu gwâl dyfrgwn a'i gosod yng Nghoedwig y Llwyn Helyg. Roedd yn wych gweld ein sgiliau ymarferol yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer yr amgylchedd naturiol a chan ei bod yn ei lle ers rhai misoedd bellach, rydym yn gobeithio y bydd llawer o ddyfrgwn yn byw ynddo yn fuan iawn!
- ✓ Roedd prosiect plannu coed Cas-blaidd yn wych i'r Pwyllgor Ieuenctid, fe ymwelom ni 3 gwaith i helpu, gydag ychydig wythnosau rhwng pob ymweliad, gan ein galluogi i weld y cynnydd ers y tro blaenorol i ni fod yno. Ar y cyfan, buom yn cynorthwyo gyda phlannu coed, gosod matiau coed a gofal cyffredinol am y safle, megis casglu sbwriel.
- ✓ Ynghyd â gweithgareddau ymarferol, mae'r Parcmyn Ieuenctid hefyd wedi cael nifer o ddiwrnodau archwilio a dysgu eleni, 3 o'r prif ddigwyddiadau oedd Diwrnod Cenedlaethol y Dolydd yn Lydstep, taith o amgylch gorllewin maes tanio Castellmartin a helfa ffwngaidd yng Nghastell Henllys ar gyfer diwrnod cenedlaethol ffyngau
- ✓ Un arall o sesiynau pwysig y Pwyllgor Ieuenctid sy'n sefyll allan llawer yw diwrnod addasiadau arfordirol Niwgwl. Dyma pryd y gwnaethom gwrdd â rhanddeiliaid y prosiect a thrafod opsiynau a phosibiliadau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol. Yna, fe wnaeth aelod o'r Pwyllgor Ieuenctid gasglu barn yr aelodau ac ysgrifennu adroddiad ar ein safbwyntiau cyfunol.
- ✓ Yn y Gwanwyn, cawsom sesiwn Parcmyn Ieuenctid gyda'r Prosiect Graffiti a'r artist lleol Lloyd Roberts. Fe wnaethom gynllunio tri bwrdd murlun a fyddai'n cyd-fynd â'i gilydd i ffurfio delwedd fwy o lawer o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro o'r gogledd i'r de. Yn ystod y sesiwn hon, dysgodd Lloyd yr artist graffiti i ni sut i ddefnyddio paent chwistrellu ac fe wnaethom osod y sylfeini ar gyfer tair delwedd. Un ar gyfer gogledd Sir Benfro, un ar gyfer canol Sir Benfro ac un ar gyfer y de. Byddai'r delweddau hyn yn cyfuno i ffurfio delwedd o holl arfordir Sir Benfro.
- ✓ Taith Llais Ieuenctid Parciau Cenedlaethol y DU ym mis Chwefror i'r Peak District fu fy hoff beth hyd yma; roedd yn hynod ddiddorol gweld sut y mae gwahanol Barciau'n gweithredu. Y peth anhygoel amdano oedd yr amrywiaeth o weithgareddau a gynhaliwyd yno. Yn ystod y bore cyntaf, fe wnaethom rannu'n wahanol grwpiau gweithgareddau. Aeth rhai ohonom i feicio mynydd, aeth rhai ati i blannu coed, a bu eraill yn cynnal a chadw llwybrau. Fe wnaeth y gweithgareddau hyn roi rhywbeth cynhyrchiol i ni ei wneud a'n haddysgu ni sut mae'r tir mewn Parciau Cenedlaethol yn cael ei gynnal a'i gadw. Drannoeth, cawsom gyfarfod yn y neuadd bentref leol. Unwaith yr oeddem ni yno, fe wnaethom rannu'n wahanol dimau a chreu posteri am faterion y gall

pobl eu hwynebu mewn rhai Parciau Cenedlaethol, a sut i'w datrys. Gall y materion hyn gynnwys diffyg cludiant cyhoeddus, rhai cyflyrau meddygol, a llawer mwy. Aethom i mewn i'r penwythnos gyda 5 nod, sef:

- Ffurfio cysylltiadau rhwng gwirfoddolwyr ifainc Parciau Cenedlaethol y DU;
- Rhannu'r hyn y mae pob grŵp wedi bod yn ei wneud o fewn eu priod Barc Cenedlaethol;
- Llunio nodau i fynd â hwy yn ôl i bob Parc Cenedlaethol i wella’r gwaith sy'n cael ei wneud ymhlith gwirfoddolwyr ifanc;
- Datblygu sgiliau arwain a chyfathrebu personol yn ogystal â galluoedd gweithio mewn tîm;
- Siarad gydag arweinwyr Parciau Cenedlaethol y DU i ofyn pam nad oes mwy yn cael ei wneud i gefnogi gwirfoddolwyr ifainc.

Ar ôl i ni gyrraedd adref, fe greon ni gyflwyniad PowerPoint i rannu ein profiad gyda gweddill y grŵp; roedd hwn yn cynnwys ein nodau, gweithgareddau, pethau a ddysgom ni a'r camau nesaf i ni fel Parc. Y cam nesaf mwyaf, sydd wedi parhau ac a ddechreuodd yn eithaf da oedd cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc mewn Parciau Cenedlaethol eraill i rannu syniadau, newyddion, cyfleoedd a llwyddiannau.

## 2. Ymgysylltu â Gwirfoddolwyr

[Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Effeithiodd Covid 19 ar y fforwm gwirfoddolwyr a lefelau ymgysylltu yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, cynhaliwyd gweithgareddau ymgysylltu ehangach drwy ddigwyddiadau rhanbarthol, ac roedd hyn yn rhoi adborth defnyddiol gan wirfoddolwyr. Cymerodd y gwirfoddolwyr ran yn yr adolygiad gwirfoddolwyr dan arweiniad ymgynghorwyr allanol. Bydd APCAP yn adolygu'r fforwm gwirfoddol gyda gwirfoddolwyr i weld sut yr hoffen nhw ymgysylltu â'r Awdurdod wrth symud ymlaen.

## 3. Grŵp Cynllun Gweithredu Ymgysylltu

[Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Parhaodd grŵp staff mewnol y Cynllun Gweithredu Ymgysylltu i gyfarfod yn ystod 2021/22. Cyflwynwyd adroddiad ar y cynllun gweithredu ymgysylltu i'r Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol ym mis Gorffennaf ac roedd yn cynnwys adroddiad dysgu ar y cyd ar "Addasu ein dull o weithredu mewn ymateb i Bandemig Covid 19: Defnyddio dulliau rhithwir/ digidol yn 2020/21”. Canolbwyntiodd cyfarfod mis Hydref ar amrywiaeth ac ymgysylltu gyda chyflwyniadau gan ymgynghorydd Profiadau i Bawb a fu'n sôn am ymchwil ac ymgysylltu a gyflawnwyd trwy'r prosiect. Roedd y Swyddog Walkability yn bresennol hefyd a bu’n trafod cynnig cyfathrebu cyflawn sy'n ystyried sut y gallem wella ein cynnig cyfathrebu hygyrch. Yng nghyfarfod y grŵp ym mis Chwefror trafodwyd ymgysylltu â chynghorau Cymuned, Tref a Dinas. Roedd hwn yn fater a oedd wedi codi'n flaenorol yn ystod trafodaethau grŵp y Cynllun

Gweithredu Ymgysylltu yn y gorffennol ac roedd yn faes a amlygwyd gan Aelodau pan gyflwynwyd yr adroddiad ar y Cynllun Gweithredu Ymgysylltu iddynt ym mis Gorffennaf. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar ddysgu o weithgareddau cyfredol/ blaenorol, yr hyn sy'n gweithio'n dda, heriau a chyfleoedd yn y dyfodol/ gwella ein dull gweithredu. Cafodd adroddiad ar bwyntiau allweddol o'r drafodaeth ei lunio i'w ystyried gan y Tîm Arwain. Bydd angen adolygu rôl y grŵp a'r cynllun gweithredu yn 2022/23 mewn ymateb i newidiadau sefydliadol a datblygu cynlluniau cyflawni.

## Amcan Llesiant Cymunedol: Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol.

**Ffrydiau gwaith a gefnogodd cyflawni'r amcan hwn yn 2021/22:**

- Gweithgareddau a Phrosiectau Cymunedol sydd o fudd i'r Parc a Phobl
- Projects Cronfa Datblygu Cynaliadwy - Cefnogi Prosiectau Datgarboneiddio Cymunedol
- Gwasanaeth Cynllunio – Gorfodi, Creu Lleoedd ac Ymgysylltu â'r Gymuned

**Uchafbwyntiau Cryno o'r Diogelwr Taith 2016-2022:**

✓ 1,377 o ddiwrnodau gweithredu cymdeithasol wedi'i darparu ers 2018/19 gan ddwyn budd i'r Parc Cenedlaethol a'i gymunedau. Gan gynnwys sesiynau a gyflawnwyd gyda Myfyrwyr Coleg Sir Benfro a disgyblion o ysgolion yn Sir Benfro.

✓ Ymgysylltu cynyddol rhwng y Ganolfan a chymunedau lleol. Gan gynnwys OYP yn cefnogi Gorymdaith Dreigiau Dydd Gŵyl Dewi ac yn datblygu cysylltiadau ag Eco Dewi a'r Wythnos Werdd Fawr. Caffi Castell Caeriw yn rhoi cyfle i bobl leol gyfarfod yn yr awyr agored. Castell Henllys yn cynnal grwpiau lleol yn ei ardal tipis ac yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli i ddefnyddwyr gwasanaethau Value Independence a myfyrwyr o Goleg Plas Dwbl.

✓ Mae'r gwasanaeth Parcmyn a Darganfod yn parhau i ymgysylltu â chymunedau lleol, drwy gyswllt cymunedol, sesiynau gwirfoddoli, sgyrsiau grŵp, ymgysylltu yn yr awyr agored a theithiau tywys.

✓ Y prosiect Pwyth mewn Pryd yn ymgysylltu â chymunedau i gefnogi gwaith ar rywogaethau goresgynnol a monitro safleoedd yn barhaus. Yn amlygu pwysigrwydd cael cefnogaeth gymunedol a chynnwys y gymuned ar gyfer prosiectau cadwraeth.

✓ Ail-alinio'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy i ganolbwyntio ar brosiectau datgarboneiddio cymunedol, gyda 27 o brosiectau cymunedol wedi cael cyllid ers y newid mewn ffocws ac 8 prosiect wedi'u cwblhau erbyn diwedd 2021/22. O ganlyniad i ailbennu ffocws y gronfa mae'r Awdurdod wedi bod yn ymgysylltu ag ystod ehangach o grwpiau cymunedol nag y bu'n ymgysylltu â hwy'n draddodiadol. Mae hefyd yn cefnogi grwpiau cymunedol sy'n dwyn manteision cynhwysiant ac iechyd a llesiant ehangach i'r gymuned.

✓ Clirio'r ôl-groniad o achosion gorfodi hanesyddol a oedd heb gael sylw.

**Mae ein gwaith ar draws y ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol canlynol:**

- Y ganran sy’n teimlo’u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy’n effeithio ar eu hardal leol
- Canran y bobl sy’n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw
- Canran y bobl sy’n gwirfoddoli
- Canran y bobl sy’n unig
- Canran y bobl sy’n cytuno eu bod yn perthyn i’r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu’n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch
- Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru
- Capasiti (mewn MW) yr offer ynni adnewyddadwy sydd wedi’i osod
- Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl

Gweithgareddau a Pherfformiad Allweddol yn 2021/22 yn erbyn ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcan Llesiant Cymunedol:

## Ffrwd Waith: Gweithgareddau a Phrosiectau Cymunedol sydd o fudd i'r Parc a Phobl

### 1. Adferiad Covid 19 a Gweithgareddau ac ymgysylltu Cymunedol

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Fe wnaeth llacio rheoliadau yn ystod y flwyddyn roi mwy o gyfle i dimau ar draws APCAP gynnal gweithgareddau ymgysylltu cymunedol, prosiect ac allgymorth. Yn arbennig wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi roedd yr Awdurdod yn gallu darparu mwy o gyfleoedd ymgysylltu yn y cnawd, yn enwedig yn yr awyr agored, gan barhau i ddefnyddio cyfleoedd ymgysylltu ar-lein hefyd.

Roedd gweithgareddau yn 2021/22 yn cynnwys:

- ✓ Cynhaliodd Oriel y Parc yr Orymdaith Dreigiau flynyddol yn gynnar ym mis Mawrth. Cymerodd 4 grŵp ysgol a chymunedol ran, a bu cannoedd o aelodau'r cyhoedd yn sefyll yn un rhes ar hyd y stryd ac yn dilyn yr orymdaith. Cafodd 2 ysgol sesiynau artistiaid y talwyd amdanynt i helpu i greu eu Dreigiau. Cynhaliodd Oriel y Parc raglen o farchnadoedd dros dro yn ystod misoedd yr haf hefyd.
- ✓ Cynhaliodd Caeriw Ddiwrnod Hwyl i'r Teulu Sandy Bear a Diwrnod Pwyso Afalau.
- ✓ Fe ailddechreuodd y cyfleuster llogi ystafell yn Oriel y Parc ym mis Mehefin, gan alluogi grwpiau celf lleol i ddychwelyd i'w slotiau rheolaidd, tra bo’r tipi yng Nghastell Henllys hefyd yn cael ei ddefnyddio gan grwpiau lleol gan gynnwys Pobl yn Gyntaf Sir Benfro. Hefyd, yng Nghaeriw mae llawer o bobl leol wedi bod yn defnyddio Ystafell De Nest yn yr Ardd Furiog yn rheolaidd fel man cyfarfod awyr agored diogel yn ystod y flwyddyn.
- ✓ Bu’r prosiect Pwyth mewn Pryd yn cefnogi partïon gwaith a oedd yn cynnwys gwirfoddolwyr APCAP, Grwpiau Llwybrau Trefdraeth, Grŵp Amgylchedd Trewyddel, grŵp cymunedol Holywood mewn gweithgareddau tynnu Jac y Neidiwr. Ym mis Gorffennaf cafodd digwyddiad arddangos arfer gorau ei

drefnu gan Cwm Arian a'i arwain gan swyddog Pwyth mewn Pryd. Bu chwe gwirfoddolwr o grŵp Amgylchedd Brynberian yn gweithio gyda swyddog prosiect ac un o barcmyn APCAP ar waith ar gyfer y gaeaf a pharatoi dau safle ar gyfer rheoli Jac y Neidiwr yn ystod y tymor yn 2022 lle bydd y grŵp yn cymryd rhan mewn ymweliadau rheoli misol ac yn cynorthwyo i fonitro'r safle yn y dyfodol

- ✓ Ym mis Chwefror dechreuodd Parcmyn ar y prosiect plannu coed 70 o Goed am 70 Mlynedd gyda chymunedau i goffáu blwyddyn jiwbilî platinwm APCAP trwy gysylltu â chynghorau cymuned am y prosiect. Cynhaliodd Parcmon APCAP weithgareddau cyswllt gyda chyngor cymuned Llangwm, gan gynnwys archwilio lleoliadau plannu coed arfaethedig.
- ✓ Cyfranogodd Rheolwr y Gwasanaeth Parcmyn yng nghyfarfodydd chwarterol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Benfro.
- ✓ Bu rheolwr gwasanaethau Ymwelwyr Oriel Y Parc yn cefnogi grŵp o bobl a busnesau lleol i gasglu meddyliau a syniadau trigolion lleol a'r rhai sy'n gweithio yn Nhyddewi ynghylch sut y gallai'r Ddinas ymdopi'n well â'r mewnlifiad tymhorol o dwristiaid. Roedd Oriel y Parc yn un o dri lleoliad i gynnal blwch adborth i drigolion lleol bostio eu harolygon yn ôl.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # gweithgareddau prosiect/ ymgysylltu cymunedol | 866 | 521 | 959 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |
| # digwyddiadau cymunedol yn cael eu cynnal mewn canolfannau | 15 | 6 | 49 | |

Yn ystod y flwyddyn roedd staff yn gallu ail ddechrau sesiynau gweithredu cymdeithasol ymarferol gyda myfyrwyr ysgol a myfyrwyr coleg Sir Benfro. Roedd gweithgareddau gweithredu cymdeithasol yn cynnwys gwaith llwybr troed, casglu sbwriel, gwaith tir mewn ysgolion a gweithgareddau cysylltiedig â chadwraeth.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # diwrnodau cyfranogwyr gweithredu cymdeithasol | 471.5 | 58 | 267 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |

## Ffrwd Waith: Cronfa Datblygu Cynaliadwy - Cefnogi Prosiectau Datgarboneiddio Cymunedol

### 1. Ariannu Prosiectau Datgarboneiddio Cymunedol

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Ym mis Mehefin 2020, cymerodd Pwyllgor Awdurdod y Parc Cenedlaethol benderfyniad i newid pwyslais y Gronfa Datblygu Gynaliadwy. Bydd y Gronfa bellach yn cefnogi prosiectau dan arweiniad y gymuned sy'n cyfrannu tuag at leihau carbon ac yn helpu i ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Yn 2021/22 cymeradwyodd y gronfa 15 prosiect datgarboneiddio cymunedol. Cafodd 12 prosiect eu cymeradwyo yn 2020/21.

Roedd y Prosiectau Ynni Adnewyddadwy gafodd eu cymeradwyo yn cynnwys:

- ✓ Clwb Solfach, Prosiect Solar i osod paneli ffotofoltäig solar ar adeilad y clwb
- ✓ Cymdeithas Gymunedol a Chwaraeon Arberth a'r Cylch, i osod paneli ffotofoltäig solar ar Ganolfan Gymunedol Bloomfield House
- ✓ Canolfan Gymunedol Hubberston a Hakin, gosod batri ar gyfer storio ynni adnewyddadwy
- ✓ Cwmni Buddiant Cymunedol Siop Lawrenni i osod paneli solar ffotofoltäig ar CBC Siop Lawrenni
- ✓ Clwb Cymdeithasol a Chwaraeon Llanismel i osod paneli solar ffotofoltäig ar Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol Llanismel
- ✓ Neuadd Bentref a Chymdeithas Gymunedol Llanteg, i osod goleuadau solar ym maes parcio neuadd y pentref
- ✓ Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian, i osod system ffotofoltäig solar yn y stiwdio gymunedol newydd, Y Stiwdio
- ✓ Elusen Pwyllgor Pentref yr Eglwys Lwyd, ar gyfer gosod batris i storio trydan o'r panel solar

Roedd y prosiectau sy'n cynnwys gosod cyfleuster cymunedol sy'n lleihau gwastraff a gymeradwywyd yn cynnwys:

- ✓ Clwb Rygbi Dinbych-y-pysgod, Gosod biniau ailgylchu a gorsafoedd casglu sbwriel ym mhob un o'r cyfleusterau chwaraeon yn y dref
- ✓ Pembrokeshire Frame, The Refillery of Pembroke Dock sy'n cynnwys creu siop ddi-wastraff ddi-blastig yn Noc Penfro
- ✓ COAST, Rhandiroedd wedi'u Trefnu gan y Gymuned ar gyfer Tenantiaid Solfach

Mentrau i hyrwyddo'r arfer o leihau allyriadau carbon mewn trafnidiaeth a gymeradwywyd:

- ✓ Menter lleihau carbon warws Paul Sartori, gosod dyfeisiau olrhain i mewn i 4 Warws Paul Sartori. Bydd yr offer hwn yn cynorthwyo gyda lleihad mewn allyriadau carbon (gellir olrhain hyn drwy adroddiadau sy'n gysylltiedig â'r system) ac yn cynyddu darbodaeth o ran tanwydd trwy optimeiddio llwybrau.

Mentrau lleihau carbon cymunedol eraill a gymeradwywyd:

- ✓ Ffynnone – cydnerthedd cymunedol yng Ngogledd Ddwyrain Sir Benfro, prosiect Sow it to Grow it, prosiect peilot 6 mis sy'n cynnwys plannu, sgiliau a hyfforddiant ar gyfer tyfu bwyd a lles.

- ✓ Awel Aman Tawe, ennyn diddordeb disgyblion i weithio ar leihau ynni a newid hinsawdd fel gweithgaredd allgyrsiol.
- ✓ Ecodewi, gweithgareddau datgarboneiddio dan arweiniad y gymuned ledled Penrhyn Dewi gyda ffocws ar ymgysylltu â'r gymuned.

Yn 2021/22 dyrannwyd 82.15% o'r gronfa datblygu gynaliadwy, sy'n cymharu â 77.87% yn 2020/21. Roedd y gyllideb yn cynnwys £100,000 wedi'i ddyrannu gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol a £90,000 a gymeradwywyd o gyllid Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Cwblhawyd 8 prosiect GDC yn 2021/22.

- ✓ Ynni adnewyddadwy'r RSPB ar Ynys Dewi
- ✓ Gosodiad panel solar Theatr Gwaun
- ✓ Gosodiad panel solar Cymdeithas Chwaraeon a Hamdden Herbrandston
- ✓ Gosodiad panel solar 12kW Clwb Rygbi Crymych
- ✓ Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, 20 panel ffotofoltäig newydd ar Ynys Sgomer a gwrthdröydd newydd i gasglu a throsi mwy o ynni solar yn drydan
- ✓ Pembrokeshire Mencap Ltd, gosod panel solar 1.5kW
- ✓ Astudiaeth ymchwil Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian i leihau ynni a newid ymddygiad yng Nghymunedau Gogledd Sir Benfro
- ✓ Prosiect Compostio Llyngyraidd CBC Clynfyw

O ganlyniad i ailbennu ffocws y gronfa mae'r Awdurdod wedi bod yn ymgysylltu ag ystod ehangach o grwpiau cymunedol nag y mae wedi bod yn ymgysylltu â hwy yn draddodiadol. Mae hefyd yn cefnogi grwpiau cymunedol sy'n dwyn manteision ehangach o ran cynhwysiant ac iechyd a llesiant i gymunedau. Mewn rhai achosion, mae'r gronfa'n rhoi cymorth i leihau costau rhedeg rhai grwpiau cymunedol trwy'r mesurau datgarboneiddio y mae'n eu hwyluso.

## Ffrwd Waith: Gwasanaeth Cynllunio – Gorfodi, Creu Lleoedd ac Ymgysylltu â'r Gymuned

### 1. Perfformiad Gorfodi

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6]

Yn debyg i berfformiad cynllunio ehangach, nid yw perfformiad gorfodi o ran ymchwiliad wedi gwella eto i lefelau perfformiad cyn y pandemig. Cynyddodd yr amser cyfartalog a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodaeth mewn dyddiau o 71.75 yn 2020/21 i 124 yn 2021/22.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 | Meincnodi |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| % yr achosion gorfodaeth a ymchwiliwyd (o fewn 84 diwrnod) | 100 | 78.15 | 79.46 | Meincnodi (Llywodraeth Cymru) | APC Eryri: 74% |
| Amser cyfartalog a gymerir i ymchwilio i achosion gorfodi mewn diwrnodau | 38.5 | 71.75 | 124 | Meincnodi (Llywodraeth Cymru) | APC Eryri: 63 diwrnodau |
| Amser cyfartalog a gymerir i gymryd camau gorfodi mewn diwrnodau | 95.5 | 103 | 96.75 | Meincnodi (Llywodraeth Cymru) | APC Eryri: 178 diwrnodau |

Roedd gan yr Awdurdod 25 cais cynllunio ôl-weithredol yn 2021/22, mae hyn yn cymharu â 8 yn 2020/21 ac 11 yn 2019/20.

**2. Creu Lleoedd**

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6]

Mae creu lleoedd yn dal i fod yn ystyriaeth bwysig i Aelodau o ran penderfyniadau cynllunio, ac mae'r Awdurdod yn parhau i gefnogi'r egwyddorion y mae wedi ymrwymo iddynt mewn perthynas â Siarter Creu Lleoedd Cymru. Parhaodd swyddogion i ymgysylltu gyda chynghorau cymuned yn ystod y flwyddyn.

## Amcan Llesiant Diwylliant: Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal

**Ffrydiau gwaith a gefnogodd cyflawni'r amcan hwn yn 2021/22:**
- Ysbrydoliaeth a Phrofiadau ar Hanes
- Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu â Chelf
- Yr Amgylchedd Hanesyddol - Adeiladau Hanesyddol ac Archaeoleg Gymunedol
- Hyrwyddo'r Gymraeg - Sgiliau, cyfleoedd ac ysbrydoliaeth

**Uchafbwyntiau Cryno o’r Diogelwr Taith 2016-2022:**
- ✓ Gwell profiad ymwelwyr yng Nghastell Caeriw gyda chaffi a gardd furiog Newydd. Gyda 237,152 o ymwelwyr â'r Castell ers 2016/17.
- ✓ 19,866 o gyfranogwyr yn sesiynau rhaglen addysg Castell Henllys ers 2016/17, yn helpu pobl ifanc a phlant i ddarganfod mwy am Oes yr Haearn a hanes yr ardal.
- ✓ Gweithio yn llwyddiannus gydag Amgueddfa Cymru i gryfhau'r cysylltiad rhwng arddangosfeydd wedi'u curad a dibenion y Parc Cenedlaethol. Ers 2016/17 mae'r oriel yn OYP wedi galluogi 125,127 o ymwelwyr i weld gwaith celf y Casgliad Cenedlaethol.

- ✓ Sefydlu cynllun Gwarchod Henebion gan gynnwys hyfforddi gwirfoddolwyr. Mae dros 200 o ymweliadau arolwg a monitro wedi cael eu cynnal gan wirfoddolwyr o dan y cynllun ers iddo ddechrau yn 2020/21.
- ✓ Cynnal Diwrnod Archaeoleg Blynyddol mewn partneriaeth â PLANED, gan gynnwys cyflwyno digwyddiadau rhithwir yn llwyddiannus yn 2020/21 a 2021/22 oherwydd Covid 19.
- ✓ Yn cydweithio gyda Heddlu Dyfed Powys, CADW ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed i fynd i'r afael â throseddau treftadaeth yn y Parc drwy'r bartneriaeth Gwarchod Treftadaeth.
- ✓ Castell Henllys yn datblygu menter newydd i helpu dysgwyr Cymraeg drwy sefydlu gweithgareddau a sesiynau Dished y Dysgwyr yng nghaffi'r ganolfan.
- ✓ Datblygu a darparu'r sesiynau Cymraeg yn y Tirlun sy'n parhau i gael eu cyflwyno i wirfoddolwyr a staff.

**Mae ein gwaith ar draws y ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol canlynol:**

- Canran y bobl sy’n bresennol neu sy’n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn.
- Canran y bobl sy’n gwirfoddoli
- Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl
- Canran yr asedau amgylchedd hanesyddol dynodedig sydd mewn cyflwr sefydlog neu well
- Nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg
- Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o’r iaith

Gweithgareddau a Pherfformiad Allweddol yn 2021/22 yn erbyn ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcan Llesiant Diwylliant:

### Ffrwd Waith: Ysbrydoliaeth a Phrofiadau ar Hanes

#### 1. Adferiad Covid 19 ac Ysbrydoliaeth Hanesyddol

[Hirdymor, Cydweithio, Cynnwys]

Addaswyd Castell a Melin Heli Caeriw a Chastell Henllys i newidiadau yn rheoliadau Covid 19 yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd mesurau lliniaru ar waith i helpu i leihau risg o Covid 19 yn unol â newidiadau i reoliadau ac asesiadau risg ar gyfer y safle. Rhoddodd Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr Gogledd wybodaeth bellach i Aelodau yn Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol am ddulliau yr oeddent wedi'u cymryd ar y safle yn ystod y flwyddyn o ran Covid 19. Mae Castell Caeriw wedi gweld nifer yr ymwelwyr yn dychwelyd dros lefel 2019/20. Cadwodd y ddau safle eu sgôr Trip Advisor 4.5 yn 2021/22, ac roedd gan y ddau safle radd Google Review o 4.6 allan o 5 yn 2021/22.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # ymwelwyr â Chastell Caeriw | 43,353 | 11,189 | 46,329 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |
| # ymwelwyr â Chastell Henllys | 17,260 | 4,931 | 13,022 | |
| Sgôr gyffredinol 1-5 Trip Advisor am Gaeriw | 4.5 (Gwyrdd) | 4.5 (Gwyrdd) | 4.5 (Gwyrdd) | 4.5 |
| Sgôr gyffredinol 1-5 Trip Advisor am Gastell Henllys | 4.5 (Gwyrdd) | 4.5 (Gwyrdd) | 4.5 (Gwyrdd) | 4.5 |

Cynhaliwyd rhaglen o ddigwyddiadau hanesyddol ar draws y ddwy ganolfan, a ategir gan deithiau cerdded tywys hanesyddol, sesiynau archaeoleg gymunedol a sesiynau cymunedol Parcmon o amgylch y Parc.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # cyfranogwyr mewn gweithgareddau a digwyddiadau hanesyddol | 15,572 | 588 | 12,477 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |

Cafodd y gwaith ar yr ystafell arddangos yng Nghaeriw ei ohirio gan effeithiau Covid 19, ond mae'r gwaith yn mynd rhagddo gyda'r disgwyl y bydd yn cael ei gwblhau yn nhymor 2022.

## 2. Adferiad Covid 19 a Rhaglen Addysg yng Nghastell Henllys a Chaeriw

[Hirdymor, Cydweithio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]


Llwyddodd Castell Henllys a Chaeriw i ddenu ymweliadau ysgol yn 2021/22, er nad oeddent yn dychwelyd i lefelau cyn y pandemig. O bwysigrwydd arbennig i Gastell Henllys oedd dychwelyd ysgolion o'r tu allan i Sir Benfro ar gyfer ei sesiynau addysg, gan adlewyrchu ei batrwm ymgysylltu cyn y pandemig ag ysgolion.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # cyfranogwyr mewn rhaglen addysg yng Nghastell Henllys | 4,257 | 192 | 1,950 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |
| # cyfranogwyr yn y rhaglen addysg yng Nghaeriw | 1,622 | 48 | 595 | |

## Ffrwd Waith: Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu â Chelf

### 1. Adferiad Covid 19 Oriel OYP a Arddangosfa Thir/ Môr

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]




Poster Arddangosfa Mike Perry

Gweithiodd Oriel y Parc gydag Amgueddfa Cymru i gyflwyno Arddangosfa Tir/Môr gan Mike Perry a agorodd ym mis Gorffennaf. Mae gan yr Amgueddfa a'r Awdurdod gytundeb lefel gwasanaeth. Gan adeiladu ar arddangosfa flaenorol "Wriggle", dangosodd effaith gadarnhaol gweithio'n agos gydag Amgueddfa Cymru i ddatblygu themâu sy'n gysylltiedig â dibenion y Parc Cenedlaethol. Roedd yr arddangosfa o ffotograffiaeth tirwedd yn herio ffyrdd confensiynol o weld ein morlin a chefn gwlad ac mae'n agor ein llygaid i berthynas doredig cymdeithas â byd natur. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi gyda staff a gwirfoddolwyr gyda thaith gan yr artist ac fe brofodd rhagddangosiadau preifat yn boblogaidd gyda gwahanol randdeiliaid.

Fe wnaeth Oriel y Parc hefyd geisio datblygu elfen ymgysylltu digidol i'r arddangosfa, gan gynnwys oriel ar-lein, trafodaeth ddigidol gyda phanel ar Dirluniau ar gyfer ein Dyfodol a 'Sgwrs' rhwng Mike Perry a Dr Bronwen Colquhoun

Yn ystod Tymor yr Hydref 2021, bu Ffotogallery yn gweithio gyda phlant Ysgol Gynradd Santes Monica yn Cathays, Caerdydd, i ymchwilio i effeithiau llygredd ar ein traethau lleol yn Ne Cymru. Ysbrydolwyd prosiect Ysgol Gynradd Santes Monica gan waith yr artist Mike Perry, ei arddangosfa Tir/Môr, ac yn arbennig y corff o waith gan Perry sy'n dwyn yr enw Môr Plastig.

Bu'n rhaid gohirio'r bwriad i gyflwyno prosiect Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy cydweithredol a oedd yn cynnwys cynnal Arddangosfa Lost Words/ Geiriau Diflanedig mewn partneriaeth â Thirweddau Dynodedig ac AHNEoedd eraill oherwydd materion hawlfraint.

Fe wnaeth Oriel y Parc ymateb i newidiadau mewn rheoliadau yn ystod y flwyddyn o ran rheoli ymwelwyr i'r oriel. O ran nifer yr ymwelwyr i'r oriel, roedd yr oriel ar agor am gyfnodau hirach nag yn 2020/21 pan gafodd ei effeithio'n sylweddol gan gau orielau mewn ymateb i gyfyngiadau Covid 19. Fodd bynnag, nid yw eto i lefelau cyn y pandemig o ymwelwyr, sydd ar flwyddyn arferol yn tueddu i weld yr oriel yn derbyn dros 20,000 o ymwelwyr.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # ymwelwyr i oriel Oriel Y Parc | 23,341 | 997 | 13,550 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |

## 2. Cefnogi artistiaid ac ymgysylltu â'r genhedlaeth nesaf

[Hirdymor, Cydweithio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Parhaodd Oriel y Parc i letya man i artistiaid arddangos gwaith y tu allan i'r brif oriel. Roedd arddangosfeydd a gwaith yn y Tŵr ac Ystafell Dewi Sant yn archwilio ystod o themâu o dirwedd Sir Benfro, gadael dim olion ac adar Sir Benfro.

Yn ystod y flwyddyn parhaodd Oriel y Parc i ymgysylltu â Phrosiect Ysbrydoli Sir Benfro a datblygiad eu porth celf newydd.

Cafodd 9 gweithdy celf a chrefft oedd yn targedu plant a'u gwarcheidwaid eu darparu yn Oriel y Parc yn ystod amser gwyliau ysgol gyda 163 o gyfranogwyr. Roedd y gweithdai yn rhoi cyfleoedd i'r cyfranogwyr ddysgu a chael eu hysbrydoli gan amrywiaeth o artistiaid.

Cynhaliodd Oriel y Parc hefyd sesiwn Cenhedlaeth Nesaf APCAP gyda Lloyd the Graffiti yn creu murluniau cefndir o dirluniau ar gyfer eu prosiect a ariannwyd gan Fanc Ieuenctid.

## Ffrwd Waith: Yr Amgylchedd Hanesyddol - Adeiladau Hanesyddol ac Archaeoleg Gymunedol

### 1. Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio]

Parhaodd yr Awdurdod i gynghori perchnogion adeiladau hanesyddol a safleoedd ynghylch rheoli trwy ei Swyddog Cadwraeth Adeiladau.

| Mesur Perfformiad | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2021/22 Targed |
|---|---|---|---|---|
| % Adeiladau mewn Perygl | 5 (Gwyrdd) | 5 (Gwyrdd) | 5 (Gwyrdd) | <6 |

Penderfynwyd 30 o geisiadau adeiladau rhestredig o dan gynllun dirprwyedig CADW drwy Swyddog Cadwraeth Adeiladu APCAP yn 2021/22. Fe wnaeth yr Awdurdod barhau i adolygu ardaloedd cadwraeth a pharatoi Canllawiau Cynllunio Atodol.

### 2. Cynllun Diogelu Henebion Archeolegol

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Cynnwys]

Parhaodd APCAP i gyflawni ei gynllun Diogelu Henebion Archeolegol, gan weithio gyda gwirfoddolwyr i fonitro a datblygu rhaglen waith sy'n canolbwyntio ar ein henebion sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Yn 2021/22 roedd gweithgareddau'n cynnwys:

- ✓ Roedd gwirfoddolwyr yn parhau i ymweld â henebion cofrestredig a chyflwyno gwybodaeth yn ymwneud â chyflwr y safleoedd hynny gan ddefnyddio Arolwg ArcGIS 123. Mae cyfanswm o 134 o henebion yn cael eu monitro neu 47% o'r holl henebion cofrestredig sydd wedi'u lleoli yn y Parc Cenedlaethol. Mae dros 200 o ymweliadau wedi eu cynnal i'r henebion cofrestredig, ac mae amryw o broblemau wedi eu nodi.
- ✓ Cynhaliodd yr Archeolegydd Cymunedol ymweliadau ar y cyd â gwirfoddolwyr i ddarparu hyfforddiant ar y safle a hefyd i gefnogi dealltwriaeth gwirfoddolwyr am sut i asesu safleoedd â henebion cofrestredig mwy o faint neu fwy cymhleth.
- ✓ Yn ystod y flwyddyn fel yr oedd capasiti'n ganiatáu fe ddechreuodd yr Archeolegydd Cymunedol y broses o asesu ffurflenni a gyflwynwyd a datblygu rhaglen waith mewn ymateb i faterion a nodwyd.
- ✓ Cynhaliwyd digwyddiad diolch ym mis Mawrth yng Nghastell Henllys i ddiolch i'r gwirfoddolwyr treftadaeth a hefyd rhoi diweddariad iddynt ar gynnydd ynghylch ymweliadau, asesiadau o ffurflenni a chamau a gyflwynwyd lle mae problemau wedi'u nodi.

Roedd 253 o safleoedd archeolegol lle mae'r amodau wedi gwella oherwydd gweithgareddau'n ymwneud ag archaeoleg gymunedol yn 2021/22, mae hyn yn cymharu â 170 yn 2020/21. Roedd 161 o safleoedd archaeoleg lle mae amodau wedi gwella gyda chymorth gwirfoddolwyr a chyfranogwyr gweithredu cymdeithasol yn 2021/22, mae hyn yn cymharu â 142 yn 2020/21.

### 3. Prosiect Arwyr Amser

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Cafodd prosiect Arwyr Amser gydag ysgolion ei ddatblygu'n wreiddiol fel prosiect SDF. Yn ystod 2021/22 cafodd gwerthusiad o'r prosiect ei gwblhau gan ymgynghorydd allanol. Fel rhan o'r broses hon cynhaliwyd arolwg a gweithdy gwerthuso rhithwir gydag ysgolion oedd wedi cymryd rhan yn y prosiect. Bydd agweddau priodol o'r prosiect yn cael eu parhau drwy raglen ehangach addysg yr Awdurdod

Roedd sesiynau terfynol y prosiect yn 2021/22 yn canolbwyntio ar gyflawni tripiau maes i safleoedd archaeolegol yn y Preseli, gan gynnwys ymweliad â Chastell Henllys. Roedd 221 o gyfranogwyr ar draws 5 taith maes Arwyr Amser, 4 gydag Ysgol Gelli Aur ac 1 gyda Ysgol Puncheston. Cyflwynwyd y sesiynau gan Archeolegydd Cymunedol mewn partneriaeth â Parcmon Gogledd, parcmon addysg APCAP a staff Castell Henllys.

### 4. Ymgysylltiad a chloddiadau Archaeoleg Gymunedol

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Bu APCAP mewn partneriaeth â PLANED yn llwyddo i gynnal y Diwrnod Archaeoleg blynyddol. Yn debyg i'r digwyddiad yn 2020/21 cynhaliwyd y digwyddiad yn rhithiol gyda 150 o gyfranogwyr. Mae gweithgareddau dehongli digidol yn 2021/22 hefyd wedi arwain at:

- ✓ Fe ganolbwyntiodd gwaith i greu realiti estynedig o Hen Gaer Trwyn y Castell, Abergwaun ar ailadeiladu'r gaer yn ystod diwedd y ddeunawfed ganrif a hefyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.
- ✓ Ail-greadau digidol o arteffactau Oriel y Parc yn dilyn eu sganio.

Cefnogodd Archeolegydd Cymunedol APCAP bartneriaid gan gynnwys Ymddiriedolaeth Archaeoleg Dyfed gyda gwaith i gynllunio a chyflawni nifer o gloddiadau a ddigwyddodd o amgylch y Parc yn 2021/22, gan gynnwys cloddiadau yng Nghapel Sant Padrig, Porth y Rhaw, Waun Mawr a Chaerfai. Roedd cefnogaeth a ddarparwyd gan yr Archeolegydd Cymunedol yn cynnwys cynorthwyo gyda chyhoeddusrwydd a dogfennu’r cynnydd gyda chloddiadau trwy

gynhyrchu flogiau, cynnal arolwg â dronau yng Nghapel Sant Padrig, recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer y cloddiadau a threulio amser yn cloddio gyda gwirfoddolwyr, yn arwain teithiau ac yn darparu gwybodaeth i ymwelwyr â'r safleoedd. Cymerodd Parcmyn Ieuenctid yr Awdurdod ran yn y cloddiad yng Nghaerfai hefyd.

Parhaodd yr Awdurdod i weithio gyda Chyngor Cymuned Nanhyfer a Phrifysgol Durham o ran Castell Nanhyfer a datblygu arweinlyfr a gwaith dehongli, cadwraeth, mynediad a chynnal a chadw ar gyfer y safle. Roedd hyn yn cynnwys clirio prysgwydd yn yr ardal gan y tîm Wardeniaid a datblygu cynnig drafft ar gyfer gwaith cadwraeth ar y tŵr sgwâr gan yr Archeolegydd Cymunedol yn mewn cydweithrediad â Phrifysgol Durham. Fe wnaeth yr Archeolegydd Cymunedol hefyd ffilmio fideos a thynnu ffotograffau o'r safle â drôn ac fe rannwyd y rhain gyda'r cyngor cymuned a Phrifysgol Durham i helpu i roi cyhoeddusrwydd i'r safle.

## 5. Arolwg LIDAR

[Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio]

Mae'r Awdurdod wedi sicrhau cyllid gan SMS trwy'r prosiect Dawnsio ar y Dibyn i gynnal arolwg LIDAR o fynyddoedd y Preseli. Bydd y data'n rhoi map topograffig manwl o'r dirwedd i ni a chan hynny fe allai ddatgelu gwybodaeth newydd am nodweddion archeolegol a threftadaeth yn y dirwedd. Cyhoeddwyd tendr yn ystod y flwyddyn ac fe benodwyd contractwr. Fodd bynnag, methodd y contractwr a benodwyd â chynnal yr arolwg o'r awyr o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Ers hynny mae tîm y prosiect wedi cwrdd â'r contractwr ac maent yn fodlon bod y rhesymau dros yr oedi yn rhesymol ac y gellid eu goresgyn a'r bwriad yw cynnal yr arolwg yn ystod gaeaf 2022/23.

## 6. Gwarchod Treftadaeth

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]

Parhaodd APCAP i gydweithio ac ymgysylltu â Heddlu Dyfed-Powys, Cadw ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed trwy gynllun Gwylio Treftadaeth, sy'n amcanu at ymateb i fater troseddau treftadaeth yn y Parc. Cynhaliwyd cyfarfodydd dal-i-fyny rheolaidd rhwng partneriaid yn ystod y flwyddyn gan ddarparu cyfleoedd i drafod achosion, anghenion hyfforddi a datblygiadau ar lefel ranbarthol a chenedlaethol ar droseddau treftadaeth. Roedd y gweithgareddau o dan y cynllun a oedd yn ymwneud ag adnabod ac ymateb i droseddau treftadaeth yn 2021/22 yn cynnwys:

- ✓ Patrolau Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu o safleoedd .
- ✓ Clirio graffiti o gomin Carn Ingli gan yr Archeolegydd Cymunedol a'r Parcmon i'r Ardal.
- ✓ Ymateb i fater tanau gwersyll sy'n effeithio ar nifer o safleoedd gwarchodedig yn ystod misoedd yr haf, gan gynnwys tanau mewn arddull gwersylla sy'n

digwydd o fewn heneb gofrestredig Hen Gaer Trwyn y Castell ger Abergwaun ac Odynau Calch Solfach. Rhoddwyd gwybod am y digwyddiadau hyn, a chafodd patrolau ac ymweliadau eu trefnu ar gyfer safleoedd sy'n debygol o fod mewn perygl yn ystod adegau prysuraf y flwyddyn ar gyfer gwersylla. Rhoddwyd postiad ar dudalen Facebook Gwylio Treftadaeth hefyd er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth.

- ✓ Yn ystod mis Mai, cynhaliwyd ymweliad â safle Craig Rhosyfelin i â'r tirfeddiannwr a'r rhai sy'n byw ger y safle a rhoi cyngor iddynt ynghylch materion sydd wedi codi ers rhyddhau rhaglen ddogfen BBC2 Stonehenge: The Lost Circle revealed. Cafodd dau wirfoddolwr treftadaeth newydd eu recriwtio i wneud gwaith monitro parhaus mewn perthynas â Chraig Rhosyfelin a Charn Goedog i ganfod unrhyw faterion. Mae'r safleoedd yn arbennig o agored i ddifrod sy'n cael ei achosi pan fydd pobl yn mynd â deunydd daearegol i ffwrdd ohonynt.
- ✓ Ym mis Tachwedd rhoddwyd gwybod am ddefnydd diawdurdod o synwyryddion metel yng Nghapel Sant Padrig. Cafodd yr unigolion a oedd yn cyflawni'r trosedd eu herio gan y cyhoedd ac fe adawon nhw'r lleoliad. Mae'n annhebygol y bydd y sathru tir a ddigwyddodd wedi cael effaith ar archaeoleg gladdedig ar y safle. Mae'r heddlu'n ymchwilio i'r mater ac ym mis Ionawr fe wnaeth tîm Wardeniaid APCAP lenwi'r tyllau a adawyd ar safle'r capel o ganlyniad i ddefnydd diawdurdod o synwyryddion metel a thyrchu.
- ✓ Fe wnaeth patrolau ym mis Hydref o Gomin Carn Ingli ganfod difrod i ddwy heneb gofrestredig: Carn Ffoi a Maen Hir Bedd Morris. Roedd tân gwersylla wedi digwydd yng Ngharn Ffoi ac fe wnaed marciau crafu ar Fedd Morris. Fe wnaeth y difrod yn y ddau safle effeithio ar ardal SoDdGA hefyd. Cafodd y materion eu gwneud yn hysbys i'r heddlu, Cadw, CNC a'r Gwasanaeth Tân o ganlyniad ac fe'u rhoddwyd ar Facebook. Yn dilyn hyn fe ymwelodd yr Archeolegydd Cymunedol a pharcmon ardal y gogledd â'r ddau safle ac fe rannwyd ffotograffau ac asesiadau gyda Cadw, gan gynnwys camau lliniaru posibl ar gyfer y ddau safle.

## Ffrwd Waith: Hyrwyddo'r Gymraeg - Sgiliau, cyfleoedd ac ysbrydoliaeth

### 1. Datblygu sgiliau Iaith Gymraeg staff

[Hirdymor, Cydweithio, Cynnwys]

Mae'r holl staff yn cael eu hannog yn weithredol i ddysgu Cymraeg neu ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ymhellach. Roedd gan 41% o staff sgiliau Cymraeg yn y Gwaith Cymraeg Lefel 1 neu uwch ar ddiwedd 2021/22. Cwblhaodd 3 aelod o staff gyrsiau Cymraeg Gwaith ar-lein yn 2019/20 o'i gymharu â 19 yn 2021/22. Cwblhaodd 2 aelod o staff y Cwrs Cymraeg Mynediad a'r Cwrs Cymraeg Sylfaen.

### 2. Darparu digwyddiadau a sesiynau addysg Gymraeg

[Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Yn unol ag adferiad ehangach o Covid-19 o ran digwyddiadau, y gymuned, gwirfoddoli a’r rhaglen addysg, gwelodd APCAP gamau cadarnhaol tuag at adferiad o ran sesiynau Cymraeg a gyflwynwyd. Roedd hyn yn cynnwys Parcmon Gogledd yn rhoi sgwrs i ddosbarthiadau Dysgwyr Cymraeg a Thaith Gymraeg yng Nghaeriw.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # digwyddiadau a gweithgareddau a darparwyd drwy gyfrwng y Gymraeg | 32 | 10 | 37 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |
| # cyfranogwyr mewn digwyddiadau a gweithgareddau a darparwyd drwy gyfrwng y Gymraeg | 262 | 59 | 414 | |
| # sesiynau rhaglen addysg a darparwyd drwy gyfrwng y Gymraeg | 76 | 5 | 43 | |
| # cyfranogwyr mewn sesiynau rhaglen addysg a darparwyd drwy gyfrwng y Gymraeg | 2,290 | 184 | 1,231 | |

## 3. Datblygu Castell Henllys fel Hwb yr Iaith Gymraeg

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Parhaodd gweithgareddau yn 2021/22 i gefnogi datblygiad Castell Henllys fel Hwb yr Iaith Gymraeg. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- ✓ Cynnal sesiynau Dished y Dysgwyr yn y caffi, gan gynnwys darparu gweithgareddau a chyfleoedd i ymarfer siarad Cymraeg gyda staff. Mae llyfrau a thaflenni gweithgareddau dysgi Gymraeg yn cael eu gadael allan yn y caffi i ymwelwyr a phobl leol ei ddefnyddio trwy gydol yr wythnos.
- ✓ Mae Cymraeg i Blant Penfro yn defnyddio'r Tipi ar y safle ar gyfer sesiynau Stori a Chan. Mae ganddynt o leiaf 8 o gyfranogwyr bob wythnos. Bu staff Castell Henllys yn helpu i gyflawni eu sesiwn Mari Lwyd ar gyfer Hen Galan.
- ✓ Mae'r siop wedi cynyddu nifer y llyfrau dysgi Gymraeg sydd ar gael yn ogystal â siocled Dysgi Gymraeg.
- ✓ Ar y 14eg o Awst cynhaliodd Castell Henllys ddigwyddiad dwyieithog gyda Lowri Evans a Lee Mason a ganodd ganeuon Cymraeg yn bennaf..
- ✓ Cynnal digwyddiad Profwch yr Oes Haearn gyda 50 yn bresennol.

## Amcan Llesiant Byd-eang: Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang

**Ffrydiau gwaith a gefnogodd cyflawni'r amcan hwn yn 2021/22:**
- Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd
- Rhinweddau Arbennig - Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu

**Uchafbwyntiau Cryno o’r Diogelwr Taith 2016-2022:**
- ✓ Sicrhau cyllid i gefnogi datblygu mannau gwefru cerbydau trydan ar draws Parc a Sir Benfro. Gan gynnwys pwyntiau gwefru ar safleoedd APCAP i gefnogi symudiadau i drydaneiddio'r fflyd.
- ✓ Prynu safle maes Grapley (Trefin) at ddibenion dal a storio carbon gan ddefnyddio cyllid Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy.
- ✓ 8 gorsaf ail-lenwi dŵr newydd wedi'u gosod ar draws y Parc.
- ✓ Cydweithio ar draws timau i alluogi Awdurdod i addasu ei adroddiadau allyriadau carbon i fethodoleg adrodd Sero Net Llywodraeth Cymru a chwrdd â'r dyddiad cau cyntaf 2021 ar gyfer cyflwyno data.
- ✓ Cefnogaeth ariannol barhaus i wasanaeth bysiau arfordirol trwy Bartneriaeth Greenways.
- ✓ Comisiynu adolygiad o'r rhagfynegiadau a goblygiadau Newid Hinsawdd UKCP18 o ran rheoli ac addasu yn y dyfodol ar ein safle yn Freshwater East a safle yng Nghaeriw.
- ✓ Canolfannau'n parhau i gyflawni Gwobr Allweddol Werdd.
- ✓ Gweithio ar y cyd gydag ysgolion i gysoni ein cynnig addysg â'r Cwricwlwm Newydd, yn arbennig yr elfen Gynefin. Mae cyfres o fapiau wedi eu cynhyrchu ar gyfer pob ysgol gynradd yn Sir Benfro. Mae'r rhain wedi'u dylunio i fod yn gymorth addysgu i helpu ysgolion i archwilio'u hardal leol.
- ✓ 52,883 o gyfranogwyr mewn sesiynau addysg yr Awdurdod ers 2016/17.
- ✓ 115,243 o gyfranogwyr mewn digwyddiadau cyhoeddus Awdurdod ers 2017/18.
- ✓ 662 o ddyddiau gwirfoddol wedi cyfrannu at arolwg bywyd gwyllt a monitro ers 2017/18
- ✓ Dros 3,425 o eitemau wedi’u cyflwyno i’r prosiect ffotograffau Arfordir Newidiol a ariennir â chyllid torfol ers 2016.

**Mae ein gwaith ar draws y ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu at y dangosyddion llesiant cenedlaethol canlynol:**
- Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer
- Ôl troed byd-eang (neu Ecolegol) Cymru
- Capasiti (mewn MW) yr offer ynni adnewyddadwy sydd wedi’i osod
- Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru
- Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i’w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru
- Canran y bobl sy’n gwirfoddoli
- Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl
- Canran y siwrneiau a wneir ar droed, ar feic neu ar drafnidiaeth gyhoeddus

Gweithgareddau a Pherfformiad Allweddol yn 2021/22 yn erbyn ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at ein Hamcan Llesiant Byd-eang

## Ffrwd Waith: Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd

### 1. Gosod Rhwydwaith o Bwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan 'Cyflym' a 'Carlam'

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio]
[Dyletswydd Adran 6]



Enghraifft o bwyntiau gwefru cerbydau trydan wedi'u gosod

Yn 2021/22, parhaodd yr Awdurdod i gydweithio gyda Chyngor Sir Penfro i gyflawni gosod rhwydwaith o bwyntiau gwefru Cerbydau Trydan ledled y Sir. Dyluniwyd y rhwydwaith fel bod darpariaeth ar gael ar draws Sir Benfro i ateb gofynion gwefru cerbydau trydan y trigolion, yr ymwelwyr, ac yn bennaf i gefnogi ac annog y newid i gerbydau trydan.

Yn 2021/22 fe ganolbwyntiwyd ar ddarparu cam 2 a 3 y prosiect yn dilyn cyflwyno cynigion llwyddiannus am gyllid i Lywodraeth Cymru gan sicrhau cyllid Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy ac Adferiad Gwyrdd. Bydd y camau hyn yn golygu gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ym mhob maes parcio lle codir tâl, canolfan ymwelwyr a depo ynghyd â safleoedd strategol allweddol sydd ym mherchnogaeth Cyngor Sir Penfro. Dewiswyd y lleoliadau gwefru carlam sy’n “hybiau” cyrchfannau ymwelwyr ac a leolir yn agos at y rhwydwaith cefnffyrdd a

therfynellau fferi mawr yn Sir Benfro. Gosodwyd yr un unedau gwefru â Chyngor Sir Penfro er mwyn sicrhau dull wedi'i gydlynu a darpariaeth ddi-dor ledled y sir.

Roedd gwaith i osod rhwydwaith gwefru cerbydau trydan cam 2 a 3 yn mynd rhagddo erbyn diwedd 2021/22, gydag oedi mewn rhai safleoedd o ran Western Power Distribution, Cytundebau Cyfreithiol a phrinder gweithgynhyrchu byd-eang o ran cydrannau unedau gwefru. Mae'r gwaith gosod ar draws pob safle i fod i gael ei gwblhau yn awr yn 2022.

Erbyn cwblhau'r 3 cham bydd cyfanswm o 114 o socedi gwefru ar draws 23 safle. Bydd 18 o'r rheiny yn "Bwyntiau Gwefru Cyflym Iawn" (50kW), 95 yn "Bwyntiau Gwefru Cyflym" (22kW) ac 1 yn "Bwynt Gwefru Araf" (7kW).

**2. Pontio'r fflyd i gerbydau ac offer ag allyriadau isel**

[Hirdymor, Atal, Cydweithio]
[Dyletswydd Adran 6]

Erbyn diwedd 2021/22, roedd 28% o'r fflyd yn hybrid/trydan, mae hyn yn cymharu â 10% yn 2020/21 a 5% yn 2019/20

Darparwyd dwy fan drydan i APCAP ym mis Ionawr ac roeddent yn cael eu defnyddio o fis Chwefror, gyda phwyntiau gwefru ar gael ym meysydd parcio Llanion a meysydd parcio eraill yr Awdurdod. Mae gan APCAP 11 fan trydan arall ar archeb. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod wedi derbyn dyddiadau adeiladu ar eu cyfer gan fod prinder sglodion electronig byd-eang wedi amharu ar weithgynhyrchu cerbydau trydan yn 2021/22.

O ran offer, cynhaliwyd digwyddiad arddangos offer a pheiriannau trydan yng Nghastell Henllys ar gyfer y Tîm Rheoli Cefn Gwlad. Yn anffodus, nid oedd yr holl offer oedd ar gael yn ddigon gwydn i rai o ddefnydd APCAP. Fodd bynnag, mae APCAP wedi buddsoddi mewn peiriant torri gwair newydd sy’n rhedeg ar fatri ar gyfer Castell Henllys ac offer cynnal a chadw tir sy’n rhedeg ar drydan ar gyfer Oriel y Parc i ddisodli'r offer petrol a ddefnyddiwyd yn flaenorol.

**3. Canolfannau a Chynaliadwyedd**

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6]

Parhaodd y tair canolfan i gyflawni'r Wobr Allweddol Werdd a chymryd rhan mewn prosesau adnewyddu ar gyfer y wobr. Fe wnaeth y canolfannau hefyd edrych ar ffyrdd eraill o hyrwyddo cynaliadwyedd yn ystod 2021/22.

Cynhaliodd Castell Henllys Ddiwrnod Byw'n Gynaliadwy ym mis Medi 2021, gyda 80 o bobl yn mynychu. Mae'r ganolfan wedi bod yn edrych ar adnoddau a ddefnyddir yn ystod ei digwyddiadau ac fe ddefnyddiodd ddeunyddiau cwbl naturiol a di-blastig ar gyfer cyflwyno gweithdy naturiol greadigol, gweithdy ffeltio a gweithgareddau heuldro'r gaeaf. Ochr yn ochr â hyn mae'r ganolfan wedi bod

yn ail-asesu ei harlwy fanwerthu ac yn ceisio lleihau faint o blastig sydd yn y siop gan gynnwys dod o hyd i gynhyrchion newydd sy'n gynaliadwy o ran eu deunydd pacio a phrynu cynnyrch mwy lleol i leihau allyriadau carbon sy’n deillio o gludo cynnyrch. Cafodd byrddau dehongli anifeiliaid newydd eu rhoi ar y safle gan gynnwys rhai a oedd yn canolbwyntio ar wenyn mêl a pheillwyr. Mae Castell Henllys hefyd wedi bod yn plannu coed helyg ar y safle, sydd wedi cael eu hymgorffori i mewn i gromenni.

Yn ystod mis Chwefror cafodd tua 400 o goed newydd brodorol a gyfeillgar i beillwyr eu plannu ar safle Caeriw gyda chymorth gwirfoddolwyr.

Lansiwyd Oriel y Parc yn swyddogol fel canolfan casglu sbwriel Cadwch Gymru'n Daclus ar ddydd Llun 31 Ionawr. Gyda'r ganolfan yn cynnal digwyddiad casglu ysbwriel cymunedol yn Nhyddewi gyda phlant ysgol o'r ysgol iau leol yn ogystal ag aelodau o'r gymuned leol yn helpu i godi sbwriel. Casglwyd 8 bag o sbwriel.

Cyfrannodd Rheolwr Gwasanaeth Ymwelwyr Oriel y Parc - Gorllewin at gynllunio a chyflwyno Wythnos Werdd Fawr Penrhyn Dewi 2021. Buont yn gweithio gyda'r grŵp cymunedol lleol EcoDewi i drefnu digwyddiadau amrywiol yn y Ganolfan. Yn Oriel y Parc, roedd eco-farchnad awyr agored gyda thua 500 o ymwelwyr, noson o sgyrsiau am yr hinsawdd gyda thri siaradwr gwahanol, gweithdy gwesty pryfed a gynhaliwyd yn y ganolfan ynghyd â chynigion arbennig ar gynnyrch eco-gyfeillgar yn y siop yn ystod yr wythnos. Hefyd, cynigiodd Caffi Pilgrims yn Oriel y Parc amrywiaeth o blatiau ar eu bwydlen arbennig gydag ôl troed carbon isel. Bu'r Rheolwr Gwasanaeth Ymwelwyr hefyd yn gweithio gyda staff ehangach APCAP i gynnig gweithgareddau dan arweiniad Parcmyn ar draeth Caerfai trwy gydol yr wythnos, sef Taith Gwylio Morloi, Cloddio Pwll a Thaith Ystlumod, y cawsant i gyd dderbyniad da gan ymwelwyr a’r cyhoedd.

## 4. Awdurdod - Adrodd ar Allyriadau

[Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6]

Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ei chanllaw adrodd ar garbon sero net ar gyfer y sector cyhoeddus a'i thaenlen gysylltiedig ym Mai 2021 ar gyfer adrodd ar allyriadau 2019/20 a 2020/21. Gweithiodd staff o adrannau perthnasol ar draws yr Awdurdod gyda'i gilydd, gan gynnwys cael cyfarfodydd rheolaidd i gwblhau'r templed a chysoni’r drefn o adrodd ar allyriadau carbon â methodoleg newydd Llywodraeth Cymru. Cafodd y daenlen ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn ei dyddiad cau, sef 31 Hydref 2021. Bu staff yn bresennol yng ngweithdy ar-lein Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth a ddarparodd drosolwg o ganlyniadau'r dadansoddiad o'r data a gyflwynwyd gan gyrff cyhoeddus ym mis Hydref.

Cafodd canllawiau/ methodoleg wedi'u ddiweddaru eu rhyddhau gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022 ar gyfer 2021/22 yn seiliedig ar adborth yr oedd

wedi ei chael ar y prosesau cyflwyno data blaenorol. Mae'r ffigyrau isod yn adlewyrchu data i'w gyflwyno gan yr Awdurdod i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r fethodoleg a thempled diwygiedig. Mae'r ffigyrau yma'n amodol ar adolygiad gan Lywodraeth Cymru.

| Categorïau | Unedau o KgCO2e – 2021/22 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Uniongyrchol | Anuniongyrchol | Anuniongyrchol | Cyfanswm | Ystod amcangyfrifedig | Ystod amcangyfrifedig | Tu allan Cwmpas |
| | Cwmpas 1 | Cwmpas 2 | Cwmpas 3 | | Uchel | Isel | |
| Adeiladau | 9,392 | 64,385 | 32,191 | **105,968** | 170,634 | 158,700 | 58,699 |
| Fflyd ac Offer | 130,233 | 642 | 32,199 | **163,074** | 171,731 | 155,382 | 483 |
| Teithio ar gyfer Busnes | Amh | Amh | 9,493 | **9,493** | 10,680 | 8,305 | Amh |
| Cymudo | Amh | Amh | 76,428 | **76,428** | 82,160 | 70,696 | Amh |
| Gweithio Gartref | Amh | Amh | 47,741 | **47,741** | 57,290 | 38,193 | Amh |
| Nodwch fod yr Awdurdod yn adrodd gwastraff ar hyn o bryd trwy ei allyriadau'r Gadwyn Gyflenwi. Mae'r Awdurdod wedi gwella ei ddulliau cofnodi i'w alluogi i adrodd ffigyrau am danwydd ar gyfer offer ar gyfer 2021/22. Mae cymudo a gweithio gartref yn feysydd adrodd newydd ar gyfer 2021/22. Mae ffigurau cymudo a gweithio gartref yn amcangyfrifon yn seiliedig ar fodelu data a dderbyniwyd o arolwg cymudo teithio staff. | | | | | | | |

Lle'r oedd data ar gael o 2019/21 a 2020/21 mae wedi'i fodelu i gefnogi dadansoddiad yn erbyn data yn y templed diwygiedig 2021/22. Sylwer o ran y dadansoddiad bod ffigyrau a ddefnyddiwyd ar gyfer 2019/20 a 2020/21 yn ymwneud â ffurflenni gwreiddiol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ac y gall fod anghysonderau gyda data yr adroddwyd arno yn adroddiad Aquatara ar gyfer 2019/20 a 2020/21 a ffigyrau a ddarparwyd yn ôl gan Lywodraeth Cymru. Mae risgiau uwch o wallau posibl yn gysylltiedig â ffigyrau allyriadau o 2019/20 a 2020/21 oherwydd ffactorau allyriadau a gofnodwyd â llaw ar dempled Llywodraeth Cymru.

Yn y rhan fwyaf o achosion fel rhan o ddadansoddi'r data, mae data o 2021/22 wedi cael ei gymharu â 2019/20 oherwydd effaith sylweddol Covid 19 ar weithgareddau Awdurdod yn 2020/21.

Crynodeb o’r dadansoddiad o ynni adeiladau a dŵr dros y flwyddyn:

- ✓ Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn allyriadau o Belenni Coed Bio-ynni er gwaethaf gostyngiad yn y defnydd o 2019/20 a 2020/21 oherwydd cynnydd yn y ffactor allyriadau.
- ✓ Mae’r defnydd o drydan o’r grid wedi aros o dan lefelau 2019/20 yn 2021/22 gan fod 53,786 kWh yn is, sy’n ostyngiad o 24,479 KgCO2e. Mae hyn yn adlewyrchu gostyngiad yn y defnydd yn arbennig yn Llanion ac Oriel y Parc o'i gymharu â 2019/20. Fodd bynnag, mae gwelwyd cynnydd mawr mewn defnydd yng Nghastell a Depo Caeriw, Canolfan Addysg Castell Henllys a’r Llwyn Helyg o'i gymharu â 2019/20. Defnyddio trydan o’r grid yw ein

hallyrrydd uchaf ar gyfer ynni o hyd; fodd bynnag fe'i prynir trwy gytundeb Gwarant Tarddiad Ynni Adnewyddadwy.

- ✓ Mae defnydd ac allyriadau cerosin yn 2021/20 wedi aros yn llawer is na lefelau 2019/20 er y gwelwyd cynnydd bach o'i gymharu â 2020/21.
- ✓ Mae defnydd o Nwy Petrolewm Hylifedig wedi cynyddu 72.01% yn 2021/20 o'i gymharu â 2019/20.
- ✓ Mae defnydd o nwy naturiol yn 2021/22 yn parhau i fod yn is na lefelau 2019/20 gyda gostyngiad o 2.95% yn y defnydd.
- ✓ Mae'r Awdurdod wedi gweld cynnydd o 758 m3 yn swm y dŵr y mae wedi ei ddefnyddio o'r prif gyflenwad rhwng 2019/20 a 2021/22. Nid yw hyn wedi arwain at gynnydd mewn allyriadau oherwydd bod ffactorau allyriadau'r flwyddyn flaenorol ar gyfer y prif gyflenwad yn uwch. Er gwaethaf gostyngiad mewn allyriadau, dylid monitro'r defnydd cynyddol o ddŵr i weld a yw'n duedd barhaus ac a oes angen ymyrraeth bellach, yn enwedig yng ngoleuni tueddiadau posibl yn y dyfodol o ran prinder dŵr o ganlyniad i gyfnodau cynyddol o lawiad isel/ tywydd poeth.
- ✓ Mae'r Awdurdod wedi gweld gostyngiad mewn m3 ac allyriadau mewn perthynas â thrin dŵr y prif gyflenwad; mae hyn yn adlewyrchu trefn gofnodi well ar gyfer rhai safleoedd sydd wedi golygu y gellid defnyddio ffigyrau mwy cywir ar gyfer rhai safleoedd yn lle amcangyfrifon yn seiliedig ar 95% o'r cyflenwad dŵr.

Crynodeb o'r dadansoddiad o'r fflyd dros y flwyddyn:

- ✓ Mae ein hallyriadau yn y maes hwn yn uwch yn 2021/22 nag yn 2019/20 o 25,372 KgCO2e. Y prif achos yw cynnydd mewn defnydd mewn milltiredd sy'n gysylltiedig â faniau disel a welodd gynnydd o 135,813 km rhwng 2019/20 a 2021/22 gyda chynnydd dilynol mewn allyriadau o 28,933 KgCO2e (mae allyriadau ar y cyfan yn llai oherwydd gostyngiad mewn allyriadau ar gyfer mathau eraill o gerbydau fflyd). Mae hyn yn cynnwys defnyddio faniau ar log ar gyfer fflyd. Gallai adlewyrchu newid mewn arferion a oedd yn ymwneud â Covid 19 a rhannu faniau. Danfonwyd 2 fan drydan i'r Awdurdod yn 2021/22; fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw ddyddiadau adeiladu pellach ar gyfer yr 11 archeb am faniau trydan a oedd eto i gael eu cwblhau yn 2021/22. Dylai gweithio gyda chyflenwr i sicrhau dyddiadau adeiladu a bod y faniau'n cael eu danfon fod yn un o'r meysydd blaenoriaeth uniongyrchol i'r Awdurdod gan y bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar allyriadau yn y maes hwn.
- ✓ Mae ein diesel a ddefnyddir mewn cerbydau nwyddau trwm yn ymwneud â'n bws mini. Mae'r bws mini yn darparu rôl bwysig o ran cynorthwyo gwirfoddolwyr a chyfranogwyr yn ein prosiectau allgymorth, cerdded â chymorth, iechyd a llesiant i gael mynediad at safleoedd yn y Parc ac mae ganddo rôl bwysig o ran galluogi'r Awdurdod i fynd i'r afael â rhwystrau posibl o ran cludiant y mae pobl yn eu hwynebu (Cydraddoldeb a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.) Mae hefyd yn lleihau'r arfer o ddefnyddio cerbydau lluosog i gael mynediad at safleoedd. Mae'r defnydd wedi gostwng; fodd bynnag mae allyriadau wedi cynyddu oherwydd yr hyn sy'n edrych fel cynnydd mewn ffactorau allyriadau ar gyfer diesel a ddefnyddir mewn

cerbydau nwyddau trwm. Wrth symud ymlaen byddai'n fuddiol archwilio fel rhan o strategaeth fflyd y potensial ar gyfer y bws mini pan ddaw i gymryd ei le gan fws mini trydan sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

- ✓ Mae newidiadau i geir cronfa, newid i drefniadau gweithio hybrid wedi cael effaith gadarnhaol o ran lleihau allyriadau o geir cronfa APCAP.
- ✓ Bydd swyddogion yn treialu dull mwy cywir o fesur allyriadau o fflyd ar gyfer 2022/23, gan symud i fesur faint o danwydd a ddefnyddir.

Crynodeb dadansoddi teithio busnes

- ✓ Mae ein hardal allyriadau uchaf o ran teithio busnes yn ymwneud â defnydd ceir preifat gan weithwyr ac aelodau. Mae parhau i hyrwyddo cyfarfodydd o bell wedi golygu bod lefel y defnydd a'r allyriadau wedi aros yn llawer is na lefelau 2019/20. Fodd bynnag, yn y dyfodol bydd angen i'r Awdurdod fonitro effaith dychwelyd at gyfarfodydd yn y cnawd (gan gynnwys cyfarfodydd y tu allan i'r sir) a mwy o ymweliadau â safleoedd. Mae arolwg Teithio ar gyfer Cymudo yn dangos bod staff yn tueddu i fod â cheir petrol neu ddiesel, gyda'r gost yn ffactor allweddol sy'n eu hatal rhag newid i opsiwn trydan. Mae allyriadau o deithio mewn ceir preifat gan wirfoddolwyr wedi cynyddu gan adlewyrchu cynnydd yn y pellter a deithiwyd gan wirfoddolwyr yn 2021/22 o'i gymharu â 2019/20.

Fel rhan o'r broses adrodd bydd data hefyd yn cael ei gyflwyno ar allyriadau ar y tir a'r gadwyn gyflenwi fel rhan o ymarferion sgrinio. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn defnyddio Methodoleg Haen 1 ar gyfer y ddau faes hyn, ac mae hyn yn effeithio ar lefel o gywirdeb adrodd.

<table>
<tr><th colspan="3">Allyriadau ar y Tir (Haen 1) – 2021/22</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Categorïau</td><td colspan="2">Unedau o KgCO2e</td></tr>
<tr><td>Allyriadau</td><td>Cael eu dal</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm allyriadau ar y tir (Haen 1)</td><td>4,169</td><td>-1,286,368</td></tr>
<tr><td colspan="3">Daw nwyon sy’n cael eu dal o Dir Coedwig a daw nwyon sy’n cael eu hallyrru o Laswelltir. Mae APCAP yn archwilio’r posibilrwydd o fabwysiadu dull Haen 2 ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn o bosibl yn helpu i gofnodi yn y dyfodol bod glaswelltir APCAP yn cael ei reoli ar gyfer cadwraeth natur a byddem yn disgwyl i'r cynefinoedd hyn gynrychioli storfa garbon yn unol ag Adroddiad Ymchwil Natural England NERR094 (2021) Carbon storage and sequestration by habitat: a review of the evidence (ail argraffiad) .</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">Allyriadau y Gadwyn Gyflenwi (Haen 1) – 2021/22</th></tr>
<tr><td></td><td>Unedau o kgCO2e</td></tr>
<tr><td>Categorïau</td><td>Anuniongyrchol - Cwmpas 3</td></tr>
<tr><td>Amaeth, coedwigaeth a physgota</td><td>275,433</td></tr>
<tr><td>Gweithgynhyrchu</td><td>438,969</td></tr>
<tr><td>Cyflenwad dŵr; carthffosiaeth, rheoli gwastraff ac adfer</td><td>9,675</td></tr>
<tr><td>Adeiladaeth</td><td>355,856</td></tr>
<tr><td>Gwybodaeth a Chyfathrebu</td><td>9,995</td></tr>
<tr><td>Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol</td><td>53,6981</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau gwasanaeth gweinyddol a chymorth | 6,514 |
| **Cyfanswm ar gyfer y Gadwyn Gyflenwi** | **1,130,122** |
| Mae'r fethodoleg hon yn seiliedig ar wariant. Mae gwastraff wedi ei gynnwys drwy'r gadwyn gyflenwi ar gyfer 2021/22. Mae'r gwariant ar gyfer rhai categorïau wedi'i dynnu allan i atal cyfrif dwbl lle mae data wedi'i gofnodi o dan Adeiladau, Fflyd ac Offer a Theithio Busnes. Gwariant cyfalaf o £137,728 a TAW a gafodd ei gynnwys yn y categori gweithgynhyrchu a £501,751 a TAW o dan adeiladu, ynghyd â gwariant refeniw. Cymhariaeth o wariant refeniw Dros y Flwyddyn: Y maes â'r allyriadau uchaf o hyd yn ôl grŵp yn y gadwyn gyflenwi yw gweithgynhyrchu. Mae allyriadau 2021/22 35,602 KgCO2e yn uwch na lefelau 2019/20. Mae hyn yn adlewyrchu twf mewn gwariant yn y maes hwn o'i gymharu â 2019/20 yn arbennig ar gyfer Peiriannau ac Offer. Y maes â'r allyriadau ail uchaf o hyd yn ôl grŵp yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer gwariant refeniw yw Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a physgota. Mae lefelau allyriadau 2021/22 123,587 KgCO2e yn uwch na lefel 2019/20. Er bod gwariant yn is nag adeiladu, mae hyn yn adlewyrchu'r ffactor allyriadau uwch ar gyfer cynhyrchion Amaethyddiaeth a Choedwigaeth sy'n perthyn i'r categori hwn o'i gymharu â'r ffactor allyriadau ar gyfer Adeiladu. Y maes â'r allyriadau uchaf o hyd yn ôl grŵp o fewn y gadwyn gyflenwi ar gyfer gwariant refeniw yw Adeiladu. Mae allyriadau 2021/22 33,794 KgCO2e yn uwch na lefelau 2019/20. Mae allyriadau'r gadwyn gyflenwi ar y cyfan yn seiliedig ar wariant refeniw wedi cynyddu fel y byddai rhywun yn disgwyl oherwydd cynnydd mewn gwariant. | |

Yn ystod y flwyddyn, cymerodd APCAP ran mewn dau brosiect cydweithredol gydag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru. Roedd un yn canolbwyntio ar gynnal asesiad cywir o garbon a gynhyrchir gan bob sefydliad a datblygu map llwybr o opsiynau a chamau gweithredu a fydd yn galluogi pob sefydliad i fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Roedd y llall yn canolbwyntio ar ddatblygu llinell sylfaen allyriadau carbon ar gyfer ardal y Parc.

## 5. Adeiladau ac Ynni Adnewyddadwy

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio]
[Dyletswydd Adran 6]

Cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r Cynllun Re: Fit ar ddechrau'r flwyddyn i asesu ei addasrwydd. Yn anffodus, nid yw defnyddio'r cynllun yn ymarferol i'r Awdurdod. Yn hytrach, bydd yr Awdurdod yn comisiynu astudiaeth ddichonoldeb fanwl o adeiladau yn 2022/23, gan dderbyn argymhellion o adroddiad Aquatera. Bydd hyn yn nodi'r rhaglen waith ar gyfer adeiladau i gyrraedd targedau sero net a'r costau i gyflawni hyn.

Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod ddarpariaeth ynni adnewyddadwy Ffotofoltäig yn Llanion ac Oriel y Parc. Roedd APCAP wedi nodi dau safle awdurdod posibl ar gyfer gosod Ffotofoltäig, un yng Nghanolfan Goed Cilrhedyn y llall yn y cae uchaf yng Nghastell Henllys. Fodd bynnag, yn dilyn astudiaeth ddesg o ddichonoldeb nodwyd Canolfan Coetir Cilrhedyn fel y safle sy'n addas ar gyfer gosod paneli. Ar ôl cael adroddiad yr ymgynghorydd, cymeradwyodd y Tîm Arwain gynnig diwygiedig. Cafodd ymgynghorwyr eu penodi a chafodd dogfennau tendro eu paratoi gyda'r gwaith yn cael ei amserlennu ar gyfer hydref

2022/23. Mae gosod y paneli wedi ei gynnwys yn y gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2022/23.

Mae gan yr Awdurdod foeler biomas ym Mhencadlys Parc Llanion a Chastell Henllys hefyd. Mae gan Gaeriw bwmp gwres ffynhonnell aer ac mae gan Oriel y Parc bwmp gwres o'r ddaear.

Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn caffael 100% o'r ynni trydan a gyflenwir iddo o ffynhonnell cynhyrchu ynni adnewyddadwy ardystiedig. Mae Cyngor Sir Penfro'n eistedd ar Is-grŵp Ynni'r GCC ac yn cynrychioli buddiannau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar y grŵp hwn.

Gweler isod ffigyrau ar ynni adnewyddadwy yn seiliedig ar fethodoleg adrodd sero-net Llywodraeth Cymru. Nodwch nad yw'r data wedi'i adolygu gan Lywodraeth Cymru eto.

| Ynni Adnewyddadwy | |
|---|---|
| Categorïau | Unedau o KgCO2e |
| | Cyfanswm wedi'i gynhyrchu |
| | Cwmpas 1 |
| Ynni adnewyddadwy ar y safle – gwres | 167,994 |
| Ynni adnewyddadwy ar y safle – trydan | 16,436 |
| Ynni adnewyddadwy wedi'i brynu - trydan | 303,232 |
| Nodyn ar ynni adnewyddadwy ar y safle: Cafodd ffigyrau ar gyfer OYP eu gwirio ac fe ymchwiliwyd i broblem gyda'r system ac o ganlyniad mae'r gyfradd gynhyrchu yn is na'r llynedd. Bwriedir gosod paneli ffotofoltäig ar safle Cilrhedyn. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddulliau mesur ar waith ar gyfer ynni thermol solar (Llanion ac OYP), pwmp gwres o'r aer (Caeriw) a phwmp gwres o'r ddaear (Oriel y Parc). | |

## 6. Defnydd Tir

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6]

Prynodd yr Awdurdod safle Caeau Grapley End (Trefin) yn 2020/21 at ddibenion dal a storio carbon ac adfer natur gan ddefnyddio cyllid Lleoedd Cynaliadwy, Tirweddau Cynaliadwy. Yn ystod 2021/22 roedd cynllun a rhaglen waith ar gyfer y safle cadwraeth yn cael eu datblygu. Cafodd y cynllun drafft ei rannu gyda'r gymuned leol yn ystod teithiau cerdded cymunedol ar y safle dan arweiniad Parcmon APCAP, a chafwyd adborth cadarnhaol ar y cynlluniau arfaethedig. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar y safle gyda'r tîm Wardeniaid i edrych ar seilwaith a ffensys er mwyn datblygu cynllun wedi'i gostio. Dechreuwyd ar y gwaith seilwaith ar y safle, gan gynnwys ffensys a bu gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn plannu perthi newydd ar y safle.

Sicrhaodd yr Awdurdod gyllid Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy i brynu darn o dir ar gyfer creu coetir cymunedol. Roedd y gweithgaredd hwn yn dal ar y gweill ar ddiwedd 2021/22, yn dilyn methu â bwrw ymlaen â'r tir y cynigiwyd ei brynu'n wreiddiol am resymau y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod. Fe archwiliodd y tîm opsiynau eraill ac mae gweithgareddau i roi cymorth i brynu

safle arall ar y gweill.

Parhaodd APCAP i ddarparu ein gweithgareddau cydnerthedd tiroedd comin sy'n cefnogi rheolaeth ar diroedd comin a storfa carbon Mawn yn y Parc. Roedd gweithgareddau yn 2021/22 yn cynnwys:

- ✓ Prynu a defnyddio coleri NoFence ar gyfer buchesi o wartheg er mwyn iddynt allu pori ar diroedd comin sydd heb eu ffensio o gwmpas Mynachlogddu. Prynwyd coleri tebyg ar gyfer geifr i reoli prysgwydd ar dir comin ac amryw o safleoedd eraill. Dylai hyn leihau'r angen am glirio peirianyddol a bydd yn helpu i atal y mawn rhag sychu o ganlyniad i dresmasiad prysgwydd.
- ✓ Ym mis Hydref cafodd 2km o ffensys eu hatgyweirio/eu newid ar ochr Ogleddol Tiroedd Comin y Preseli gan helpu i reoli pori priodol a chynnal Bio Ddiogelwch ffermydd cyfagos.
- ✓ Cafodd gwaith Adfer Mawndiroedd ei wneud trwy grant gan CNC sy'n gysylltiedig â'r rhaglen genedlaethol Gweithredu ar Fawndiroedd. Roedd y gweithgareddau'n canolbwyntio ar glirio prysgwydd a sefydlu seilwaith er mwyn ei gwneud yn bosibl ailgyflwyno pori. Cafodd prysgwydd ei glirio o Gomin Wern yn barod i'r ffensys terfyn gael eu rhoi yn eu lle. Yng Nghwm Dewi, cafodd 1.12 Ha o Rododendron ei drin â chwynladdwr. Yn Rhos Hescwm, mae 0.48 Ha o brysgwydd, gwellt y gweunydd bras a choed atgynhyrchiol wedi eu clirio ac ym mis Mai 2022 nodwyd fod caineirian yn tyfu ar y safle unwaith eto am y tro cyntaf ers 30 mlynedd. Yn Rhydiau, mae 1165m o brysgwydd wedi'i glirio a ffensys wedi cael eu gosod fel y gellir cyflwyno pori am y tro cyntaf ers bron i 20 mlynedd.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth yr Awdurdod hefyd roi comisiwn i greu Canllawiau Lleoli a Dylunio Coed a Choetiroedd. Nod y canllawiau yw:

- ✓ cynorthwyo'r rhai sy'n cynnig plannu coed neu goetiroedd yn APCAP;
- ✓ goleuo ymateb yr APC i gynigion plannu yr ymgynghorir ag ef arnynt.

Bydd y canllawiau'n sylfaen dystiolaeth i helpu i ymateb i argyfwng yr amgylchedd a'r hinsawdd trwy roi cyngor ar y mathau o leoliadau lle gall sensitifrwydd ganiatáu plannu coed neu goetiroedd newydd, gan sicrhau bod ystyriaethau o ran 'y goeden gywir, y lle cywir' yn cael sylw. Mae disgwyl y canllawiau terfynol yn 2022/23.

## 7. Addasu Hinsawdd

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6]

Comisiynodd yr Awdurdod adolygiad o ragfynegiadau a goblygiadau Newid Hinsawdd UKCP18 ar gyfer rheoli ac ymaddasu yn y dyfodol ar safle APCAP yn Freshwater East. Cafodd yr adroddiad ar gyfer Freshwater East ei gwblhau'n llwyddiannus yn 2021/22. Mae adroddiad Freshwater East ac adroddiad

blaenorol Caeriw wedi cael eu rhannu gydag ymgynghorwyr sy'n gweithio ar ddatblygu Strategaeth Ymaddasu i Newid Hinsawdd Sir Benfro.

Mae swyddogion hefyd wedi bod yn rhan o weithgareddau sy’n rhoi cymorth i ddatblygu Strategaeth Ymaddasu i Hinsawdd Sir Benfro trwy’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd y strategaeth hon yn cynnig dull strategol a chydlynol o ymdrin â’r risg i’r hinsawdd ac ymaddasu i newid hinsawdd ar gyfer Cymunedau Sir Benfro.

Cynhaliodd Oriel y Parc arddangosfa o broject CHERISH, sef tîm o archeolegwyr, daearyddwyr a daearegwyr sy'n astudio effeithiau newid hinsawdd ar dreftadaeth arfordirol a morol yng Nghymru ac Iwerddon. Roedd yr arddangosfa'n arddangos gwaith ar safleoedd lleol megis y gaer bentir yng Nghaerfai ac aneddiadau ffermio hynafol ar ynysoedd anghysbell Sir Benfro.

## 8. Dysgu gan eraill


[Cydweithio, Integreiddio]
[Dyletswydd Adran 6]

Mae'r Awdurdod wedi ceisio cyfleoedd i ddysgu gan eraill yn ystod y flwyddyn er mwyn cynyddu ei wybodaeth i oleuo’i daith ddatgarboneiddio. Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o Banel Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru / CLlLC ac mae wedi rhannu gwybodaeth gyda swyddogion ar draws yr Awdurdod o'u harchwiliadau manwl o wahanol feysydd. Cyfarfu swyddogion yr Awdurdod â swyddogion CNC a oedd yn rhan o'u prosiect Carbon Bositif er mwyn darganfod mwy am eu dulliau gweithredu. Mae rheolwr Adeiladau APCAP yn rhan o grŵp Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru ar gyfer y De-orllewin. Bu swyddogion hefyd yn bresennol mewn sesiynau dosbarth meistr a gynhaliwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ystod o bynciau datgarboneiddio a gweithdai a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag adroddiadau Sero Net yn ystod y flwyddyn. Mae Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr y Gorllewin a'r swyddog addysg hefyd wedi bod yn mynychu ac yn cymryd rhan mewn sesiynau Cymunedau Arloesi’r Economi Gylchol (CEIC).

## 9. Trafnidiaeth Gynaliadwy

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Fe wnaeth yr Awdurdod barhau i ddarparu cefnogaeth ariannol ar gyfer gwasanaeth bws arfordirol yn 2021/22. Roedd y gwasanaeth bysiau arfordirol yn dal i fod yn y broses o adfer o effaith Covid 19. Fe welodd yr holl wasanaethau gynnydd ar ffigyrau 2020/21, ond nid yw'r niferoedd wedi dychwelyd eto i ffigyrau 2019/20. Cyfanswm y teithwyr ar gyfer 2021/22 oedd 46,752. Mae hyn yn cymharu â 8,549 yn 2020/21 a 76,107 yn 2019/20.




Mae swyddogion yn cydnabod bod datrysiadau cludiant cynaliadwy yn cynnwys yr angen am ddull amlasiantaeth strategol. O ganlyniad, yn ystod y flwyddyn buont yn gweithio ar ddatblygu prosiect posibl i'w gyflwyno ar gyfer cyllid Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy sy'n gysylltiedig â chludiant cynaliadwy a thwristiaeth gynaliadwy.

## 10. Gorsafoedd Ail-Lenwi

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio]
[Dyletswydd Adran 6]

Yn ystod y flwyddyn, llwyddodd yr Awdurdod i lansio wyth gorsaf ail-lenwi dŵr newydd ar draws y Parc gyda'r nod o dorri defnydd plastig untro. Roedd y lansiad wedi cael ei ohirio oherwydd Covid 19. Mae cyllid gan Gynllun Cymorth Amwynderau Twristiaeth Llywodraeth Cymru, a gwaith partneriaeth gyda Chyngor Sir Penfro a Danfo UK Ltd, wedi ei gwneud yn bosibl i osod gorsafoedd ail-lenwi dŵr am ddim y tu allan i gyfleusterau toiledau cyhoeddus yn:

- ✓ Llanrath (Gorllewin)
- ✓ Maes Parcio Aberllydan (Millmoor Way)
- ✓ Dwyrain Freshwater
- ✓ Porth Clais
- ✓ Pwllgwaelod
- ✓ Sain Ffraid

- ✓ Nolton Haven (Ar gau ehwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth)
- ✓ Abercastell (Arg gau ehwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth)

Mae’r gorsafoedd ail-lenwi wedi cael eu cofrestru ar yr ap Refill sydd ar gael am ddim.

## Ffrwd Waith: Rhinweddau Arbennig - Ysbrydoliaeth ac Ymgysylltu

### 1. Rhaglen Addysg ac Ail-alinio gyda'r Cwricwlwm Newydd

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Rhoddodd APCAP ystod o gyfleoedd dysgu addysgol ar draws y Parc a thimau yn ystod 2021/22. Er nad yw'n ôl i'r lefelau cyn y pandemig, mae niferoedd cyfranogwyr am y flwyddyn yn dangos tuedd bositif o ran adferiad gwasanaethau.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # cyfranogwyr yn rhaglen addysg APCAP | 10,293 | 2,234 | 8,143 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |

Parhaodd swyddog Addysg APCAP i weithio gyda staff ac ysgolion ar weithgareddau i gysoni rhaglen ysgolion yr Awdurdod gyda'r Cwricwlwm Newydd i Gymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar thema Gynefin y dyniaethau. Roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau cyswllt gydag ysgolion ar ddatblygu Cwricwlwm Cynefin gan gynnwys Ysgol Bro Gwaun, Waldo Williams ac Ysgol Gyfun Aberdaugleddau.

Darparwyd 137 o sesiynau cysylltiedig ag addysg Cynefin i ysgolion lleol gyda 5,848 o gyfranogwyr.

Fel rhan o'r gwaith yma cynhyrchodd y tîm Addysg gyfres o fapiau ar gyfer pob ysgol gynradd yn Sir Benfro. Maent wedi’u bwriadu i fod yn gymorth addysgu i helpu ysgolion i archwilio eu hardal leol, gan gefnogi’r thema Cynefin o fewn y cwricwlwm newydd. Cafodd y mapiau eu paratoi'n ddigidol gan fyfyriwr a oedd ar leoliad gyda’r Tîm Darganfod o Brifysgol Abertawe. Maen nhw ar gael yn rhydd ar wefan yr Awdurdod.

Cynhaliwyd gweithdy addysgwr APCAP ym mis Mawrth 2022 yng Nghastell Henllys gan ganolbwyntio ar ddefnyddio technoleg a Newid Hinsawdd.

### 2. Rhaglen Ddigwyddiadau

[Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]

Mae ein rhaglen digwyddiadau a gweithgareddau'n galluogi pobl i fynd i rannau o'r Parc na fyddent fel arfer yn gallu mynd iddynt o bosibl neu'n rhoi profiad dysgu neu brofiad ymweld gwell o'r Parc i gyfranogwyr. Cafodd cynnal digwyddiadau cyhoeddus yn 2020/21 eu heffeithio gan gyfyngiadau Covid 19, yn enwedig ar gyfer y canolfannau. Yn ystod 2021/22 dechreuodd y canolfannau ar y broses o ddychwelyd i gyflwyno rhaglen ddigwyddiadau fwy safonol, gan gynnwys Theatr Awyr Agored yng Nghastell Caeriw yn unol ag asesiadau risg.

Parhaodd APCAP i ddarparu rhaglen o deithiau tywys. Bu arweinwyr gweithgareddau gwirfoddol yn helpu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen gerdded hon. Ymhlith y teithiau cerdded roedd:

- ✓ Castellmartin ar Droed
- ✓ Adar yr Aberoedd: Adar Hela'r Cleddau Wen
- ✓ Solfach: Smyglwyr a Morwyr
- ✓ Porthgain: Un Pentref, Tri Diwydiant
- ✓ Taith Blodau Gwyllt yn Freshwater East,
- ✓ Taith Gerdded: Llwybr y Pererin i Nanhyfer; pentref y chwedlau
- ✓ Teithiau Cerdded Bryniau'r Preseli.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # cyfranogwyr mewn rhaglen digwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddus | 34,443 | 2,350 | 22,080 | Tuedd - Adfer Gwasanaethau |

### 3. Cyfleoedd Gwyddoniaeth Dinasyddion

[Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Mae'r Awdurdod wedi helpu i hwyluso cyfleoedd cofnodi ac arolygu i wirfoddolwyr drwy gydol 2021/22, gan gynnwys darparu hyfforddiant a chefnogi arolygon annibynnol. Roedd y pynciau hyfforddi yn cynnwys:

- ✓ Britheg y Gors,
- ✓ Mursen
- ✓ Gwenyn a pheillwyr
- ✓ Recordiad CGBGC
- ✓ Adar
- ✓ Ymlusgiaid
- ✓ Olrhain gwiberod
- ✓ Hyfforddiant trawlunio.

Roedd gweithgareddau monitro yn cynnwys:

- ✓ Monitro brain croesgoch
- ✓ Trawsluniau glöynnod byw
- ✓ Cyfrif Gwylanod ar Ynys Bŷr
- ✓ Arolwg gwenyn prin ym Maes Tanio Castellmartin
- ✓ Adar y gwlyptir
- ✓ Olrhain gwiberod ym Mhen Caer
- ✓ Parcmyn Ieuenctid yn canfod a recordio ffyngau ac yn

trosglwyddo'r canfyddiadau i
Orllewin Cymru

Parhaodd y cynllun henebion cofrestredig hefyd i gynorthwyo gwirfoddolwyr i gymryd rhan mewn arolygon o safleoedd treftadaeth.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| # diwrnodau gwirfoddol - arolygu neu fonitro bywyd gwyllt | 229.5 | 88.5 | 194 | Tuedd – Adfer Gwasanaethau |
| # diwrnodau gwirfoddol - monitro safleoedd treftadaeth | 2.5 | 62 | 47.5 | |

Fel rhan o'r Prosiect Arfordir Newidiol mae pyst ffotograffiaeth sefydlog ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro. Mae'r pyst hyn yn annog pobl i dynnu ffotograffau pan ydynt allan yn cerdded, gan helpu i gofnodi newidiadau ar y safleoedd a chreu darlun o erydiad clogwyni, erydiad twyni, llystyfiant newidiol, lefelau tywod newidiol, newidiadau i fanciau cerrig crynion, newidiadau i gyrsiau nentydd a llifogydd. Yn 2021/22 parhaodd y cyflwyniadau gyda 486 o gyflwyniadau. Roedd hyn o'i gymharu â 367 yn 2020/21 a 779 yn 2019/20. Yn ystod 2021/22 bu Cynorthwyydd Archeolegol Kickstarter yn arolygu 39 o henebion cofrestredig ar hyd morlin y Parc Cenedlaethol i asesu eu haddasrwydd posibl ar gyfer y prosiect Arfordir Newidiol. O'r rhai a arolygwyd, nodwyd fod 13 yn rhai ymgeisiol posibl.

### Llywodraethu a Chynaliadwyedd Ariannol

**Ffrydiau gwaith a gefnogodd cyflawni'r amcan hwn yn 2021/22:**

- Cynllunio Tymor Hir
- Codi Arian a Chreu Incwm
- Iechyd a Diogelwch
- Gwella'r ffordd rydym yn gweithio: dulliau digidol a seilwaith
- Datblygu'r Aelodau a Llywodraethu
- Cydymffurfiaeth a Safonau Corfforaethol

**Uchafbwyntiau Cryno o'r Diogelwr Taith 2016-2022:**

✓ Cyflawni Freinlen Lefel Uwch Cynorthwyo a Datblygu Aelodau
✓ Addasu i gyfarfodydd rhithiol Pwyllgorau a ffyrdd o weithio o bell o ganlyniad i Covid 19.

- ✓ Cymeradwyo blaenoriaethau lefel uchel ac Amcanion Llesiant newydd yn 2021/22.
- ✓ Defnyddio cyllid Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy ac Arian Adferiad Gwyrdd i fwrw ymlaen â phrosiectau uchelgeisiol yn ymwneud datgarboneiddio, gan gynnwys creu rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ar draws Parc.
- ✓ Sicrhau cyllid allanol i gyflwyno prosiectau sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant, gan gynnwys y Prosiect Llwybrau, Prosiect Cerdded er budd Lles Gorllewin Cymru, y Prosiect Gwreiddiau i Adferiad a'r prosiect 1000 o ddiwrnodau cyntaf.
- ✓ Sefydlu Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro.
- ✓ Cynhyrchu £2,414,275 o incwm ers 2016/17 trwy nwyddau a mynediad mewn Canolfannau.
- ✓ Gweithredu system Adnoddau Dynol newydd, System Adrodd ar Berfformiad (a ddatblygwyd yn fewnol) a system teleffoni 3CX. Yn 2021/22 fe gymerodd yr Awdurdod gam sylweddol o ran trawsnewid digidol a chytuno i symud i blatfform Microsoft 365.

Gweithgareddau a Pherfformiad Allweddol yn 2021/22 yn erbyn ffrydiau gwaith sy'n cyfrannu at Lywodraethu a Chynaliadwyedd Ariannol:

### Ffrwd Waith: Cynllunio Tymor Hir

#### 1. Adolygiad o Flaenoriaethau ac Amcanion Llesiant yr Awdurdod

[Hirdymor, Atal, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6, Dyletswydd Cydraddoldeb]

Roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cymeradwyo strategaeth lefel uchel newydd ar gyfer yr Awdurdod fis Gorffennaf 2021, gan glustnodi pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod 2022-26 a gweledigaeth ddiwygiedig:

Ein gweledigaeth: Parc Cenedlaethol lle mae natur, diwylliant a chymunedau yn ffynnu

| Blaenoriaethau | Effaith |
|---|---|
| Cadwraeth – Hybu bioamrywiaeth ac atal ei ddirywiad | Natur yn llewyrchus |
| Hinsawdd – Cyrchfan: Sero Net | Rydym yn Awdurdod sy'n anelu at Sero Net a Pharc Cenedlaethol carbon niwtral |
| Cyswllt – Gwasanaeth Iechyd Naturiol | Pobl sydd fwy iach, yn hapusach ac wedi cysylltu â natur a threftadaeth |
| Cymunedau - Cymunedau byrlymus | Llefydd lle all pobl fyw, gweithio a mwynhau |

Roedd yr Awdurdod wedi cynnal arolygon ar-lein o farn y staff, yr Aelodau a'r cyhoedd ehangach wrth ddatblygu ei strategaeth lefel uchel. Roedd y cyfleoedd i ymgysylltu yn bersonol yn gyfyngedig oherwydd effaith y pandemig Covid-19.

Sbardunodd cymeradwyo'r strategaeth lefel uchel adolygiad o Amcanion Llesiant yr Awdurdod i sicrhau bod ein Hamcanion Llesiant a'n blaenoriaethau lefel uchel yn cyd-fynd i gefnogi darpariaeth effeithiol yn erbyn y ddau. Cymeradwyodd yr aelodau'r Amcanion Llesiant drafft sy'n mynd allan ar gyfer ymgynghoriad ar 15 Rhagfyr 2021. Cymeradwywyd yr Amcanion Llesiant diwygiedig terfynol a'u canlyniadau cysylltiedig yn APC Mawrth 2022. Mae Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2022/23 wedi'i strwythuro er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Amcanion newydd hyn ac mae'n amlinellu sut mae'r amcanion newydd hyn yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru.

Amcanion Llesiant newydd yr Awdurdod yw:

**Amcan Llesiant Cadwraeth –** Cyflawni adferiad byd natur a chysylltedd ar raddfa, fel bod natur yn ffynnu yn y Parc, gan gyfrannu at warchod 30% o'n tiroedd a'n moroedd ar gyfer byd natur erbyn 2030.

**Amcan Llesiant Hinsawdd** - Cyflawni Awdurdod carbon niwtral erbyn 2030 a chefnogi'r Parc i gyflawni niwtraliaeth carbon ac addasu i effaith newid hinsawdd.

**Amcan Llesiant Cysylltiad -** Creu Parc sy'n wasanaeth iechyd naturiol sy'n cefnogi pobl i fod yn fwy iach, yn fwy hapus ac yn fwy cysylltiedig â'r dirwedd, natur a threftadaeth.

**Amcan Llesiant Cymunedau -** Creu cymunedau bywiog, cynaliadwy a llewyrchus yn y Parc lle gall pobl fyw, gweithio a mwynhau.

The revised Well-being Objectives were subject to an integrated assessment. During the process we considered how we could deliver our Well-being Objectives in a way that can have positive impact on cross cutting outcomes including equality, socio economic duty, reducing child poverty and section 6 biodiviersity duty.

Yn ystod 2022/23 bydd yr Awdurdod yn ceisio datblygu cynlluniau cyflawni a gwneud newidiadau sefydliadol i helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau newydd a'r Amcanion Llesiant hyn.

## 2. Cynllun Sarn Caeriw

[Hirdymor, Atal]

O dan y Ddeddf Cronfeydd Dŵr mae gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol i wneud y gwaith atgyweirio fel a gyfarwyddir gan yr Arolygiaeth Cronfeydd Dŵr. Mae'r Sarn wedi bod trwy sawl cam o ran gwaith atgyweirio mawr a mân waith

atgyweirio i atal dŵr rhag gollwng a lleihau'r dŵr sy'n gollwng trwy'r strwythur o bwll y felin y derbynnir ei fod yn fater parhaus a pharhaol. Cwblhawyd gwaith cam 1 a 2 ac fe gwblhawyd yr archwiliad cymeradwyo yn chwarter 1 yn 2021/22. Roedd cam arall yn yr arfaeth ar gyfer mis Mawrth 2022. Fodd bynnag, yn dilyn cyfle posibl i'r cam nesaf hwn gael ei ariannu gan CNC, mae gwaith wedi'i ohirio tan hydref 2022 er mwyn ei gwneud yn bosibl archwilio'r cyfle ariannu hwn.

## Ffrwd Waith: Codi Arian a Chreu Incwm

### 1. Tirweddau Cynaliadwy a Mannau Cynaliadwy

[Cydweithio, Integreiddio]
[Dyletswydd Adran 6]

Dyfarnwyd £900,000 i APCAP yn 2021/22 trwy gynllun Tirweddau Cynaliadwy a Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Roedd y cynigion a gymeradwywyd i'w cyflawni gan yr Awdurdod yn cynnwys gwyrddu amaethyddiaeth yn y Parc, Cronfa Datblygu Cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar newid hinsawdd, coetir cymunedol, mynediad at y Parc Cenedlaethol a gwyrddu'r fflyd a mannau gwefru cerbydau trydan.

Elwodd yr Awdurdod hefyd o gyllid ar gyfer prosiectau cydweithredol gyda thirweddau dynodedig eraill, y naill yn canolbwyntio ar gynlluniau gweithredu dynodedig ar gyfer carbon a'r llall ar astudiaeth sylfaenol o allyriadau carbon mewn tirweddau dynodedig. Sicrhawyd cyllid ar gyfer arddangosfa deithiol Geiriau Diflanedig; fodd bynnag, rhoddwyd y gorau i'r prosiect hwn oherwydd anawsterau gydag amserlenni a hawlfraint.

Yn ystod y flwyddyn, cymerodd Aelodau a Swyddogion ran mewn galwad agored am syniadau ar gyfer prosiect ar raddfa fawr sy'n gyson â blaenoriaethau newydd APCAP. Cyflwynwyd dros 40 o syniadau ar gyfer prosiectau. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda swyddogion ac Aelodau perthnasol a gyflwynodd syniadau ar gyfer prosiectau i ystyried sut y gellid grwpio'r prosiectau hyn. O hyn, nodwyd syniadau posibl ar gyfer prosiect ar raddfa fawr i'w datblygu ymhellach ac i'w hystyried ar gyfer eu cyflwyno i'r cylch nesaf o gyllid Tirweddau Cynaliadwy a Lleoedd Cynaliadwy.

### 2. Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

[Cydweithio]

Parhaodd yr Awdurdod i gefnogi Ymddiriedolaeth Elusennol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro fel y nodir yn y memorandwm cyd-ddealltwriaeth.

Yn 2021/22 rhagorodd yr Ymddiriedolaeth ar ei tharged codi arian o £100,000. Yr incwm diwedd blwyddyn oedd £109,804, gyda chyfanswm o £70,500 wedi'i

ddosbarthu i brosiectau'r Parc Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae prosiectau'r Awdurdod a gefnogir yn cynnwys y Prosiect Pobl, Planhigion a Phryfed Peillio, prosiect addysg Roots/ Gwreiddiau, Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro, dehongliad digidol o 3 safle archaeoleg yn y Parc Cenedlaethol a gwaith mynediad ar Draeth Llyfryn. Mae'r Awdurdod hefyd wedi elwa o ddwy ymgyrch yr Ymddiriedolaeth, Creu Mwy o Ddolydd a Gwyllt am Goetiroedd.

**3. Noddi Iet**

Bu’r cynllun noddi giât/mainc yn boblogaidd yn 2021/22, gyda 27 o giatiau/meinciau wedi’u noddi gan godi £16,200. Mae hyn yn cymharu â £5,400 yn 2020/21 a £10,800 yn 2019/20.

**4. Cynhyrchu Incwm mewn Canolfannau**

O ran creu incwm yn y Canolfannau gwelwyd adferiad cadarnhaol yn 2021/22 o effaith Covid 19 a’r rheoliadau cysylltiedig a chau safleoedd yn 2020/21. Gyda chynnydd o 5.3% mewn incwm nwyddau a chynnydd o 26.8% yn yr incwm mynediad o Gaeriw a Chastell Henllys o gymharu â 2019/20.

Cynhyrchwyd £238,425.38 o incwm o Nwyddau Canolfannau yn 2021/22, o gymharu â £74,566.73 yn 2020/21 a £226,469.10 yn 2019/20.

Cynhyrchwyd £274,189.12 o incwm o fynediad yng Nghaeriw a Chastell Henllys yn 2021/22, o gymharu â £68,242.48 yn 2020/21 a £216,156.21 yn 2019/20.

Cynhyrchwyd £56,987.15 o incwm gan ganolfannau o incwm arall yn 2021/22, o gymharu â £9,415.47 yn 2020/21 a £77,487.93 yn 2019/20.

Cynhyrchwyd £25,467.00 o incwm rhent caffi yng Nghastell Henllys ac Oriel y Parc yn 2021/22, o gymharu â £9,749.87 yn 2020/21 a £24,760.00 yn 2019/20.

Cynhyrchwyd £116,654.49 o incwm o gaffi Caeriw yn 2021/22, o gymharu â £31,297.30 yn 2020/21 a £72,112.57 yn 2019/20.

Yn 2021/22 cododd cynllun peilot yr Awdurdod o roddion heb arian parod yn OYP £783 ar gyfer OYP. Bydd y cynllun peilot rhoddion heb arian parod yn rhedeg am 12 mis arall gan fod Covid 19 wedi effeithio ar ddwy flynedd flaenorol y peilot. Yna caiff ei werthuso i weld a yw'n werth parhau ag ef.

## Ffrwd Waith: Iechyd a Diogelwch


**1. Monitro Digwyddiadau**

Gwelodd yr Awdurdod 2 RIDDOR (Digwyddiadau Adroddadwy i'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch) yn 2021/22. Cyflwynodd y Rheolwr AD adroddiadau oedd yn

canolbwyntio’n benodol ar Iechyd a Diogelwch i'r Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol yn ystod 2021/22 i roi gwybodaeth bellach i'r Aelodau am y digwyddiadau ac ymateb yr Awdurdod. Ni welodd yr Awdurdod unrhyw ddamweiniau (anaf) dros 3 diwrnod/ hyd at 7 diwrnod o absenoldeb.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 | Meincnodi |
|---|---|---|---|---|---|
| # RIDDOR (Digwyddiadau Adroddadwy i'r HSE) | 3 (Coch) | 2 (Coch) | 2 (Coch) | 0 | APC Eryri: 0 |
| # damweiniau (Anafiadau) absenoldeb dros 3 diwrnod / hyd at 7 diwrnod | 0 (Gwyrdd) | 0 (Gwyrdd) | 0 (Gwyrdd) | 0 | APC Eryri: 0 |

Roedd cynnydd yn nifer y digwyddiadau mân ddamweiniau (anafiadau) o 3 yn 2020/21 i 13 yn 2021/22. Mae'r Awdurdod wedi gweld gostyngiad parhaus mewn achosion o ddifrod i gerbydau ers 2018/19. Fodd bynnag, am y ddwy flynedd ddiwethaf, efallai bod y duedd hon yn adlewyrchu effaith Covid 19 ar y defnydd o gerbydau gan staff. Cofnodwyd 2 digwyddiad o wrthdaro yn 2020/21. Roedd y ddwy yn ymwneud ag aelodau o'r cyhoedd yn bod yn ddifrïol tuag at staff, y naill mewn maes parcio a’r llall mewn siop ar un o’r safleoedd.




Ni adroddwyd unrhyw ddigwyddiadau diogelu yn 2021/22, parhaodd hyn â'r 0 digwyddiad a adroddwyd yn 2020/21 a 2019/20.

**2. Digideiddio Prosesau**

[Integreiddio]

Cafodd proses Adrodd am Ddigwyddiadau Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod ei hadolygu yn 2021/22. Ar hyn o bryd, caiff gwybodaeth ei chasglu â llaw a'i mewnbynnu ar gronfa ddata Access 'etifeddol'. Roedd yr adran Adnoddau Dynol i fod i ryddhau meddalwedd electronig ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau ym mis Ionawr 2022; fodd bynnag, yn dilyn cymeradwyaeth i gyflwyno Microsoft 365 ar draws yr Awdurdod, cafodd y prosiect ei atal am y tro. Ers hynny, mae'r adran Adnoddau Dynol wedi rhoi manyleb llif gwaith i'r tîm TG ar gyfer 365. Bydd atomeiddio'r broses o Adrodd am Ddigwyddiadau trwy Microsoft 365 yn ei gwneud yn bosibl cofnodi mewn 'amser real' (unrhyw le, unrhyw bryd), cael hysbysiadau awtomatig a bydd yn cynnwys y gallu i gael adroddiadau rheoli am yr holl ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch Personol a Diogelwch Eiddo. Bydd hyn yn sicrhau y gellir cymryd camau priodol i weithredu asesiadau, gwersi a ddysgwyd a mesurau rheoli i leihau i'r eithaf y tebygolrwydd y ceir yr un digwyddiadau eto yn y dyfodol.

Mae APCAP wedi bod yn edrych ar gyfleoedd i ddatblygu proses arolygu safleoedd wedi'i digideiddio. Cafodd y gwaith hwn ei 'atal dros dro' yn dilyn ymadawiad y Rheolwr Gweithrediadau. Fodd bynnag, mae rhai prosesau arolygu safleoedd wedi'u hychwanegu at dull presennol o ran rheoli'r Gweithlu â chymorth system gwybodaeth ddaearyddol gan gynnwys clefyd coed ynn, arolygiadau o bontydd, ac ymweliadau â safleoedd ar ôl stormydd. Bydd datblygiad pellach yn gysylltiedig â datblygiadau ehangach o ran darparu cymorth system gwybodaeth ddaearyddol i'r Awdurdod a fydd yn gysylltiedig â newidiadau sefydliadol yn y dyfodol.

**3. Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch**

[Atal]

Parhaodd staff perthnasol i dderbyn hyfforddiant iechyd a diogelwch gorfodol yn 2021/22.Relevant staff continued to receive mandatory health and safety training in 2021/22. Yn ystod y flwyddyn daeth cyfleoedd hyfforddiant Cymorth Cyntaf wyneb yn wyneb ar gael eto i staff.

## Ffrwd Waith: Gwella'r ffordd rydym yn gweithio: dulliau digidol a seilwaith

**1. Trawsnewid Digidol a'r Prosiect Seilwaith Copïau Wrth Gefn TG**

[Hirdymor, Cydweithio]

Yn 2021/22 fe gymerodd yr Awdurdod gam sylweddol o ran trawsnewid digidol ac fe gytunodd i symud i blatfform Microsoft 365. Paratowyd achos busnes ar

gyfer y Gweithle Digidol (Microsoft 365) gan y tîm TG yn dilyn cyswllt â Phoenix Software i drafod yr opsiynau gorau posibl o ran datrysiad ar gyfer trwydded Microsoft 365. Cafodd yr achos busnes ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Tîm Arwain ar 8 Mehefin 2021 a'i gymeradwyo gan yr APC ar 16 Mehefin 2021.

Rhoddwyd cynllun graddol ar waith gyfer symud i Microsoft 365. Yn 2021/22 cwblhawyd Cam 1 gyda'r broses o fudo'r system e-bost i 365 yn cael ei chwblhau. I gefnogi seiberddiogelwch mae gan bob defnyddiwr ddull Dilysu Aml-ffactor wedi'i alluogi ac mae mandad system ar waith. Cwblhawyd Cam 2 hefyd gydag Office 365 a One Drive yn cael eu rhoi ar waith, ynghyd ag integreiddio â 3CX (teleffoni). Cynhaliwyd sesiynau ymwybyddiaeth gyda staff i ategu Cam 2. Cafwyd trafodaethau cychwynnol gydag adrannau yn 2021/22 i gytuno ar y gofynion ar gyfer Cam 3 (Teams) a Cham 4 (Share Point). Bydd cam 3 a 4 yn cael eu cyflawni yn ystod 2022/23.

Yn 2021/22 llwyddodd y tîm TG i gwblhau prosiect seilwaith copïau wrth gefn TG sy'n hollbwysig i'r busnes. Cynhaliwyd ystod o weithgareddau fel rhan o'r prosiect gan gynnwys amnewid gwesteiwyr VM a throsglwyddo cymwysiadau, gosod trefn adfer ar ôl trychineb newydd, mudo rheolwyr parth ac uwchraddio'r wal dân. Roedd cwblhau'r gwaith o uwchraddio a mudo o Exchange Server 2010 i 2016 yn hanfodol o ran galluogi'r Awdurdod i gychwyn ei symudiad i blatfform Microsoft 365.

### 2. System AD

[Integreiddio]

Yn 2021/22 cafodd y system Adnoddau Dynol newydd, Cezanne, ei gweithredu'n llwyddiannus ar draws yr Awdurdod.

## Ffrwd Waith: Datblygu'r Aelodau a Llywodraethu

### 1. Freinlen Lefel Uwch Cynorthwyo a Datblygu Aelodau

[Cydweithio, Cynnwys]

Dyfarnwyd y Freinlen Lefel Uwch i'r Awdurdod am Gynorthwyo a Datblygu Aelodau, ar ôl iddo lwyddo i ddangos "gwaith effeithiol a pharhaus gan y swyddogion a'r Aelodau" yn ei gyflwyniad. Bwriad y Freinlen yw sicrhau bod ystod hanfodol o drefniadau cymorth a datblygu ar gael i gynghorwyr, ac mae'r Freinlen Uwch yn brawf pellach bod y trefniadau sy'n ofynnol ar gyfer y Siarter yn gweithio'n effeithiol. Mewn llythyr yn llongyfarch yr Awdurdod, dywedodd Panel Adolygu CLlLC:

- ✓ "Mae'r wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos yn glir bod yr holl feini prawf angenrheidiol wedi cael eu bodloni."

- ✓ “Mae’r aelodau’n elwa o’r arferion gwell a gyflwynwyd ac yn gallu arddangos yr arferion da hyn drwy raglen gynhwysfawr ac effeithiol o gynorthwyo a datblygu. Mae hyn yn galluogi’r Awdurdod i roi trefniadau llywodraethu corfforaethol effeithiol ar waith.”

**2. Cyfarfodydd Pwyllgorau a Phresenoldeb yr Aelodau**

Parhaodd yr Awdurdod i gynnal holl gyfarfodydd NPA a Phwyllgorau yn rhithiol yn 2021/22. Cytunwyd ym mis Mawrth 2022, y byddai Pwyllgorau NPA a Rheoli Datblygu yn symud i gyfarfodydd hybrid. Cafodd offer TG ei gaffael ar gyfer yr Ystafell Werdd i gefnogi'r symudiad i gyfarfodydd hybrid.

Cafodd 33 o bwyllgorau eu gwe-ddarlledu yn 2021/22 o'i gymharu â 30 yn 2020/21. Gyda 509 o olygfeydd yn 2021/22 o'i gymharu â 342 yn 2021/22. Y Pwyllgorau mwyaf poblogaidd, fel y byddai disgwyl oedd Pwyllgor Rheoli Datblygu gyda 389 o olygfeydd a APC gyda 79 o olygfeydd.

Bu gostyngiad yn lefelau presenoldeb aelodau ar gyfer Pwyllgorau a hyfforddiant yn 2021/22 o'i gymharu â 2020/21, fodd bynnag arhosodd yn uwch na lefelau 2019/20. Gan nodi bod darparu opsiynau rhithwir yn parhau i gefnogi lefelau presenoldeb.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 | Meincnodi |
|---|---|---|---|---|---|
| % Presenoldeb Aelodau mewn Pwyllgorau | 81.91 (Gwyrdd) | 91.08 (Gwyrdd) | 87.24 (Gwyrdd) | 75 | APC Eryri: 85% |
| % presenoldeb Aelodau mewn hyfforddiant | 56.22 (Ambr) | 77.27 (Gwyrdd) | 62.22 (Ambr) | 65 | APC Eryri: 75% |

**3. Pwerau Dirprwyedig**

Er mwyn galluogi parhad y gwasanaeth cynllunio yn ystod 2020/21 oherwydd effaith Covid 19, cytunodd yr Awdurdod ar newid dros dro i’r cynllun dirprwyo ar gyfer pwerau cynllunio. Cytunodd yr Awdurdod i barhau â'r trefniant hwn am weddill 2021, gydag estyniad yn ei le tan 31 Rhagfyr 2022.

## Ffrwd Waith: Cydymffurfiaeth a Safonau Corfforaethol

**1. Adolygiadau Perfformiad Archwilio Cymru – 5 Ffordd o Weithio**

[Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys]
[Dyletswydd Adran 6]

Mae Archwilio Cymru yn cynnal rhaglen flynyddol o archwilio perfformiad.

Cyflwynodd Archwilio Cymru ganfyddiadau ei waith Adolygiad o Gadernid 2020-21 i'r APC ym mis Mai 2021. Cafodd cynllun gweithredu ei greu er mwyn ymateb i'r cynigion ar gyfer gwella yn y ddogfen a chafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol ym mis Gorffennaf 2021. Roedd parhad busnes yn un maes a nodwyd gan yr adroddiad a chafodd Cynllun Parhad Busnes ei ddrafftio yn 2021/22. Fodd bynnag, bu oedi cyn cymeradwyo a chyfleu'r cynllun gan y bydd angen diwygio a diweddaru'r cynllun drafft unwaith y bydd gweithgareddau mudo i Microsoft 365 wedi'u cwblhau.

Ar gyfer 2021/22 roedd un elfen o'r gwaith archwilio perfformiad yn canolbwyntio ar Dwristiaeth Gynaliadwy, gyda ffocws ar y cwestiwn **"A yw'r Awdurdod yn gwneud popeth a all i reoli twristiaeth gynaliadwy yn effeithiol yn y Parc Cenedlaethol?."**

Roedd y gwaith yn seiliedig ar gyfweliadau, yn fewnol ac yn allanol ac ar holiadur.

Y casgliad lefel uchel oedd:

✓ "Mae'r Awdurdod yn arwain o ran twristiaeth gynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol, ond mae angen iddo fynegi ei weledigaeth, blaenoriaethu adnoddau, a chynnwys cymunedau a busnesau'n llwyr yn y broses o roi'r agenda hon ar waith."

Mae Archwilio Cymru wedi gwneud yr argymhellion canlynol:

**A1 Creu gweledigaeth:** Rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn diffinio'n glir ei ganlyniadau o ran twristiaeth gynaliadwy, ac yn ailedrych ar y camau y bwriedir eu cymryd i sicrhau eu bod yn gyson â'r canlyniadau hyn.

**A2 Cyfathrebu:** Rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn adolygu effeithiolrwydd y gwaith hyrwyddo y mae'n ymgymryd ag ef ar hyn o bryd i roi sicrwydd ei fod yn gwneud popeth y gall i hyrwyddo ei weledigaeth ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac i helpu i'w rhoi ar waith.

**A3 Defnyddio data**: Rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn adolygu'r modd y mae'n defnyddio data i hyrwyddo ac i reoli twristiaeth, a'i fod yn mynd ati'n benodol:

- i adolygu'r ffynonellau data presennol sy'n darparu data am effaith ymwelwyr ar y Parc, ac i bennu unrhyw fylchau posibl o ran deall ymddygiad ymwelwyr;
- i bennu dangosyddion sy'n caniatáu i'r Awdurdod fesur effaith gweithgareddau i wasgaru ymwelwyr i rannau eraill o'r Parc;

- i fynd ati’n rheolaidd i adolygu tueddiadau o ran demograffeg, ymddygiad ac effaith ymwelwyr i sicrhau bod modd i’r Awdurdod dargedu adnoddau’n fwy effeithiol.

**A4 Cynnwys cymunedau:** Rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn adolygu’r modd y mae’n ymwneud â:

- phartneriaethau lleol – cydweithio â nhw i ddod i ddeall yn well y pwysau ar gymunedau penodol;
- cymunedau lleol – cydweithio â nhw i bennu ac i drin a thrafod datrysiadau i fynd i’r afael â phryderon o ran gordwristiaeth

Bydd APCAP yn gweithredu'r argymhellion hyn fel rhan o ddatblygu ei gynlluniau cyflenwi.

Cyflwynodd yr Awdurdod dystiolaeth hefyd mewn ymateb i alwad Archwilio Cymru am dystiolaeth ar gyfer Newid Hinsawdd – Adolygiad Sylfaenol o Ddatgarboneiddio.

## 2. Archwiliad Mewnol

Adolygodd TIA sy'n cyflawni'r swyddogaeth archwilio fewnol ar gyfer yr Awdurdod y meysydd canlynol yn 2021/22:

- ✓ Strategaeth TGCh
- ✓ Darparu Ystadau
- ✓ Taliadau Caffael a Chredydwr
- ✓ Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- ✓ Rheoli Risg - Rheolaethau ar gyfer Lliniaru Risg
- ✓ Adolygiad dilynol o Adolygiad o Wasanaethau Gwydn a Chynaliadwy

Roedd TIAA wedi’i argyhoeddi, ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, bod gan APCAP brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol. Ystyrir canlyniadau adroddiadau archwilio mewnol gan Aelodau drwy'r Pwyllgor Adolygu Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol.

## 3. Cwynion Ffurfiol

Roedd gostyngiad yn nifer y cwynion ffurfiol, a dderbyniodd yr Awdurdod yn 2021/22 o'i gymharu â 2020/21. Derbyniodd 10 o gwynion yn 2021/22, o'i gymharu â 15 yn 2020/21 a 10 yn 2019/20. Roedd mwyafrif y cwynion yn ymwneud â chynllunio a gorfodi cynllunio. O ran cymhariaeth meincnodi fe dderbyniodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 15 cwyn ffurfiol yn 2021/22.

## 4. Safonau'r Gymraeg

Cymeradwyodd yr Awdurdod ei Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg ym mis Mehefin 2021 ac yna cyflwynwyd yr adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg.

Ni dderbyniodd yr Awdurdod unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg am yr Awdurdod yn 2021/22. Parhau â'r duedd o 0 gwyn yn 2019/20 a 2020/21. Ni dderbyniodd Comisiynydd y Gymraeg unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg am yr Awdurdod yn 2021/21.

| Mesurau | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Targed 2021/22 | Meincnodi |
|---|---|---|---|---|---|
| # cwynion i Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch Methiant honedig i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg | 0 (Gwyrdd) | 0 (Gwyrdd) | 0 (Gwyrdd) | 0 | APC Eryri: 1 |

Gwelodd yr Awdurdod ostyngiad yn y % o swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd â'r Gymraeg yn hanfodol o 30.3% yn 2019/20, 31.82% yn 2020/21 i 20.63% yn 2021/22.

Cafodd 3 Asesiadau Effaith ar yr Iaith Gymraeg eu cwblhau fel rhan o asesiadau integredig yn 2021/22, mae hyn yn cymharu â 1 yn 2020/21.

## 5. Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol – Dyletswydd Sector Cyhoeddus

[Dyletswydd Cydraddoldeb]

Ymgorfforwyd Adroddiad Perfformiad Cydraddoldeb Blynyddol 2020/21 yn yr Adroddiad Blynyddol ar Amcanion Llesiant/ Cynllun Gwella 2 2020/21 a'u cymeradwyo gan yr APC ar 28 Gorffennaf. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol ar wefan APCAP a anfonwyd dolen at y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

## 6. Ymagwedd gorfforaethol at Ddiogelu Data

Penodwyd Swyddog Diogelu Data allanol newydd gan Aelodau yn APC Mawrth 2021. Mae perthynas weithio gadarnhaol wedi datblygu gyda'r Swyddog Diogelu Data yn ystod 2021/22 gyda chyfarfodydd rheolaidd a swyddogion APCAP yn gofyn am gyngor ac arweiniad ar ystod eang o faterion diogelu data. Yn ystod y flwyddyn mynychodd y Swyddog Diogelu Data gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol, y Tîm Arwain ac Arweinwyr Tîm.

Cafodd polisi Diogelu Data diwygiedig ei gymeradwyo gan yr Awdurdod yn APC mis Medi. Trefnwyd hefyd fod gweithdrefn a ffurflen wedi'u diweddaru ar gyfer adrodd am achosion o dorri diogelwch data ar gael i staff trwy'r fewnrwyd. Yn ystod y flwyddyn dechreuodd gweithgarwch hefyd ar drefniant ar gyfer hyfforddiant diogelu data ar-lein ac adolygu polisi teledu cylch cyfyng.

Cwblhawyd 3 Asesiadau Effaith Diogelu Data yn 2021/22 mae hyn yn cymharu â 1 yn 2020/21. Roedd yr asesiadau gorffenedig yn cynnwys un ar gyfer system Adnoddau Dynol newydd, system archebu Cadair Olwyn Traeth a Microsoft 365.

Ni adroddwyd am unrhyw Dor Diogelwch Data wrth Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2021/22, gan barhau â'r duedd o beidio ag adrodd am unrhyw achosion o dor diogelwch data yn 2020/21 a 2019/20.


## 7. Cyfathrebu Polisïau a Safonau Corfforaethol

Parhaodd Uwch Reolwyr ac Adnoddau Dynol i gyhoeddi canllawiau i staff mewn perthynas â sefyllfa Covid 19 a'r effaith ar waith a gweithle'r Awdurdod.

Bydd system SharePoint newydd yn cael ei rhoi ar waith fel rhan o ddefnyddio Microsoft 365. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Awdurdod ail edrych a gwella sut mae polisïau'n cael eu harddangos ar system fewnrwyd staff.

## 8. Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (RG), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RGA) a Mynediad Gwrthrych y Data.

Mae'r Awdurdod wedi gweld cynnydd cyffredinol dros y blynyddoedd o ran nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ceisiadau dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a Cheisiadau Gwrthrych am Wybodaeth y mae’n eu cael. Cyrhaeddodd ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol uchafbwynt yn 2020/21 gyda nifer sylweddol o geisiadau dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn dod i law, gan gynnwys 7 cais dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn ymwneud â datblygiad Brynhir.




| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| RG | 10 | 9 | 16 | 14 |
| RGA | 5 | 13 | 24 | 16 |
| MGD | 0 | 0 | 2 | 2 |

Fel arfer mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymryd hyd at 20 diwrnod gwaith i ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth neu gais dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Ar gyfer Cais Gwrthrych am Wybodaeth rhaid darparu ymateb fan bellaf o fewn mis i gael cais. Mewn rhai amgylchiadau gellir rhoi estyniad amser yn unol â'r disgwyliadau o fewn y rheoliadau perthnasol. Yn dilyn oedi i'r ymatebion yn chwarter 1 mae'r Awdurdod wedi diwygio prosesau gweinyddol i gynnwys nodyn atgoffa ychwanegol i staff sy'n darparu ymatebion. Darparodd holl ymatebion yn chwarter 2, 3 a 4 o fewn yr amserlenni gofynnol.

| Mesur Perfformiad | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2021/22 Targed |
|---|---|---|---|---|
| % yr ymatebion Rhyddid Gwybodaeth o fewn y terfyn amser gofynnol | 100 (Gwyrdd) | 93.75 (Ambr) | 92.86 (Ambr) | 100% |
| % yr ymatebion Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol o fewn y terfyn amser gofynnol | 92.31 (Ambr) | 95.83 (Ambr) | 93.75 (Ambr) | 100% |
| % yr ymatebion i Gais am Fynediad Testun o fewn y terfyn amser gofynnol | N/A (Ni dderbyniodd yr un Cais am Fynediad Testun) | 100 (Gwyrdd) | 50 (1 allan o 2) (Coch) | 100% |

## 9. Sylw cadarnhaol a niwtral yn y cyfryngau

Roedd 100% o sylw yn y cyfryngau am yr Awdurdod yn gadarnhaol neu'n niwtral yn 2021/22.

| Mesur Perfformiad | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2021/22 Targed |
|---|---|---|---|---|
| % y sylw cadarnhaol neu niwtral yn y cyfryngau am yr Awdurdod | 85.05 (Gwyrdd) | 99.18 (Gwyrdd) | 100.00 (Gwyrdd) | 80% |

## Atodiad 1: Data a Dadansoddi Cydraddoldeb mewn perthynas â Recriwtio a'r Gweithlu

**Nodyn ar ddata:** I alinio ag adroddiadau ffynhonnell ddata agored blynyddoedd blaenorol Llywodraeth Cymru, trwy'r tablau canlynol, mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf ac mae'r ffigurau o dan 5 wedi'u hatal ac yn cael eu dynodi gan *. Mae'r canrannau wedi'u talgrynnu a lle mae'r ffigurau'n is na 5 y ganran gyfatebol wedi'u hatal a'u dynodi gan *. Efallai na fydd cyfanswm yn swm oherwydd talgrynnu. Mae talgrynnu fel hyn hefyd yn helpu i gadw staff ac ymgeiswyr am swyddi'n ddienw. Mae data'r gweithlu yn seiliedig ar nifer y bobl o'r dyfyniad diwedd mis ar 31 Mawrth 2022, o ganlyniad ni fydd rhai gweithwyr tymhorol yn cael eu dal yn y ffigurau.

Fe hysbysebwyd 63 o swyddi gwag yn 2021/22, o'i gymharu â 22 yn 2019/20 a 33 yn 2019/20. Daw'r data ynghylch ymgeiswyr am swyddi o system ceisiadau am swyddi ar-lein.

| **Nifer y Ceisiadau am Swydd yn Gyffredinol** | | |
|---|---|---|
| 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
| 640 | 380 | 330 |

Daw Data'r Gweithlu o System Rheoli Pobl yr Awdurdod. Newidiodd yr Awdurdod ei system rheoli pobl yn ystod y flwyddyn ac mae hyn wedi cael effaith ar % o ddata monitro cydraddoldeb y gweithlu yn cael ei gadw. Oherwydd y gostyngiad yn y data monitro cydraddoldeb a gedwir, dylid gofalu o ran unrhyw gymariaethau rhwng blynyddoedd neu ddadansoddiad o ddata'r gweithlu. Bydd angen rhagor o waith gyda staff yn 2022/23 i'w hannog i gwblhau data monitro cydraddoldeb ar y system. Gall staff gyrchu, adolygu a chwblhau eu data monitro cydraddoldeb yn uniongyrchol ar y system.

| **Nifer y Gweithwyr** | | |
|---|---|---|
| 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
| 140 | 160 | 170 |

### Oedran

Mae nifer yr ymgeiswyr yn parhau i fod ar ei uchaf ar gyfer y grŵp oedran dan 30 oed o'i gymharu â chromfachau oedran eraill, gyda chynnydd parhaus ers 2019/20 yn y % o ymgeiswyr swydd o'r 30 hynny ac iau.

| **Ymgeiswyr am Swyddi: Oedran** | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
| 30 mlynedd ac iau | 30% (190) | 34% (130) | 42% (140) |
| 31-40 | 22% (140) | 26% (100) | 21% (70) |
| 41-50 | 12% (80) | 16% (60) | 12% (40) |
| 51-59 | 17% (110) | 16% (60) | 15% (50) |
| 60 oed a throsodd | 5% (30) | 5% (20) | 6% (20) |
| Gwell gennyf | 13% (90) | 3% (10) | 3% (10) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| beidio â dweud/ Heb ei ddatgan | | | |

Bu cynnydd bychan yn nifer y staff yn y cromfach 51-59 gyda mân ostyngiad yn y nifer yn y cromfachau 31-40, 41-50 a 60 a throsodd. Roedd 76% o'r staff dros 41 oed yn 2021/22, ac mae hyn yn debyg i 2020/21 lle'r oedd 75% o'r staff dros 41.

| **Gweithwyr: Oedran** | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
| 30 mlynedd ac iau | * (*) | * (*) | * (*) |
| 21-30 | 7% (10) | 6% (10) | 6% (10) |
| 31-40 | 14% (20) | 19% (30) | 18% (30) |
| 41-50 | 36% (50) | 31% (50) | 29% (50) |
| 51-59 | 29% (40) | 25% (40) | 29% (50) |
| 60 oed a throsodd | 14% (20) | 19% (30) | 18% (30) |

**Ailbennu Rhywedd**

Ni fu newid sylweddol o ran ymatebion ymgeiswyr am swyddi, gyda'r nifer a nododd fod eu rhywedd yr un fath yn gostwng ychydig gan adlewyrchu cynnydd yn y % na wnaethant ddatgan.

| **Ymgeiswyr am Swyddi: Rhywedd Geni** | | | |
|---|---|---|---|
| Rhywedd Geni | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
| Yr un peth | 86% (550) | 97% (370) | 94% (310) |
| Nid yr un peth | *(*) | *(*) | *(*) |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 2% (10) | 3% (10) | 3% (10) |
| Heb ei ddatgan | 12% (80) | *(*) | 3% (10) |

**Anabledd**

Bu cynnydd bach yng % yr ymgeiswyr am swyddi sy'n nodi bod ganddynt anabledd. Bu cynnydd bach yn nifer yr ymgeiswyr am swyddi yn ffafrio peidio ag ateb y cwestiwn hwn.

| **Ymgeiswyr am Swyddi: Anabledd** | | | |
|---|---|---|---|
| Anabledd | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
| Wedi nodi fel un sydd ag anabledd | 3% (20) | 5% (20) | 6% (20) |
| Wedi nodi fel un sydd heb anabledd | 80% (510) | 95% (360) | 88% (290) |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 3% (20) | *(*) | 6% (20) |
| Heb ei ddatgan | 14% (90) | *(*) | *(*) |

Mae'n anodd asesu newidiadau mewn patrymau o ran anabledd a phroffil y gweithlu oherwydd y cynnydd mewn gwybodaeth na ddatganwyd, yn dilyn symud i system Adnoddau Dynol newydd.

| Gweithwyr: Anabledd | | | |
|---|---|---|---|
| Anabledd | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
| Wedi nodi fel un sydd ag anabledd | *(*) | *(*) | *(*) |
| Wedi nodi fel un sydd heb anabledd | 79% (110) | 75% (120) | *(*) |
| Heb ei ddatgan | 21% (30) | 25% (40) | 100% (160) |

**Ethnigrwydd**

Oherwydd y niferoedd bychain sy'n ymwneud ag Ethnigrwydd Eraill, nid yw'r grŵp hwn wedi cael ei ddatgyfuno yn y ddau dabl nesaf. Fodd bynnag, cydnabyddir ei bod yn bwysig ystyried cynrychiolaeth a phrofiadau yn ymwneud â gwahanol ethnigrwydd o fewn y categori Ethnigrwydd Arall.

Mae'r Awdurdod wedi gweld cynnydd yn y % o ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig nad sy'n wyn, o'i gymharu â 2019/20. Mae'r Awdurdod wedi gweld cynnydd bychan yn nifer yr ymgeiswyr am swyddi sy'n ffafrio peidio â darparu'r wybodaeth hon.

| Ymgeiswyr am Swyddi: Ethnigrwydd | | | |
|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
| Gwyn | 83% (110) | 95% (530) | 94% (310) |
| Ethnigrwydd Arall | 2% (10) | *(*) | 3% (10) |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 2% (10) | *(*) | 3% (10) |
| Heb ei ddatgan | 14% (90) | 5% (20) | *(*) |

Mae'n anodd asesu newidiadau mewn patrymau o ran ethnigrwydd a phroffil y gweithlu oherwydd y cynnydd mewn gwybodaeth na ddatganwyd, yn dilyn symud i system adnoddau dynol newydd.

| Gweithwyr: Ethnigrwydd | | | |
|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
| Gwyn | 79% (110) | 71% (120) | 38% (60) |
| Ethnigrwydd Arall | *(*) | *(*) | *(*) |
| Gwell gennyf beidio â dweud / Heb ei ddatgan | 21% (30) | 29% (50) | 63% (100) |

**Crefydd neu Gred**

Oherwydd y niferoedd bychain sy'n ymwneud â Chrefydd/Cred Arall, nid yw'r grŵp hwn wedi cael ei ddatgyfuno yn y ddau dabl nesaf. Fodd bynnag, cydnabyddir ei bod yn bwysig ystyried cynrychiolaeth a phrofiadau pobl sydd â gwahanol grefyddau a chredoau sy'n dod o dan y categori Crefydd/ Cred Arall.

Mae'r Awdurdod wedi gweld cynnydd bach yn y % o'r ymgeiswyr sy'n nodi eu bod yn Grefydd/Cred Arall. Bu gostyngiad bychan yn nifer yr ymgeiswyr sy'n nodi nad oes ganddynt grefydd/ cred neu fel Cristion. Roedd cynnydd bach yn nifer y bobl oedd yn ffafrio peidio ag ateb.

| Ymgeiswyr am Swyddi: Crefydd neu Gred | | | |
|---|---|---|---|
| Crefydd neu Gred | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
| Dim Crefydd/ Cred | 42% (270) | 57% (210) | 55% (180) |
| Cristongaeth | 31% (200) | 30% (110) | 27% (90) |
| Crefydd/ Cred Arall | 5% (30) | 5% (20) | 6% (20) |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 8% (50) | 8% (30) | 12% (40) |
| Heb ei ddatgan | 14% (90) | *(*) | *(*) |

Mae'n anodd asesu newidiadau mewn patrymau o ran crefydd neu gred a phroffil y gweithlu oherwydd y cynnydd mewn gwybodaeth na ddatganwyd, yn dilyn symud i system Adnoddau Dynol Newydd.

| Gweithwyr: Crefydd neu Gred | | | |
|---|---|---|---|
| Crefydd neu Gred | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
| Dim Crefydd/ Cred | 36% (50) | 31% (50) | 13% (20) |
| Cristongaeth | 28% (40) | 31% (50) | 6% (10) |
| Crefydd/ Cred Arall | *(*) | *(*) | *(*) |
| Gwell gennyf beidio â dweud / Heb ei ddatgan | 36% (50) | 38% (60) | 81% (130) |

**Rhyw**

Roedd mwy o ymgeiswyr benywaidd o'i gymharu ag ymgeiswyr gwrywaidd yn 2021/22, yn 2020/21 roedd llawer mwy o ymgeiswyr gwrywaidd. Yn y blynyddoedd blaenorol roedd cydbwysedd ymgeiswyr rhwng ymgeiswyr benywaidd a gwrywaidd wedi'i rannu'n fwy cyfartal.

| Ymgeiswyr am Swyddi: Rhyw | | | |
|---|---|---|---|
| Rhyw | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
| Menyw | 42% (280) | 37% (140) | 52% (170) |
| Gwryw | 43% (280) | 63% (240) | 45% (150) |
| Term Arall | *(*) | *(*) | *(*) |
| Gwell gennyf beidio â dweud | *(*) | *(*) | 3% (10) |
| Heb ei ddatgan | 13% (80) | *(*) | *(*) |

Yn dilyn yr un patrwm a 2020/21, mae'r data crwn yn dangos % ychydig yn uwch o staff benywaidd o'i gymharu â staff gwrywaidd yn 2021/22.

| Gweithwyr: Rhyw | | | |
|---|---|---|---|
| Rhyw | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
| Menyw | 50% (70) | 53% (90) | 53% (90) |
| Gwryw | 50% (70) | 47% (80) | 47% (80) |
| Gwell gennyf beidio â dweud / Heb ei ddatgan | *(*) | *(*) | *(*) |

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

Gwelodd yr Awdurdod gynnydd bychan yng nghanran yr ymgeiswyr swyddi a nodwyd fel LHD neu Arall yn 2021/22 yn seiliedig ar y data crwn.

| **Ymgeiswyr am Swyddi: Cyfeiriadedd Rhywiol** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfeiriadedd Rhywiol | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
| Heterorywiol | 80% (510) | 87% (330) | 82% (230) |
| Lesbiaid, Hoyw, Deurywiol neu Arall | 3% (20) | 5% (20) | 7% (20) |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 3% (20) | 8% (30) | 11% (30) |
| Heb ei ddatgan | 14% (90) | *(*) | *(*) |

Mae'n anodd asesu newidiadau mewn patrymau o ran nifer y gweithwyr sy'n nodi eu bod yn LHD neu Arall oherwydd y cynnydd mewn gwybodaeth na ddatganwyd, yn dilyn symud i system Adnoddau Dynol newydd.

| **Gweithwyr: Cyfeiriadedd Rhywiol** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfeiriadedd Rhywiol | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
| Heterorywiol | 64% (90) | 59% (100) | 19% (30) |
| Lesbiaid, Hoyw, Deurywiol neu Arall | 7% (10) | 6% (10) | *(*) |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 7% (10) | 6% (10) | *(*) |
| Heb ei ddatgan | 34% (40) | 31% (50) | 81% (130) |

**Gweithwyr a adawodd ein cyflogaeth yn ystod y flwyddyn/ newidiodd eu swydd**

Mae nifer y gweithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod wedi cynyddu rhwng 2020/21 i 2021/22. Mae’r data wedi cael ei ddadansoddi’n fewnol gan bersonél i adnabod pa un a oes angen unrhyw gamau gweithredu pellach. Mae’r setiau ddata’n rhy fach ar gyfer adrodd ymhellach mewn modd ystyrlon ar draws unrhyw nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, dangosodd dadansoddiad o ddata o oedran crwn bod 50% o'r gweithwyr a adawodd gyflogaeth yr Awdurdod yn 30 oed ac iau.

| **Gweithwyr a adawodd ein cyflogaeth yn ystod y flwyddyn** | | |
|---|---|---|
| 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
| 10 | 10 | 20 |

| **Gweithwyr a newidiodd eu swydd yn ystod y flwyddyn** | |
|---|---|
| 2020/21 | 2021/22 |
| 10 | 10 |

**Proffil Gweithlu yn erbyn y Math o Gontract/ Patrwm Gwaith: Rhyw**


Mae’r Awdurdod yn cefnogi trefniadau gweithio hyblyg ac mae ganddo gyflogeion sy’n gweithio ystod fawr o batrymau gwaith o ran nifer yr oriau dros ddiwrnodau amrywiol. Mae llawer o staff yn gweithio cynllun oriau hyblyg a gall yr holl staff ofyn am drefniadau gweithio hyblyg megis pythefnosau 9 diwrnod; caiff ceisiadau eu cymeradwyo fel rheol. Mae staff yn symud i mewn ac allan o drefniadau wrth i

amgylchiadau newid. Mae'r Awdurdod wedi gweld cynnydd yn nifer y Menywod sy'n gweithio'n rhan-amser. Mae nifer y staff gwrywaidd ar gytundebau dros dro wedi gweld gostyngiad.

| **Math o Gontract/ Patrwm Gwaith** | **Menyw** | | **Gwryw** | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020/21 | 2021/22 | 2020/21 | 2021/22 | 2020/21 | 2021/22 |
| Llawn Amser | 40 | 30 | 60 | 60 | 100 | 90 |
| Rhan Amser | 50 | 60 | 20 | 20 | 70 | 80 |
| Parhaol | 80 | 90 | 70 | 70 | 150 | 160 |
| Dros-dro | 10 | 10 | 10 | * | 20 | 10 |

### Proffil y Gweithlu yn erbyn Graddfeydd – Rhyw

Mae'r Awdurdod yn cyflogi pobl mewn ystod eang o swyddi, a nifer ohonynt ag ond un deiliad swydd ac felly nid yw monitro yn ôl 'swydd' yn cael ei wneud. Rydym wedi cyfuno Graddau i atal adnabod unigolion. Nid oes unrhyw elfennau tâl sylweddol eraill sy'n daladwy ar ben y cyflog ar y raddfa. Nid yw'r ffigur yn cynnwys staff tymhorol a delir yn ôl taflen amser ac nad ydynt yn gyflogedig.




### Cwynion Cyflogaeth a Disgyblu

Mae'r setiau data'n rhy fach ar gyfer adrodd gyda risg posib o adnabod unigolion. Bydd y data hwn yn cael ei ddadansoddi'n fewnol gan bersonél i nodi a oes angen unrhyw gamau pellach.

### Dadansoddi Hyfforddiant a Thâl

Er mwyn galluogi dadansoddi pellach yn erbyn cyfleoedd hyfforddiant mae angen gwaith i wella dulliau recordio hyfforddiant o fewn yr Awdurdod. Wrth symud ymlaen dylai'r system Adnoddau Dynol newydd a weithredwyd yn 2021/22 gefnogi hyn. Cafodd gwaith dadansoddi'r Bwlch Cyflog Rhywedd ei wneud fel rhan o'r broses o adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb a nodi a oedd angen amcan cydraddoldeb penodol. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn 2022/23 yn gysylltiedig â gweithgareddau adolygu graddau cyflog ehangach.

**Mynd i'r afael ag amrywiaeth y Gweithlu a gweithle cynhwysol trwy ein cynllun cydraddoldeb.**

Rydym wedi nodi nod hirdymor yn ein Cynllun Cydraddoldeb 2020-24 o dan Ein Gweithlu – Yn Amrywiol, Yn Cefnogol ac Yn Gynhwysol:

Nod Tymor Hir 3: Bod ein gweithlu yn amrywiol, ein bod yn gyflogwr o ddewis a bod y staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth mewn amgylchedd gwaith sy'n gynhwysol ac yn deg.

Yn eistedd o dan y nod hwn mae'r amcanion cydraddoldeb canlynol

- Erbyn 2024, bydd gennym mwy o lwybrau posibl i gyflogaeth ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu.
- Erbyn 2024, byddwn drwy fentrau llesiant, hyfforddiant a pholisïau cysylltiedig yn darparu gweithle sy'n gefnogol ac yn gynhwysol
- Erbyn 2024, byddwn yn lleihau'r bwlch cyflog yn yr Awdurdod rhwng y rhywiau, gan ganolbwyntio'n benodol ar brofiadau'r staff yn ein Chwartel Isaf (ar Gyflogau Isaf).